



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Iau 1 Mawrth 2001

Thursday 1 March 2001

Cynnwys
Contents

3	Teyrngedau i'r Clerc ar ei Ymddeoliad <i>Tributes to the Clerk on his Retirement</i>
7	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg <i>Questions to the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language</i>
15	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig <i>Questions to the Minister for Rural Affairs</i>
24	Diwygio Rheol Sefydlog Rhif 12 <i>Revision to Standing Order No. 12</i>
28	Y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy <i>The Sustainable Development Action Plan</i>
52	Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig Cynlluniau Trafnidiaeth Leol <i>Approval of the Local Transport Schemes Special Grant Report</i>
58	Strategaeth NHS Cymru: Parhad <i>The NHS Wales Strategy: Continued</i>
75	Cynnig Trefniadol <i>Procedural Motion</i>
77	Strategaeth NHS Cymru: Parhad <i>The NHS Wales Strategy: Continued</i>
83	Dadl Fer: Llywodraethu Cymru <i>Short Debate: The Governance of Wales</i>
94	Anerchiad gan y Taoiseach, Bertie Ahern <i>Address by the Taoiseach, Bertie Ahern</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad Cenedlaethol am 9.05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Teyrngedau i'r Clerc ar ei Ymddeoliad Tributes to the Clerk on his Retirement

Y Llywydd: Ar Ŵyl Dewi, braint a phleser imi yw croesawu Paul Silk, cyn-glerc Pwyllgor Materion Tramor Tŷ'r Cyffredin, sydd yn ymuno â ni fel Clerc newydd y Cynulliad Cenedlaethol. Ar yr un pryd, pleser arbennig yw dymuno'n dda i John Lloyd, Clerc cyntaf y Cynulliad, ar ei ymddeoliad. Galwaf ar y Trefnydd i ddiolch iddo ar ran y Llywodraeth.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): It is with great pleasure that I take this opportunity to pay tribute to John, and to welcome Paul to his new position. I speak on behalf of the First Minister, who unfortunately cannot be here, and on behalf of my colleagues in the Labour group. John will be greatly missed. As those of us who attended John's farewell reception the other night will know, he joined the Welsh Office in 1971, having previously been in the Treasury, and he made some interesting and astringent remarks about the Treasury the other night. He held several senior positions in the Welsh Office. Through his professionalism and integrity, he rightly became highly regarded by his colleagues. The fact that so many attended the reception testifies to the high regard in which John is held by officials, who probably know him better than we do. However, he is also highly regarded by Assembly Members, many of whom who attended his farewell reception.

John, you have had the unique opportunity of being the first Clerk to the Assembly, which is a personal honour for you, and an honour for the Assembly as a whole. You have brought to your post the high standards of conduct and integrity that you have maintained throughout your career. From one Swansea boy to another—if I could presume to describe myself as a 'Swansea boy'—I will miss your wonderfully dry sense of humour, although I thought that some of your

The Presiding Officer: On St David's day, it is an honour and pleasure for me to welcome Paul Silk, former clerk to the House of Commons Foreign Affairs Committee, who joins us as new Clerk to the National Assembly. At the same time, it is a special pleasure to wish John Lloyd, the first Clerk to the National Assembly, well on his retirement. I call on the Minister for Assembly Business to thank him on behalf of the Government.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Pleser o'r mwyaf yw manteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i John, ac i groesawu Paul i'w swydd newydd. Siaradaf ar ran Prif Weinidog Cymru, na all fod yma yn anffodus, ac ar ran fy nghyd-Aelodau yn y grŵp Llafur. Bydd colled fawr ar ôl John. Fel y gŵyr y rheini ohonom a fynychodd dderbynwest ffarwelio John y noson o'r blaen, ymunodd â'r Swyddfa Gymreig yn 1971, ar ôl bod yn y Trysorlys cyn hynny, a gwnaeth rai sylwadau diddorol a deifiol ynghylch y Trysorlys y noson o'r blaen. Bu mewn sawl swydd uchel yn y Swyddfa Gymreig. Drwy gyfrwng ei broffesiynoldeb a'i onestrwydd, daeth yn uchel ei barch ymhlith ei gydweithwyr, ac yn gyfiawn felly. Yr oedd y ffaith bod cynifer wedi mynychu'r dderbynwest yn tystio i'r parch mawr sydd gan swyddogion tuag at John, sydd fwy na thebyg yn ei adnabod yn well na ni. Fodd bynnag, mae ef hefyd yn uchel ei barch ymysg Aelodau'r Cynulliad, a mynychodd nifer ohonynt ei dderbynwest ffarwelio.

John, cawsoch y cyfle unigryw o fod yn Glerc cyntaf y Cynulliad, sydd yn anrhydedd personol i chi, ac yn anrhydedd i'r Cynulliad cyfan. Yr ydych, drwy gydol eich gyrfa, wedi meddu ar safonau uchel o ymddygiad a chywirdeb, a daethoch â'r rheini i'r swydd hon. Oddi wrth un bachgen o Abertawe i un arall—os gallaf honni ddisgrifio fy hun fel 'bachgen o Abertawe'—byddaf yn gweld eisiau eich synnwyr digrifwch arbennig o sych, er imi gredu bod rhai o'ch sylwadau

remarks on Tuesday evening were a bit off-message. You have the freedom now to say what you really think. We had some lovely examples of your humour the other night, and we have had many examples in the Business Committee. The Committee has also benefited from your wise advice. I am sure that Committee members, past and present, would all agree that your role has been crucial in ensuring the smooth management of the Assembly's business. John, on behalf of your many friends and colleagues in the Cabinet, Cathays Park, this building and throughout the Assembly, I wish you well for many happy and fulfilling years of retirement.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Ategaf y diolchiadau i John, Clerc cyntaf y Cynulliad, ar ei ymddeoliad gan ddymuno popeth da iddo yn y blynyddoedd sydd i ddod. Ymddiheuraf nad oedd modd imi fod yn bresennol yn eich derbyniad, ond clywais adroddiadau gwych ynglŷn â'ch hiwmor unigryw. Mae hynny yn nodweddiadol o'ch cyfnod yma.

Nid oeddwn yn eich adnabod yn dda cyn ichi ddod yn Clerc y Cynulliad, ond cofiaf mai chi oedd yn croesawu Aelodau ar y diwrnod cyntaf. Mae hynny'n atgof melyn o'm dirwrnod cyntaf i yma ac, yr wyf yn siŵr, yn atgof melyn i nifer fawr o Aelodau eraill.

Fel aelod o'r Pwyllgor Busnes o'r dyddiau cynnar, fel Andrew, yr wyf yn ddiolchgar am eich cymorth, eich cyngor, a'ch parodrwydd bob amser i wrando ar bobl a oedd yn gwneud eu gorau yn nyddiau cynnar y Cynulliad ac yn dibynnu ar eich cyngor. Diolch am hynny.

Mae bod yn Clerc cyntaf y Cynulliad yn deyrnged uchel i chi. Yr ydym oll yn sylweddoli ein bod ar ddechrau oes sefydliad newydd yng ngwleidyddiaeth Cymru, ac mae gan eich cyfraniad at y broses o sefydlu a sicrhau datblygiad y Cynulliad le anrhydeddus yn hynny. Ar ran grŵp Plaid Cymru, diolchaf ichi am eich cyfraniad yn ystod y cyfnod hwnnw a dymunaf yn dda i chi yn y dyfodol. Bydd gennym atgofion melyn o'ch cyfnod fel Clerc y Cynulliad.

nos Fawrth braidd ar grwydr. Mae gennych y rhyddid bellach i fynegi eich barn yn onest. Cawsom rai enghreifftiau hyfryd o'ch hiwmor y noson o'r blaen, ac yr ydym wedi profi hynny sawl tro yn y Pwyllgor Busnes. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi elwa ar eich cyngor doeth. Yr wyf yn siŵr y byddai pob cyn aelod ac aelodau presennol y Pwyllgor yn cytuno y bu eich rôl yn hanfodol wrth sicrhau rheolaeth lefn ar fusnes y Cynulliad. John, ar ran eich ffrindiau a'ch cydweithwyr niferus yn y Cabinet, ym Mharc Cathays, yn yr adeilad hwn a thrwy'r Cynulliad cyfan, dymunaf y gorau ichi ar gyfer ymddeoliad hapus a bodlon.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I endorse the thanks to John, the first Clerk to the Assembly, on his retirement and wish him the best of everything in years to come. I apologise that I was unable to be present at your reception, but I have heard excellent reports of your unique humour. That is typical of your period here.

I did not know you well before you became Clerk to the Assembly, but I do remember that it was you who welcomed Members on the first day. That is a fond memory of my first day here and, I am sure, is a fond memory for many other Members.

As a member of the Business Committee from the early days, like Andrew, I am grateful for your assistance, advice and willingness at all times to listen to people who were doing their best in the Assembly's early days and who were dependent upon your advice. Thank you for that.

Being the first Clerk to the Assembly is a great tribute to you. We all realise that we are in the early days of a new institution in the politics of Wales, in which your contribution to the process of establishing and ensuring the Assembly's progress has secured an honourable place. On behalf of the Plaid Cymru group, I thank you for your contribution during that time and wish you well for the future. We will have fond memories of your time as Clerk to the Assembly.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): On behalf of the Welsh Conservative group and, I am sure, on behalf of all Assembly Members, we wish you well in your retirement. You have been unfailingly courteous, calm and measured at all times, your integrity is undoubted and you were always competent in your advice. One of your hidden talents emerged a few weeks ago when we welcomed an overseas delegation, when I discovered that you are good at leading Welsh singing. I know that that you intend to indulge your love of hill walking during your retirement, but we look forward to keeping in close contact with you, and wish you all the best in your retirement.

Kirsty Williams: On behalf of the Liberal Democrat group, I thank you most sincerely for your efforts in helping this unique institution on its way. I know from the experiences of my colleague, Jenny Randerson, who acted as the Liberal Democrat group's business manager initially, that your help and guidance in the early days was much appreciated, which I have now come to appreciate as a member of the Business Committee. My overriding memory will be of your sense of humour and the infectious laugh that has always echoed around the Assembly's corridors, which will be missed. On behalf of the Liberal Democrat group, I thank you, once again, for your hard work and commitment to this institution, and wish you well in your retirement.

Peter Law: As a backbencher, I would like to pay tribute to John, and also to welcome Paul Silk to the Assembly. I am pleased to say that his forbears hailed from my constituency, and are a distinguished family in the area. I look forward to his working with us in the future and wish him well in the post.

I appreciate the way in which John has carried out his duties, with great integrity and with a professional and dedicated leaning. I have not been in contact with him a great deal, and have mostly seen him in the Assembly's corridors. However, I will never forget 10 May 1999, the day on which I

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru ac, yr wyf yn sicr, ar ran holl Aelodau'r Cynulliad, dymunwn yn dda ichi ar eich ymddeoliad. Buoch yn gwrtais yn ddi-ffael, yn dawel a phwyllog bob amser, mae eich gonestrwydd yn ddi-gwestiwn ac yr oeddech wastad yn ddeheuig o ran eich cyngor. Daeth un o'ch doniau cudd i'r amlwg ychydig wythnosau yn ôl pan y bu inni groesawu dirprwyaeth o dramor, a chanfŵm eich bod yn dda wrth arwain canu Cymreig. Gwn eich bod yn bwriadu mynd ar drywydd eich hoffter o fynyddau yn ystod eich ymddeoliad, ond edrychwn ymlaen at gadw mewn cysylltiad agos â chi, a dymunwn y gorau ichi ar eich ymddeoliad.

Kirsty Williams: Ar ran grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, diolchaf yn ddiffuant iawn ichi am eich ymdrechion i helpu i roi'r sefydliad unigryw hwn ar ben y ffordd. Gwn, ar sail profiadau fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson, a weithredodd fel rheolwr busnes grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn wreiddiol, fod eich help a'ch arweiniad yn y dyddiau cynnar wedi'i werthfawrogi'n fawr, a bellach yr wyf finnau hefyd wedi dod i'w werthfawrogi fel aelod o'r Pwyllgor Busnes. Fy atgof pennaf amdanoch fydd eich synnwyr digrifwch a'r chwerthiniad heintus a oedd bob amser yn adleisio o amgylch coridorau'r Cynulliad, a gwelir eisiau hynny. Ar ran grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, diolchaf ichi, unwaith eto, am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad i'r sefydliad hwn, a dymunaf yn dda ichi yn ystod eich ymddeoliad.

Peter Law: Fel Aelod mainc gefn, hoffwn dalu teyrnged i John, a hefyd croesawu Paul Silk i'r Cynulliad. Yr wyf yn falch i ddweud bod ei hynafiaid yn hanu o'm hetholaeth, ac maent yn deulu uchel eu parch yn yr ardal. Edrychaf ymlaen at weithio gydag ef yn y dyfodol a dymunaf yn dda iddo yn y swydd.

Gwerthfawrogaf y ffordd mae John wedi ysgwyddo ei ddyletswyddau, gyda llawer o gywirdeb ac â thuedd broffesiynol ac ymroddedig. Nid wyf wedi cael llawer o gysylltiad ag ef, ac yr wyf yn bennaf wedi'i weld yng nghoridorau'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid anghofiaf fyth 10 Mai 1999, sef

arrived at the Assembly. It involved the swiftest delivery of process that I have ever seen, and reflected his ability to organise such occasions. I know that he has always been a fan of mountain climbing, which is probably why he became the first Clerk to the Assembly. He has had a mountain to climb, and has done so very well. His courtesy to all Members, from all parties, reflects his hallmark of inclusiveness. You have acquitted yourself with great honour, John, and I wish you every happiness and success during a well-deserved retirement.

John Griffiths: I add my appreciation for John's help, advice and experience in dealing with Commonwealth Parliamentary Association matters. I value what has been extremely useful help. We managed to get that body off the ground in the Assembly, when we had very little on which to base our proceedings. In addition to your advice, experience and expertise, I have also valued your companionship and friendship during visits to the Isle of Man and Edinburgh, for example, for which I also thank you. If it had not been for your contribution, we would have had great difficulty in taking forward the Assembly branch of the Commonwealth Parliamentary Association, particularly in its early days.

Y Llywydd: Hoffwn ychwanegu gair byr am John. Bu inni gwrrd am y tro cyntaf mewn cyfarfod ym Mlaenau Ffestiniog yn 1974, pan oeddwn yn Aelod Seneddol braidd yn ifanc a oedd newydd ei ethol i gynrychioli Meirionnydd Nant Conwy. Bryd hynny, yr oeddech yn ysgrifennydd preifat cymharol ifanc i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, sef John Morris. Yr ydym wedi teithio mewn cylch, fel petai, o'r hen drefn o lywodraeth yng Nghymru, i'r drefn newydd. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am lansio llong y Cynulliad i fôr tymhestlog gwleidyddiaeth y Bae. Gallwch ymfalchïo yn y ffaith mai chi oedd Clerc cyntaf y Cynulliad, sydd yn gyrhaeddiad unigryw i goroni gyrfa nodedig yn y gwasanaeth sifil. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am hwyluso'r ffordd mor raslon i Paul Silk, eich olynydd.

9:15 a.m.

y diwrnod y cyrhaeddais y Cynulliad. Cafwyd y broses mwyaf slic a welais erioed, ac adlewyrchwyd ei allu i drefnu achlysuron o'r fath. Gwn ei fod wedi mwynhau mynydda erioed, a dyna paham y daeth mwy na thebyg yn Glerc cyntaf y Cynulliad. Yr oedd ganddo fynydd i'w ddringo, ac mae wedi gwneud hynny'n gampus. Mae ei gwrteisi i bob Aelod, o bob plaid, yn adlewyrchu ei arfer o gynnwysoldeb Yr ydych wedi chwarae eich rhan yn llawn anrhydedd, John, a dymunaf pob hapusrwydd a llwyddiant ichi yn ystod ymdeoliad haeddiannol iawn.

John Griffiths: Ychwanegaf fy niolch am help, cyngor a phrofiad John wrth ddelio â materion sydd yn ymwneud â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Gwerthfawrogaf yr hyn a fu'n gymorth defnyddiol tu hwnt. Llwyddasom i sicrhau bod y corff hwnnw'n cael ei draed oddi tano yn y Cynulliad, pan nad oedd gennym lawer i seilio'n trafodion arno. Ynghyd â'ch cyngor, profiad ac arbenigedd, yr wyf hefyd wedi gwerthfawrogi eich cwmnïaeth a'ch cyfeillgarwch yn ystod ymweliadau i Ynys Manaw a Chaeredin, er enghraifft, a diolchaf ichi am hynny hefyd. Oni bai am eich cyfraniad chi, byddem wedi cael cryn anhawster wrth sefydlu cangen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, yn arbennig yn ei ddyddiau cynnar.

The Presiding Officer: I will add a brief word about John. We met for the first time at a meeting in Blaenau Ffestiniog in 1974, when I was a rather green Member of Parliament, who had just been elected to represent Meirionnydd Nant Conwy. At that time, you were a comparatively young private secretary to the then Secretary of State for Wales, John Morris. We have come full circle, as it were, from the old system of government in Wales, to the new system. I thank you for launching the Assembly ship onto the tempestuous sea of politics in the Bay. You can take pride in the fact that you were the first Clerk to the Assembly, which is a unique achievement to crown a distinguished career in the civil service. I am grateful to you for preparing the ground so graciously for Paul Silk, your successor.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg Questions to the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language

Annog Twristiaeth Ddiwylliannol Encouraging Cultural Tourism

Q1 Kirsty Williams: What action has the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language taken to encourage cultural tourism in Wales? (OAQ9991)

The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language (Jenny Randerson): The Wales Tourist Board realises the importance of cultural tourism in Wales and is preparing a draft cultural tourism strategy that will go out to consultation. It will work in partnership with other organisations to achieve the targets agreed in that strategy. I also invited all the major Assembly sponsored public bodies, broadcasters, and the Welsh Local Government Association to attend the first meeting of Cymru'n Creu on 26 February. This group will provide a forum to discuss particular opportunities or problems, and support action on behalf of partnerships and an open information channel between the bodies concerned and the Assembly. I envisage that developing cultural industries will be one of the first issues to be tackled. I have also attended meetings of the cultural industries taskforce and meetings of the Britain Abroad taskforce.

Kirsty Williams: As you know, Brecon and Radnorshire host several cultural festivals including the literary festival at Hay-on-Wye, the classical music festival at Presteigne and the well-known Brecon jazz festival. What steps will you take to ensure the long-term future of these festivals, which provide cultural events for local people as well as attracting many tourists to mid Wales?

Jenny Randerson: I was concerned when I heard about the problems faced by the Brecon jazz festival. I was delighted when its three-year agreement with the BBC, which brought in £75,000, meant that it was no longer under threat. However, I regard that

C1 Kirsty Williams: Pa gamau y mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg wedi'u cymryd i annog twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru? (OAQ9991)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson): Mae Bwrdd Croeso Cymru yn sylweddoli pwysigrwydd twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru ac mae'n paratoi strategaeth ddrafft ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol a fydd yn destun ymgynghoriad. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill er mwyn cyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt yn y strategaeth honno. Estynnaf wahoddiad hefyd i'r holl brif gyrff cyhoeddus a ariennir gan y Cynulliad, darlledwyr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynychu cyfarfod cyntaf Cymru'n Creu ar 26 Chwefror. Bydd y grŵp hwn yn darparu fforwm i drafod cyfleoedd neu broblemau arbennig, a chefnogi gweithredu ar ran partneriaethau a sianel wybodaeth agored rhwng y cyrff perthnasol a'r Cynulliad. Rhagwela y bydd datblygu diwydiannau diwylliannol yn un o'r materion cyntaf yr ymdrinnir â hwy. Mynychais hefyd gyfarfodydd tasglu'r diwydiannau diwylliannol a chyfarfodydd tasglu Prydain Dramor.

Kirsty Williams: Fel y gwyddoch, mae Aberhonddu a Maesyfed yn cynnal nifer o wyliau diwylliannol gan gynnwys yr ŵyl lenyddol yn Y Gelli Gandryll, yr ŵyl cerddoriaeth glasurol yn Llanandras a'r ŵyl jazz adnabyddus yn Aberhonddu. Pa gamau a gymerwch i sicrhau dyfodol tymor hir y gwyliau hyn, sydd yn darparu digwyddiadau diwylliannol ar gyfer pobl leol yn ogystal â denu nifer o dwristiaid i ganolbarth Cymru?

Jenny Randerson: Yr oeddwn yn bryderus pan glywais am y problemau a wynebir gan ŵyl jazz Aberhonddu. Yr oeddwn wrth fy modd pan olygodd ei chytundeb tair blynedd gyda'r BBC, a roddodd £75,000 iddi, nad oedd bellach o dan fygythiad. Fodd bynnag,

situation as unacceptable. I share your concern about the problems that face a well-established festival like this, which brings international recognition for Wales. That is why I raised the need for a co-ordinated policy and support for festivals at the Cymru'n Creu meeting on Monday. I believe that we in Cymru'n Creu will be working on this issue as an early priority as part of our overview of the creative industries in general, and cultural tourism in particular.

Cynog Dafis: A yw'r Gweinidog yn cytuno bod twristiaeth ddiwylliannol lwyddiannus yn dibynnu ar fywiogrwydd y diwylliant brodorol ac ar greu'r hyder a'r *capacity* i gyflwyno hynny i ymwelwyr, fel mae'r adroddiad 'Diwylliant Cytûn' yn dadlau, ac fel y mae'r Gwyddelod yn arbennig wedi ei ddangos? A yw'n rhannu fy mhryder bod cynlluniau Amcan 1 i greu'r *capacity* hwnnw wedi eu gwrthod, a bod cyllid cronfa blaenoriaeth 5, mesur 6 Amcan 1 yn annigonol? A wnaiff godi hyn gyda'r Gweiniog dros Ddatblygu Economaidd?

Jenny Randerson: As a matter of principle I share your view on the importance of the vitality of local culture. I am not aware of the details to which you referred, but I am willing to raise this matter with the Minister for Economic Development. I will write to you to inform you of the outcome of those discussions.

ystyriaif fod y sefyllfa honno yn annerbyniol. Rhannaf eich pryder ynghylch y problemau sydd yn wynebu gŵyl sydd wedi hen ennill ei phlwyf, fel hon, ac y caiff Cymru gydnabyddiaeth ryngwladol yn ei sgîl. Dyna pam y codais yr angen am bolisi cydlynus a chefnogaeth i'r gwyliau yng nghyfarfod Cymru'n Creu ddydd Llun. Credaf y byddwn ni yn Cymru'n Creu yn gweithio ar y mater hwn fel blaenoriaeth gynnar fel rhan o'n trosolwg o'r diwydiannau creadigol yn gyffredinol, a thwristiaeth ddiwylliannol yn arbennig.

Cynog Dafis: Does the Minister agree that successful cultural tourism depends on the vitality of the indigenous culture and on creating the confidence and capacity to present that to visitors, as the report 'A Culture in Common' argues, and as the Irish especially have demonstrated? Does she share my concern that Objective 1 schemes to create that capacity have been turned down, and that there is insufficient funding in the budget for Objective 1's measure 6, priority 5? Will she raise this with the Minister for Economic Development?

Jenny Randerson: Fel mater o egwyddor rhannaf eich safbwynt ar bwysigrwydd bywiogrwydd diwylliant leol. Nid wyf yn ymwybodol o'r materion y cyfeiriasoch atynt, ond yr wyf yn barod i godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o ganlyniad y trafodaethau hynny.

Prifddinas Diwylliant Ewrop European Capital of Culture

Q2 Jonathan Morgan: What support can the Minister offer Cardiff to host the European Capital of Culture in 2008? (OAQ9983)

Jenny Randerson: As a member of the Culture Committee, you will be aware, from yesterday's meeting, that the Minister for Finance responded to a letter from Russell Goodway, the Lord Mayor of Cardiff County Council, on 15 February, indicating that match funding could be available to help Cardiff prepare a bid for European Capital of Culture in 2008.

C2 Jonathan Morgan: Pa gymorth all y Gweinidog ei gynnig i Gaerdydd i groesawu Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ9983)

Jenny Randerson: Fel aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, byddwch yn ymwybodol, ers y cyfarfod ddoe, fod y Gweinidog dros Gyllid wedi ymateb i lythyr oddi wrth Russell Goodway, Arglwydd Faer Cyngor Sir Caerdydd, ar 15 Chwefror, yn awgrymu y gallai arian cyfatebol fod ar gael i helpu Caerdydd i baratoi cais ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

Jonathan Morgan: As we discovered in that committee meeting yesterday, the Arts Council of Wales is actively pursuing a policy of diverting funds and support for drama away from the capital city. This will have a negative impact on any bid for European Capital of Culture for 2008 and I ask you to raise this with the Arts Council as an urgent matter.

Jenny Randerson: We did not discover that yesterday. This is an Arts Council of Wales policy that predates the Assembly's establishment. It is under review at the moment, as is every aspect of the Arts Council of Wales operation.

Owen John Thomas: In light of the city's wish to be the European Capital of Culture on behalf of the whole of Wales, will you support the promotion of new and existing cultural amenities in the nearby valleys and in the Vale, as well as enhancing facilities in Cardiff?

Jenny Randerson: A successful capital of culture bid must involve partnership between the local authorities in the surrounding area, and it must help Wales as a whole and raise its profile. I assure you, Owen, that any practical arrangements that are put in place to help Cardiff with its bid will rely strongly on the need for partnership and for this to be an all-Wales bid.

John Griffiths: When we think of other Celtic countries such as Scotland and Ireland, they have a tremendous range of goods on offer to visitors, such as clothing, food, drink and many other items. What strategy will be followed to ensure that Wales develops a much stronger ability to offer distinctive branded Welsh goods to visitors to Wales?

Jenny Randerson: When I visited Scotland and Ireland, I noticed that there is a much stronger range of products on offer. That is important. The Wales Tourist Board's cultural strategy offers an excellent opportunity to develop that and I will bring it to its attention in the near future. I will write to the Wales Tourist Board about that and

Jonathan Morgan: Fel y canfuom yng nghyfarfod y pwyllgor hwnnw ddoe, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi polisi ar waith ar gyfer arallgyfeirio nawdd a chymorth ar gyfer drama o'r brifddinas. Caiff hyn effaith negyddol ar unrhyw gais ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewrop ar gyfer 2008 a gofynnaf ichi godi hyn gyda Chyngor y Celfyddydau ar fyrder.

Jenny Randerson: Ni chanfuom hynny ddoe. Polisi Cyngor Celfyddydau Cymru yw hwn sydd yn rhagddyddio sefydlu'r Cynulliad. Mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, ynghyd â phob agwedd ar ddull Cyngor Celfyddydau Cymru o weithredu.

Owen John Thomas: Yng ngoleuni dymuniad y ddinas i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop ar ran Cymru gyfan, a wnewch chi gefnogi hybu amwynderau diwylliannol newydd a'r rhai sydd yn bodoli eisoes yn y cymoedd gerllaw ac yn y Fro, yn ogystal â gwella'r cyfleusterau yng Nghaerdydd?

Jenny Randerson: Mae'n rhaid i gais llwyddiannus ar gyfer prifddinas diwylliant gynnwys partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol yn yr ardal o'i hamgylch, ac mae'n rhaid iddo helpu Cymru gyfan a chodi ei phroffil. Rhoddaf sicrwydd i chi, Owen, y bydd unrhyw drefniadau ymarferol a roddir ar waith i helpu cais Caerdydd yn dibynnu'n fawr ar yr angen am bartneriaeth ac ar i hwn fod yn gais ar ran Cymru gyfan.

John Griffiths: Pan feddylw'n am wledydd Celtaidd eraill megis yr Alban ac Iwerddon, mae ganddynt amrywiaeth aruthrol o nwyddau i'w cynnig i ymwelwyr, megis dillad, bwyd, diod a nifer o eitemau eraill. Pa strategaeth a ddilynir er mwyn sicrhau bod Cymru'n datblygu llawer mwy o allu i gynnig nwyddau Cymreig nodweddiadol i ymwelwyr â Chymru?

Jenny Randerson: Pan ymwelais â'r Alban ac Iwerddon, sylwais fod amrywiaeth llawer ehangach o nwyddau ar gael. Mae hynny'n bwysig. Mae strategaeth ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru'n cynnig cyfle gwych i ddatblygu hynny a dof ag ef i'w sylw yn y dyfodol agos. Ysgrifennaf at Fwrdd Croeso Cymru i'r perwyl hwnnw a sicrhau ei fod yn

ensure that it is aware of your views.

ymwybodol o'ch safbwyntiau.

Sefydlu Oriel Gelf Genedlaethol Establishing a National Art Gallery

Q3 Nick Bourne: Has the Minister given further consideration to establishing a national art gallery for Wales? (OAQ10005)

C3 Nick Bourne: A yw'r Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth bellach i sefydlu oriel gelf genedlaethol ar gyfer Cymru? (OAQ10005)

Jenny Randerson: National Museums and Galleries of Wales is currently undertaking a review of the display of its art collections and its collections as a whole. That work will bring forward a number of options, which might include a new national art gallery and more effective co-operation with local authority galleries and museums. There will be a public consultation exercise later this year on the options that have been identified, including their potential costs. NMGW will be arranging a seminar for Assembly Members shortly to set out the review's early findings and to enable Members to express their views.

Jenny Randerson: Mae Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru wrthi'n adolygu'r arddangosfa o'i gasgliadau celf a'i gasgliadau yn gyffredinol. Bydd y gwaith hwnnw'n amlygu nifer o opsiynau, a allai gynnwys oriel gelf genedlaethol newydd a chydweithredu mwy effeithiol gydag oriolau ac arddangosfeydd lleol. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni ar yr opsiynau a nodwyd, gan gynnwys eu costau posibl. Bydd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn trefnu seminar ar gyfer Aelodau'r Cynulliad cyn bo hir er mwyn nodi canfyddiadau cynnar yr adolygiad ac er mwyn caniatáu i aelodau fynegi eu safbwyntiau.

Nick Bourne: Dublin and Edinburgh have a range of galleries. London has a massive range of galleries. There are 43,000 items currently not on display and are, therefore, unseen by the public in Wales. Is St David's day not a wonderful opportunity to express our commitment to Wales's national identity and for you to give a commitment to establishing a national art gallery?

Nick Bourne: Mae gan Ddilyn a Chaeredin amrywiaeth o oriolau. Mae gan Lundain amrywiaeth mawr o oriolau. Ar hyn o bryd mae 43,000 o eitemau heb eu harddangos ac felly nad ydynt yn cael eu gweld gan y cyhoedd yng Nghymru. Onid yw Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle gwych i fynegi ein hymrwymiad i hunaniaeth genedlaethol Cymru ac ichi roi ymrwymiad i sefydlu oriel gelf genedlaethol?

Jenny Randerson: It is important to remember that we have a national gallery in the National Museum of Wales. I have always believed that there is a failure to market that gallery. However, I agree that there are great opportunities for increasing the range of art that we display. It is also important that the National Museum of Wales and the National Library of Wales work together to consider a full range of options. I have made clear to the National Museum of Wales that the establishment of a national art gallery must be one of the options put to us as part of that public consultation. The decision to have a consultation was taken prior to my tenure of office. I have ensured that that consultation will not only be within the

Jenny Randerson: Mae'n bwysig sylweddoli bod gennym oriel genedlaethol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yr wyf wastad wedi credu na lwyddir i farchnata'r oriel honno. Fodd bynnag, cytunaf â chi fod cyfleoedd gwych ar gyfer cynyddu'r amrywiaeth o gelf yr ydym yn ei arddangos. Mae hefyd yn bwysig fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n cydweithio er mwyn ystyried amrywiaeth lawn yr opsiynau. Yr wyf wedi'i gwneud yn glir i Amgueddfa Genedlaethol Cymru mai sefydlu oriel gelf genedlaethol yw un o'r opsiynau y mae'n rhaid ei gyflwyno i ni fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw. Gwnaethpwyd y penderfyniad i gynnal

profession, but also with the public. I have also ensured that the museum holds a seminar with Members, at which you, I am sure, will put your point of view. However, as a Conservative, Nick, I am sure that you would not wish me to make an open-ended commitment without a pound sign attached to it. We do not yet know the cost of the options available.

ymgyngoriad cyn imi ymgymryd â'r swydd hon. Yr wyf wedi sicrhau y caiff yr ymgynghoriad ei gynnal nid o fewn y proffesiwn yn unig, ond gyda'r cyhoedd hefyd. Yr wyf hefyd wedi sicrhau y bydd yr amgueddfa yn cynnal seminar gydag Aelodau, lle y byddwch chi, mae'n siŵr, yn mynegi eich barn. Fodd bynnag, fel Ceidwadwr, Nick, yr wyf yn siŵr na fydddech yn dymuno imi wneud ymrwymiad penagored heb roi pris ar ei gyfer. Ni wyddom eto faint yw cost yr opsiynau sydd ar gael.

9:25 a.m.

Peter Black: Given that devolution is a process that should be carried out across Wales, do you agree that any new national institutions, such as a national art gallery, should be spread around Wales and located outside of Cardiff? If plans are to go ahead for a new national art gallery, would you consider looking at sites in other parts of Wales such as Swansea, Bridgend or even north Wales?

Peter Black: O ystyried bod datganoli yn broses y dylid ei rhoi ar waith ledled Cymru, a gytunwch y dylai unrhyw sefydliadau cenedlaethol newydd, megis oriel gelf genedlaethol, gael eu gwasgaru ar draws Cymru a'u lleoli y tu allan i Gaerdydd? Os bydd cynlluniau ar gyfer oriel gelf genedlaethol yn cael eu gwireddu, a fydddech yn ystyried edrych ar safleoedd mewn rhannau eraill o Gymru megis Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr neu hyd yn oed ogledd Cymru?

Jenny Randerson: One purpose of the consultation is to ensure that we consider all the options. There is a strong commitment to this. It is important that we not only consider a national art gallery, but other ways to widen the availability of collections, as well as, or perhaps even instead of, a national art gallery. It is important that those collections are available throughout Wales. I am keen on developing a number of galleries in Wales where appropriate space is available for such exhibitions. It would not be impossible to have designated galleries throughout Wales where regular exhibitions could take place.

Jenny Randerson: Un o ddibenion ymgynghori yw sicrhau ein bod yn ystyried yr holl opsiynau. Ceir ymrwymiad cryf i hyn. Mae'n bwysig ein bod nid yn unig yn ystyried oriel gelf genedlaethol, ond ffyrdd eraill o ehangu argaeledd casgliadau yn ogystal ag, neu hyd yn oed yn lle, oriel gelf genedlaethol. Mae'n bwysig fod y casgliadau hynny ar gael ledled Cymru. Yr wyf yn awyddus i ddatblygu nifer o orielau yng Nghymru lle mae gofod addas ar gael ar gyfer arddangosfeydd o'r fath. Ni fyddai'n amhosibl cael orielau penodedig ledled Cymru er mwyn cynnal arddangosfeydd rheolaidd.

Amrywiadau Teledu Rhanbarthol Cymreig Welsh Regional Television Variations

Q4 Karen Sinclair: Does the Minister have any plans to improve the access to Welsh regional television variations in north-east Wales? (OAQ9917)

C4 Karen Sinclair: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i wella mynediad i amrywiadau teledu rhanbarthol Cymreig yng ngogledd-ddwyrain Cymru? (OAQ9917)

Jenny Randerson: I agree that there is a

Jenny Randerson: Cytunaf fod angen

need to increase the take-up of Welsh television, particularly in east Wales. However, broadcasting is not a devolved matter, so this is not a matter on which I can take action. I can draw the attention of British Government Ministers to the issue and we have recently done that in the Assembly Cabinet's response to the Government's White Paper on communications.

Karen Sinclair: Do you agree that regional media coverage is essential to raise the profile of the Assembly in north-east Wales?

Jenny Randerson: Yes. The turn-out at the referendum and the Assembly elections, and the way that people voted, shows that there is a link between people receiving most of their television signals from England and a low voter turn-out and level of interest. For a vigorous and exciting democracy to exist, people need to be interested in the democratic process. We must improve the take-up.

Janet Ryder: I realise that broadcasting is not a devolved issue, but it has a great effect on Wales. You mentioned how it can help to create a sense of nationhood. Many people in north-east Wales cannot receive regional broadcasts. Will you have immediate talks with the broadcasting companies to discuss the possibility of transmitting regional broadcasts from English transmitters? Many people live in the shadow of hills and cannot receive transmissions from Welsh transmitters. Their only way of receiving these broadcasts may be through English transmitters.

Jenny Randerson: I agree that there is still an unsatisfactorily large number of people who can only receive signals from English transmitters. Although digital technology should improve that, it will not make the situation perfect. I have put strongly to the Department for Culture, Media and Sport the need to have transmitters along the English side of the Welsh border to transmit Welsh

cynyddu nifer y bobl sydd yn gallu derbyn teledu Cymreig, yn arbennig yn nwyrain Cymru. Fodd bynnag, nid yw darlledu yn fater a ddatganolwyd, felly nid yw hwn yn fater y gallaf weithredu arno. Gallaf dynnu sylw Gweinidogion Llywodraeth Prydain at y mater ac yr ydym wedi gwneud hynny yn ddiweddar drwy gyfrwng ymateb Cabinet y Cynulliad i bapur gwyn y Llywodraeth ar gyfathrebu.

Kirsty Williams: A gytunwch fod sylw rhanbarthol yn y cyfryngau yn hanfodol er mwyn codi proffil y Cynulliad yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

Jenny Randerson: Ydw. Mae nifer y rhai a bleidleisiodd yn y refferendwm ac yn etholiadau'r Cynulliad, a'r ffordd y pleidleisiodd pobl, yn dangos bod cyswllt rhwng pobl sydd yn derbyn y rhan fwyaf o'u signalau teledu o Loegr a nifer isel o bleidleiswyr a'r diffyg diddordeb. Er mwyn cael democratiaeth fywiog a chyffrous, mae angen i bobl feithrin diddordeb yn y broses. Rhaid inni gynyddu'r nifer o bobl sydd yn derbyn teledu Cymreig.

Janet Ryder: Sylweddolaf nad yw darlledu'n fater a ddatganolwyd, ond mae'n effeithio'n fawr ar Gymru. Crybwyllasoch sut y gall helpu i greu ymdeimlad o genedligrwydd. Ni all nifer o bobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru dderbyn darllediadau rhanbarthol. A gynhaliwch chi drafodaethau ar unwaith gyda'r cwmnïau darlledu er mwyn trafod y posibilrwydd o drosglwyddo darllediadau rhanbarthol o drosglwyddyddion yn Lloegr? Mae nifer o bobl yn byw yng nghysgod bryniau ac ni allant dderbyn trosglwyddiadau o drosglwyddyddion yng Nghymru. Mae'n bosibl mai'r unig ffordd y gallant dderbyn y darllediadau hyn yw drwy drosglwyddyddion yn Lloegr.

Jenny Randerson: Cytunaf fod dal nifer annerbyniol o uchel o bobl sydd ond yn gallu derbyn signalau o drosglwyddyddion yn Lloegr. Er y dylai technoleg ddigidol wella hynny, ni fydd yn sefyllfa berffaith. Yr wyf wedi cyflwyno'r achos yn gryf i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch yr angen i gael trosglwyddyddion ar hyd ochr Lloegr o ffin Cymru er mwyn

programmes to people living in Wales. That would be an unusual solution and some problems are associated with it. However, I assure you that I am vigorously pursuing it.

Val Feld: Are you aware that there are many hotel chains in Cardiff and, I think, in other parts of Wales—certainly in Llandudno—that tune televisions in visitors' rooms to the English rather than the Welsh channels? Will you consider taking this matter up with the Wales Tourist Board? Will you also investigate whether it is within the Assembly's powers to fund a 'tune-in-to-Wales' campaign for those who can receive the signals, to ensure that they are tuning into Welsh channels?

Jenny Randerson: I would be happy to write to the Wales Tourist Board and to investigate the possibility of a campaign. I was in a hotel in Llandudno recently and was annoyed to receive English news. There are some areas where it is not possible to get Welsh reception, which has been referred to, but there are many places where it is possible to get Welsh reception where hotels are providing English reception.

trosglwyddo rhaglenni Cymreig i'r bobl sydd yn byw yng Nghymru. Byddai hynny'n ateb anarferol a cheir rhai problemau yn sgîl hynny. Fodd bynnag, fe'ch sicrhaf fy mod yn dilyn y trywydd hwnnw'n frwd iawn.

Val Feld: A ydych yn ymwybodol bod nifer o gadwyni o westai yng Nghaerdydd ac, fe gredaf, mewn mannau eraill o Gymru—yn sicr yn Llandudno—sydd yn tiwnio pob teledu mewn ystafelloedd gwesteion i'r sianeli Seisnig yn hytrach na Chymreig? A ystyriwch godi'r mater hwn gyda Bwrdd Croeso Cymru? A ymchwiliwch hefyd i weld a yw o fewn pwerau'r Cynulliad i ariannu ymgyrchu 'tiwnio-i-Gymru' ar gyfer y rheini sydd yn gallu derbyn y signalau, er mwyn sicrhau eu bod yn tiwnio i sianeli Cymreig?

Jenny Randerson: Yr wyf yn fodlon ysgrifennu at Fwrdd Croeso Cymru ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal ymgyrch. Yr oeddwn mewn gwesty yn Llandudno yn ddiweddar ac wedi'm cythruddo pan dderbyniais newyddion o Loegr. Mae rhai ardaloedd, y cyfeiriwyd atynt eisoes, lle nad yw'n bosibl derbyn signalau Cymreig, ond ceir nifer o leoedd lle mae'n bosibl derbyn signalau Cymreig ond mae'r gwestai'n cynnig signalau o Loegr.

Cyfansoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru Constitution of Arts Council of Wales

C5 Rhodri Glyn Thomas: A yw'r Gweinidog wedi ystyried ffyrdd o ryddhau Cyngor Celfyddydau Cymru o hualau'r cyfansoddiad presennol sydd yn rheoli ei weithgareddau? (OAQ9931)

Jenny Randerson: There is nothing in the Arts Council of Wales's Royal Charter to hinder it in carrying out its functions as required by the National Assembly. It appears that there is nothing in the changes that we might make to the council's policies, as a result of the policies set out in 'A Culture in Common', or to its structure, which cannot be accommodated within the existing framework. That is the current position. However, as I made clear yesterday in the Culture Committee, Anthony Everett, the special adviser to the council, is, with my agreement, still considering this issue. If he uncovers an insuperable problem relating to

Q5 Rhodri Glyn Thomas: Has the Minister considered ways of freeing the Arts Council of Wales from the confines of the constitution that presently controls its activities? (OAQ9931)

Jenny Randerson: Ni cheir unrhyw beth yn Siarter Brenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru i'w rwystro rhag gweithredu ei swyddogaethau fel sydd yn ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ymddengys nad oes unrhyw beth yn y newidiadau y gallem eu gwneud i bolisiau'r Cyngor, o ganlyniad i'r polisiau a nodir yn 'Diwylliant Cytûn', neu i'w strwythur, na ellir ei ymgorffori o fewn y fframwaith presennol. Dyna yw'r sefyllfa ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel yr eglurais ddoe yn y Pwyllgor Diwylliant, mae Anthony Everett, ymgyngorydd arbennig y cyngor, gyda'm cytundeb, yn dal i ystyried y mater. Os ydyw'n canfod problem anorchfygol o ran

the Royal Charter, I will take that into account.

Rhodri Glyn Thomas: Atgoffaf Jenny o'i hateb yn y Siambr y tro diwethaf y codwyd mater Siarter Brenhinol Cyngor y Celfyddydau a'i effaith ar weithgareddau'r cyngor. Dywedodd:

'Ar hyn o bryd, byddai'n well gweithredu'n gyflym â'r newid i'r siarter yn hytrach na dechrau proses a allai fod yn ddadleuol yn Nhŷ'r Cyffredin drwy geisio cael gwared ar y siarter.'

Beth yn union yw ystyr gweithredu'n gyflym? Beth ydych chi wedi ei wneud? Beth yw eich bwriadau? Sut y byddwch yn diwygio'r siarter hwn, sydd yn cyfyngu ar weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru?

Jenny Randerson: That reference to the need to change the charter relates to the possibility of changing the council's aims and objectives. What I had in mind in particular was the payment of the Arts Council chair or, possibly, board members. As I have made clear, it might be inappropriate to change the charter at this stage, as there is an ongoing review—which I believe has cross-party support—of the payment of all Assembly sponsored public bodies' chairs and board members, to ensure consistency, rather than the messy situation that we have inherited. Once that review is complete and a decision has been made, I will consider changing the charter rapidly. The Scots have already done this. It is not difficult to do. Once the appropriate changes are clear, there is no problem in doing it.

David Melding: In principle, do you not agree that a Royal Charter is a device of the ancien régime, and now that we have reached the glorious, sunlit, broad uplands of devolution, a more direct and accountable mechanism is appropriate?

Jenny Randerson: I am delighted to hear David Melding refer to the previous Conservative Government as the ancien régime. As a historian, I am aware of the problems associated with the original ancien

y Siarter Brenhinol, byddaf yn ystyried hynny.

Rhodri Glyn Thomas: I remind Jenny of her response in the Chamber the last time that the matter of the Arts Council's Royal Charter and its effect on the council's activities was raised. She said:

'At present, it would be better to proceed quickly with the change to the charter rather than embark on a process that could prove controversial in the House of Commons by trying to remove the charter.'

What exactly is meant by proceeding quickly? What have you done? What are your intentions? How will you revise this charter, which restricts the Arts Council of Wales's activities?

Jenny Randerson: Mae'r cyfeiriad hwnnw at yr angen i newid y siarter yn ymwneud â'r posibilrwydd o newid nodau ac amcanion y cyngor. Yr hyn a oedd gennyf dan sylw yn benodol oedd tâl cadeirydd Cyngor y Celfyddydau, neu, o bosibl, aelodau'r bwrdd. Fel yr eglurais, gallai fod yn anaddas newid y siarter ar hyn o bryd, gan fod adolygiad parhaus—sydd â chefnogaeth draws-bleidiol, fe gredaf—o dalu cadeiryddion ac aelodau'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, er mwyn sicrhau cysondeb, yn hytrach na'r sefyllfa anhrefnus yr ydym wedi ei hetifeddu. Pan fydd yr adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau a phenderfyniad wedi'i wneud, ystyriaf newid y siarter yn gyflym. Mae'r Albanwyr eisoes wedi gwneud hyn. Nid yw'n beth anodd i'w wneud. Pan fydd y newidiadau addas yn glir, nid oes unrhyw broblem yn ei wneud.

David Melding: Mewn egwyddor, a gytunwch fod Siarter Brenhinol yn ddyfais sydd yn deillio o'r hen drefn, ac yn awr ein bod wedi cyrraedd ucheldiroedd gogoneddus, goleuedig, ac eang datganoli, ei bod yn briodol cael dull mwy uniongyrchol ac atebol?

Jenny Randerson: Yr wyf wrth fy modd yn clywed David Melding yn cyfeirio ar y Llywodraeth Geidwadol flaenorol fel yr hen drefn. Fel hanesydd, yr wyf yn ymwybodol o'r problemau a oedd yn gysylltiedig â'r hen

régime. The Government to which you refer had many of those problems. However, as I have made clear in this Chamber before, we are living with the existing Royal Charters. There are other organisations in Wales with Royal Charters. We would be entering new territory by doing away with Royal Charters. The Assembly might want to consider it as a policy issue, but that will not be achieved by 2003. As I made clear previously, I am anxious to get the Arts Council of Wales working quickly, and to make any changes that are necessary to its Charter quickly. Let us park the problem of changing the Royal Charters of these organisations and deal with it as part of our policy in relation to Assembly sponsored public bodies.

drefn wreiddiol. Yr oedd gan y Llywodraeth y cyfeiriwch ati nifer o'r problemau hynny. Fodd bynnag, fel yr eglurais yn y Siambr hon o'r blaen, yr ydym yn byw â'r Siarteri Brenhinol sydd yn bodoli eisoes. Mae sefydliadau eraill yng Nghymru sydd â Siarteri Brenhinol. Byddem yn torri tir newydd drwy gael gwared ar Siarteri Brenhinol. Efallai y bydd y Cynulliad yn dymuno ei ystyried fel mater polisi, ond ni chyflawnir hynny erbyn 2003. Fel yr eglurais o'r blaen, yr wyf yn awyddus i gael Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithio'n gyflym, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w Siarter ar fyrder. Gadewch inni roi'r broblem o newid Siarteri Brenhinol y sefydliadau hyn i'r naill ochr a delio ag ef fel rhan o'n polisi mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

9:35 a.m.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Grŵp Strategaeth Wledig Rural Strategy Group

Q1 Karen Sinclair: Will the Minister for Rural Affairs make a brief statement on his plans for a rural strategy group? (OAQ9929)

C1 Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog dros Faterion Gwledig ddatganiad byr ar ei gynlluniau ar gyfer grŵp strategaeth wledig? (OA9929)

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): I reconvened the rural partnership for Wales and chaired a meeting of the partnership on 14 February at Gwbert. Several key policy documents produced by the National Assembly were discussed, including the national economic development strategy. I also presented a paper proposing ways of developing policy for rural Wales. It was a constructive discussion and I will develop my proposals further with the partnership. The partnership aims to meet again in June.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Ailgynullais bartneriaeth wledig Cymru a chadeiriais gyfarfod o'r bartneriaeth yng Ngwbert ar 14 Chwefror. Trafodwyd sawl dogfen bolisi allweddol a luniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Cyflwynais hefyd bapur yn cynnig ffyrdd i ddatblygu polisi ar gyfer Cymru wledig. Yr oedd yn drafodaeth adeiladol a byddaf yn datblygu fy nghynigion ymhellach gyda'r bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn bwriadu cyfarfod eto ym mis Mehefin.

Karen Sinclair: Can you give us a brief update on your work with young farmers' groups on support for young entrants?

Karen Sinclair: A allwch ddweud wrthym yn fras beth yw'r diweddaraf ar eich gwaith gyda grwpiau ffermwyr ifanc ar gyfer cefnogi newydd-ddyfodiaid?

Carwyn Jones: The next meeting of the rural

Carwyn Jones: Bydd cyfarfod nesaf

partnership for Wales will look specifically at achieving an age balance in rural areas. It was meant to discuss young people, but there was a long discussion on the definition of a 'young person'. Therefore, the phrase 'age balance' was used.

However, I met with representatives of young farmers' clubs in November and asked them to create ideas on what support could be given to young farmers. They submitted those ideas and my officials are working on them. I am grateful to them for their work. They made several interesting suggestions, which we hope to investigate to see if they can be implemented.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn siŵr mai un o'r materion y bydd y grŵp strategaeth wledig yn ei ystyried yn ofalus yw effaith clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant. Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel fi, yn tynnu sylw at yr argyfwng hwnnw yn y diwydiant. Gwyddoch mai un o'r problemau mawr sydd yn wynebu ffermwyr sydd yn dioddef o ganlyniad i'r clwyf hwn—yn arbennig yn yr ardaloedd sydd wedi eu neilltuo—yw'r ffaith fod prinder dybryd o ddiheintydd ar gyfer eu ffermydd a'r ardaloedd o'u hamgylch. A allwch addo y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod dosbarthu diheintydd i'r ffermydd hynny'n ddigonol a, lle y mae galw, er enghraifft yn Ynys Môn, a fyddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod pob ffermwr sydd eisiau diheintydd yn ei dderbyn?

Carwyn Jones: Gallaf addo y bydd y Cynulliad a'i swyddogion yn sicrhau bod diheintydd yn cael ei ddsbarthu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Os oes problemau lleol, bydd yn rhaid inni eu hystyried. Y peth cyntaf a wnaethom ddoe oedd gwneud Gorchymyn i ganiatáu defnyddio mwy o ddiheintyddion ar ffermydd. Mae hynny ar fin digwydd. Ynglŷn â dosbarthu diheintyddion, cafwyd problem gyda'r cwmnïau sydd yn eu cynhyrchu. Deallaf heddiw fod digon ar gael, ac mae'n rhaid sicrhau bod diheintydd yn cyrraedd y ffermydd sydd ei angen. Byddem yn ddiolchgar pe bai pobl yn fy hysbysu ynglŷn ag unrhyw broblemau lleol.

partneriaeth wledig Cymru yn edrych yn benodol ar sicrhau cydbwysedd oedran mewn ardaloedd gwledig. Y bwriad oedd trafod pobl ifanc, ond cafwyd trafodaeth hir ar y diffiniad o 'berson ifanc'. Felly, defnyddiwyd yr ymadrodd 'cydbwysedd oedran'.

Fodd bynnag, cyfarfûm â chynrychiolwyr clybiau ffermwyr ifanc fis Tachwedd a gofynnais iddynt lunio syniadau ar ba gefnogaeth y gellid ei rhoi i ffermwyr ifanc. Cyflwynasant y syniadau hynny ac mae fy swyddogion yn gweithio arnynt. Yr wyf yn ddiolchgar iddynt am eu gwaith. Gwnaethant sawl awgrym diddorol, yr ydym yn gobeithio ymchwilio iddynt er mwyn gweld a ellir eu gweithredu.

Ieuan Wyn Jones: I am sure that one of the issues that the rural strategy group will consider carefully is the effect of foot and mouth disease on the industry. I am sure that you are drawing attention, as I am, to that crisis in the industry. You know that one of the greatest problems facing farmers who are suffering as a result of this disease—particularly in the exclusion areas—is the fact that there is an acute shortage of disinfectant for their farms and the surrounding areas. Can you give an assurance that the Government of Wales will do everything in its power to ensure adequate distribution of disinfectant to these farms and, where there is a demand, for example in Anglesey, will you do everything within your power to ensure that every farmer who requires disinfectant receives it?

Carwyn Jones: I can assure you that the Assembly and its officials will ensure that disinfectant is distributed in the most effective way. If there are local problems, we must consider them. The first thing that we did yesterday was to make an Order to increase the amount of disinfectant that can be used on farms. That is about to happen. With regard to the distribution of disinfectants, there was a problem with the companies that produce them. I understand today that there is plenty available and it must be ensured that disinfectant reaches the farms that need it. I would be grateful if people informed me of any local problems.

Y Diwydiant Cig Llo (Defnydd o Loi Dros Ben o Wartheg Godro)
The Veal Industry (Use of Surplus Dairy Calves)

Q2 Richard Edwards: Will the Minister make a statement on the use of surplus dairy calves in the veal industry in Wales? (OAQ9927)

Carwyn Jones: I refer to the Veal Cymru project, which is an innovative scheme being developed to pay farmers for the unwanted offspring of dairy herds. The value of these calves has plummeted in recent years and the Veal Cymru project seeks to reverse the decline in value by developing a welfare-friendly veal industry in Wales. The outcome of the first phase of the project is currently being evaluated.

Richard Edwards: What influence can you bring to bear to encourage greater use of dairy calves as opposed to beef calves? I understand that these are commercial decisions taken by the industry, but what action can you take?

Carwyn Jones: We have been active in seeking to promote Veal Cymru and have supported the project. The first thing that people should understand is that veal is a by-product of the dairy industry. Veal is not raised in itself, but where milk is drunk, veal is created. Therefore, a market has to be found for veal calves otherwise they are destroyed. We have not developed a welfare-friendly veal product during the past few years. That is being done now. It was successfully launched in the autumn. There has been much interest from chefs, restaurants and hotels. We are seeking to ensure that the supply chain is in place so that people who want to try this product, which is a premium product and a welfare-friendly product, are able to do so.

Glyn Davies: We all support your efforts to encourage veal promotion in Wales. However, currently it is hopelessly uneconomic. Do you agree that the real answer—as soon as the BSE controls allow us—is to reintroduce the live export of calves and we should not allow the animal rights

C2 Richard Edwards: A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad byr ar y defnydd o loi dros ben o wartheg godro yn y diwydiant cig llo yng Nghymru? (OAQ9927)

Carwyn Jones: Cyfeiriaf at brosiect Cig Llo Cymru, sydd yn gynllun dyfeisgar a ddatblygir i dalu ffermwyr am epil diangen gwartheg godro. Mae gwerth y lloi hyn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae prosiect Cig Llo Cymru'n ceisio gwyrddroi'r gostyngiad mewn gwerth drwy ddatblygu diwydiant cig llo sydd yn gofalu am les anifeiliaid yng Nghymru. Mae canlyniad cam cyntaf y prosiect yn cael ei werthuso ar hyn o bryd.

Richard Edwards: Pa ddylanwad a allwch chi ei gael er mwyn annog mwy o ddefnydd o loi godro yn hytrach na lloi cig eidion? Deallaf mai penderfyniadau masnachol a wneir gan y diwydiant yw'r rhain, ond pa fath o gamau allwch chi eu cymryd?

Carwyn Jones: Yr ydym wedi bod yn weithredol iawn wrth hybu Cig Llo Cymru ac wedi cefnogi'r prosiect. Y peth cyntaf y dylai pobl ei ddeall yw bod cig llo yn isgynnyrch y diwydiant llaeth. Ni chaiff cig llo ei gynhyrchu ynddo'i hun, ond pan gaiff llaeth ei yfed, crëir cig llo. Felly, mae'n rhaid canfod marchnad ar gyfer cig llo neu fel arall cânt eu dinistrio. Nid ydym wedi datblygu cynnyrch cig llo sydd yn gofalu am les yr anifeiliaid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwneir hynny yn awr. Fe'i lanswyd yn llwyddiannus yn yr hydref. Bu llawer o ddiddordeb oddi wrth bencogyddion, tai bwyta a gwestai. Yr ydym yn ceisio sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn ei lle fel bod pobl sydd yn dymuno arbrofi â'r cynnyrch hwn, sydd yn gynnyrch premiwm ac yn gynnyrch sydd yn gofalu am les anifeiliaid, yn gallu gwneud hynny.

Glyn Davies: Yr ydym oll yn cefnogi eich ymdrechion i annog hybu cig llo yng Nghymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n anobeithiol o aneconomaidd. A gytunwch mai'r ateb mewn gwirionedd—cyn gynted ag y bo rheolaethau BSE yn caniatáu inni wneud hynny—yw ailgyflwyno allforio lloi byw ac

lobby to dictate Government policy.

Carwyn Jones: You are correct to say that the BSE controls place restrictions on exports of veal calves. We must understand that the mainstream members of the public have a serious concern about how veal has been produced in the past. It has been a problem for the veal industry because the public perception is that all veal is produced and raised in veal crates and all veal production is necessarily inhumane. That is not right. It is important that we set this right. I have visited the farm in Bancycapel near Pont-iets and the calves there are reared in a welfare-friendly fashion that does not give rise to any suggestion of cruelty or inhumanity. It is important that people understand that rearing veal is not necessarily more cruel than any other way of raising livestock. I hope that we can build an indigenous market in Wales, the UK and the rest of Europe when the time is right.

Rhodri Glyn Thomas: Byddai pob un ohonom yn awyddus i weld y farchnad hon yn datblygu yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, a yw Carwyn yn cytuno na fydd hynny'n ateb y broblem economiadd y cyfeiriodd ati, sef bod gwerth y lloi hyn wedi gostwng yn sylweddol? O ran canfyddiad pobl o'r hyn sydd yn digwydd yn Ewrop ynghylch datblygu cig llo, a wnaiff dderbyn y cyfrifoldeb i addysgu pobl ynglŷn â'r sefyllfa wirioneddol fel y caiff ffermwyr y cyfle i farchnata eu lloi yn y modd hwn?

Carwyn Jones: Yr wyf yn gwneud hynny eto y bore yma. Rhaid i bobl ddeall nad yw'r diwydiant cig llo yn fwy creulon nag unrhyw ddiwydiant amaethyddol arall. Mae cig llo, yn enwedig y cig llo a brosesir ym Mancycapel, yn cael ei drin mewn modd a fyddai'n dderbyniol i'r cyhoedd. Ni fydd hynny'n datrys y broblem heddiw. Mae'n bwysig sylweddoli bod hwn yn rhywbeth masnachol. Mae cwmni yn cefnogi'r prosiect hwn. Nid yw hynny'n rhywbeth a ddatblygwyd gan unrhyw lefel o lywodraeth. Dechreuwyd y prosiect gan gwmni â diddordebau masnachol. Deallaf fod y cwmni

na ddylem ganiatáu i'r lobi hawliau anifeiliaid bennu polisi'r Llywodraeth?

Carwyn Jones: Yr ydych yn gywir pan ddywedwch fod rheolaethau BSE yn gosod cyfyngiadau ar allforio cig lloi. Rhaid inni ddeall fod gan aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol bryderon difrifol ar sut y cynhyrchwyd cig llo yn y gorffennol. Bu'n broblem i'r diwydiant cig llo am mai canfyddiad y cyhoedd yw bod yr holl gig llo yn cael ei gynhyrchu a'i fagu mewn cratiau cig llo a bod yr holl broses o gynhyrchu cig llo, yn anorfod, yn annynol. Nid yw hynny'n wir. Mae'n bwysig ein bod yn unioni'r cam hwn. Yr wyf wedi ymweld â'r fferm ym Mancycapel ger Pont-iets ac mae'r lloi yno'n cael eu magu mewn modd sydd yn gofalu am eu lles ac ni cheir unrhyw awgrym o greulondeb neu annynoldeb. Mae'n bwysig bod pobl yn deall nad yw magu cig llo, o anghenraid, yn fwy creulon nag unrhyw ffordd arall o fagu da byw. Gobeithiaf y gallwn ddatblygu marchnad frodorol yng Nghymru, y DU a gweddill Ewrop pan fo'r amser yn briodol.

Rhodri Glyn Thomas: We are all anxious to see this market develop in Wales and the United Kingdom. However, does Carwyn agree with me that it will not solve the economic problem to which he referred, namely that the value of these calves has decreased substantially? Regarding people's perceptions of what is happening in Europe in relation to the development of veal, will he accept the responsibility of educating people of the true situation so that farmers have the opportunity to market their calves in this way?

Carwyn Jones: I am doing that again this morning. People must understand that the veal industry is no more cruel than any other agricultural industry. Veal, especially the veal that is processed in Bancycapel, is treated in a way that would be acceptable to the public. That will not solve the problem today. It is important to realise that this is a commercial venture. A company is supporting this project. This is not something that was developed by any level of government. The project was started by a company that has commercial interests. I understand that the company is eager to

yn awyddus i ehangu unwaith y bydd yn gwybod bod y prosiect yn llwyddiant. Dechreuad yw hwn ond gobeithiaf y bydd yn tyfu. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn deall y cynhyrchir cig llo Cymreig mewn modd nad yw'n greulon, sydd o fudd i anifeiliaid, ac unwaith y bydd y farchnad wedi ei chreu, y bydd pobl eisiau prynu cig llo o Gymru.

expand once it knows that the project has proved successful. This is a start but I hope that it will grow. It is important that people in Wales understand that Welsh veal is produced in a way that is not cruel and that is beneficial to animals and, once the market is created, that people will want to purchase Welsh veal.

Biwrocratiaeth mewn Amaethyddiaeth Bureaucracy in Agriculture

Q3 David Davies: What discussions has the Minister had with European Union officials regarding bureaucracy in agriculture? (OAQ9980)

C3 David Davies: Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda swyddogion yr U.E. ynghylch biwrocratiaeth mewn amaethyddiaeth? (OAQ9980)

Carwyn Jones: That is a very wide question, David. I have not discussed this issue with the European Commission staff. However, my officials are working closely with their counterparts in England, Scotland and Northern Ireland to press for simplification of systems and controls regulating agriculture. I am firmly committed to reducing the administrative burden on farmers in Wales where this is possible.

Carwyn Jones: Mae hwn yn gwestiwn eang iawn, David. Nid wyf wedi trafod y mater hwn gyda staff y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â swyddogion cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn pwysu am symleiddio systemau a chyfyngiadau yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Yr wyf yn hollol ymrwymedig i leihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

David Davies: I am delighted with that answer. However, you are aware that I have presented many cases to you where farmers have suffered huge losses due to simple clerical errors including one man who lost out on £10,000 when his house was flooded because of an error on a form. You have listened sympathetically and you have been prepared to meet me to discuss these cases. However, at the end of the day, you have always said that your hands are tied due to EU regulations. On Monday, I met EU officials who assured me that Franz Fischler has said that payments can be made in cases where genuine mistakes have been made. I was reminded that, although the Agriculture Directorate-General makes the regulations, it is not responsible for implementing them. At this time of deep crisis for the agricultural industry, will you take another look at the cases that I have referred to you to see whether you can use your powers to help farmers who have suffered losses due to genuine mistakes?

David Davies: Yr wyf wrth fy modd gyda'r ateb hwnnw. Fodd bynnag, yr ydych yn ymwybodol fy mod wedi cyflwyno nifer o achosion ichi lle mae ffermwyr wedi dioddef colledion anferthol yn sgîl gwallau clerigol gan gynnwys un dyn a gollodd £10,000, pan ddioddefodd ei gartref lifogydd, oherwydd gwall ar ffurflen. Yr ydych wedi gwrandao'n gydymdeimladol ac wedi bod yn barod i gyfarfod â mi i drafod yr achosion hyn. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr ydych wastad wedi dweud eich bod wedi'ch cyfyngu yn sgîl rheoliadau'r UE. Ddydd Llun, cyfarfûm â swyddogion yr UE a'm sicrhodd y gellir gwneud taliadau mewn achosion pan wneir camgymeriadau gwirioneddol. Fe'm hatgoffwyd, er mai Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth sydd yn llunio'r rheoliadau, nid yw'n gyfrifol am eu rhoi ar waith. Ar adeg yr argyfwng mawr hwn i'r diwydiant amaeth, a wnewch chi ail edrych ar yr achosion a gyfeiriaais atoch er mwyn gweld a allwch ddefnyddio'ch pwerau i helpu ffermwyr sydd wedi dioddef colledion yn sgîl camgymeriadau dilys?

9:45 a.m.

Carwyn Jones: The mechanism to make exceptional payments outside of the normal rules already exists. However, we must adhere to guidelines in making those payments. When a case is referred to me, I will always try to make a payment where possible. It is only where it is clear that the rules do not permit it that I will not make a payment. I base my work on a presumption to make a payment unless I cannot do so. David has raised several cases with me and we have met to discuss one of them. I listened intently to that case, although I will not mention it for obvious reasons. Decisions are taken on logical grounds, not to obey rules for the sake of doing so. We must be careful. If we make exceptional payments that are ultra vires, there is a danger that, when we are audited, the farmer may be asked to repay the payment with interest, which is far worse.

Elin Jones: Yr ydym oll yn ymwybodol fod Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad o dan bwysau mawr ar hyn o bryd. Diolchwn i swyddogion am eu hymroddiad mewn cyfnod o argyfwng. Yr ydych wedi penderfynu peidio ag anfon gohebiaeth uniongyrchol ar glwy'r traed a'r genau i ffermwyr. A wneuch ystyried a ddylai'r Adran Amaethyddiaeth wneud hynny dros y penwythnos, yn sgîl y cyhoeddiad a ddisgwyliwn yfory ynglŷn ag ymestyn y cyfnod gwahardd am bythefnos arall? Mae nifer o ffermwyr yn parhau i fod yn aneglur ynglŷn â'u hawliau a'r hyn sydd wedi ei wahardd.

Carwyn Jones: Ni allwn anfon llythyr yn rhoi'r manylion i ffermwyr oherwydd y byddai'n amhosibl ateb eu holl gwestiynau mewn un ddogfen neu daflen. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu llinellau cymorth ac mae tri rhif ffôn ar eu cyfer. Yn ogystal, gall ffermwyr gysylltu â swyddfeydd iechyd anifeiliaid, milfeddygon lleol ac undebau ffermwyr. Yr ydym yn ceisio darganfod ffordd o ddarparu manylion dyddiol i ffermwyr. Yr ydym yn cynnal cynadleddau i'r wasg yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod y ffeithiau yn hytrach na'n

Carwyn Jones: Mae'r dull ar gyfer gwneud taliadau eithriadol y tu hwnt i reolau arferol eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni lynu at y canllawiau wrth wneud y taliadau hynny. Pan gyfeirir achos ataf, yr wyf bob amser yn ceisio gwneud taliad lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yr unig bryd na wnafl daliad yw pan fo'n amlwg nad yw'r rheolau yn caniatáu imi wneud hynny. Seiliaf fy ngwaith ar y rhagdybiaeth y byddaf yn gwneud taliadau oni bai na chaniateir imi wneud hynny. Mae David wedi codi nifer o achosion gyda mi ac yr ydym wedi cyfarfod i drafod un ohonynt. Gwrandewais yn astud ar yr achos hwnnw, ond ni chrybwyllaf ef am resymau amlwg. Gwneir penderfyniadau ar seiliau rhesymegol, yn hytrach nag ufuddhau i reolau er eu mwyn eu hunain. Rhaid inni fod yn ofalus. Os gwnawn daliadau eithriadol sydd yn ultra vires, mae perygl, pan gawn ein harchwilio, y gellir gofyn i'r ffermwr addalu'r taliad gyda llog, sydd yn llawer gwaeth.

Elin Jones: We are all aware that the Assembly's Agriculture Department is currently under great pressure. We thank officials for their commitment at a time of crisis. You have decided not to send direct correspondence on foot and mouth disease to farmers. Will you consider whether the Agriculture Department should do that over the weekend, following the announcement that we expect tomorrow regarding extending the ban period for a further two weeks? Many farmers remain unclear about their rights and about what has been banned.

Carwyn Jones: We cannot send a letter giving the details to farmers because it would be impossible to answer all their questions in one document or leaflet. The Assembly has established helplines for which there are three phone numbers. Farmers can also contact animal health offices, local veterinary surgeons and farming unions. We are trying to find a means of providing daily details to farmers. We are holding daily press conferences to ensure that people are aware of the facts and that they do not listen to false rumours. We are in discussion with the

gwrando ar sŷon nad ydynt yn wir. Yr ydym mewn trafodaethau â'r cyfryngau, yn enwedig radio, i geisio darganfod modd o ddarparu bwletin dyddiol i ffermwyr i sicrhau eu bod yn derbyn y manylion diweddaraf.

media, especially radio, to try to find a means of providing daily bulletins for farmers to ensure that they receive the latest details.

Marchnata Cynnyrch o Gymru (Cau Dairy Crest) Marketing Welsh Produce (Closure of Dairy Crest)

C4 Owen John Thomas: Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog, Dairy Crest a'r archfarchnadoedd ynglŷn â marchnata cynnyrch o Gymru yn wyneb penderfyniad Dairy Crest i gau ei ganolfan potelu llaeth yng Nghymru? (OAQ9958)

Q4 Owen John Thomas: What discussions have taken place between the Minister, Dairy Crest and supermarkets concerning the marketing of Welsh produce in view of Dairy Crest's decision to close its milk bottling centre in Wales? (OAQ9958)

Carwyn Jones: Mewn datganiad diweddar mewn Cyfarfod Llawn, disgrifiais ganlyniad cyfarfod defnyddiol a gefais gyda phrif weithredwr Dairy Crest ar 1 Chwefror, yn dilyn cyhoeddiad y cwmni ynglŷn â rhan ddiweddaraf ei gynlluniau ailstrwythuro. Yn gynharach yr wythnos honno, cefais gyfarfod â Roger Evans o Axis a John Duncan o'r Scottish Milk Group i drafod eu cynlluniau a'r rhagolygon buddsoddi.

Carwyn Jones: In a recent statement in Plenary, I described the outcome of an useful meeting that I had with Dairy Crest's chief executive on 1 February, following the company's announcement regarding the latest phase of its restructuring plans. Earlier that week, I met Roger Evans of Axis and John Duncan of the Scottish Milk Group to discuss their plans and the investment prospects.

Y llynedd, cyfarfu fy rhagflaenydd â chyfarwyddwyr tri o'r prif archfarchnadoedd yng Nghymru a nifer o gwmnïau prosesu llaeth, i drafod materion sydd yn ymwneud â'r diwydiant llaeth, megis prisio ac elw.

Last year, my predecessor met the directors of three of the main supermarkets in Wales and several milk processing companies to discuss issues involving the dairy industry, such as pricing and profit.

Owen John Thomas: Yr wyf yn falch o glywed hynny. Mae'n afresymol i gynnrych cenedlaethol sylfaenol megis llaeth Cymreig gael ei brosesu a'i botelu yn Lloegr, dim ond i'w ddychwelyd a'i werthu yng Nghymru. A wnewch chi annog a chefnogi ffermwyr i greu cwmnïau cydweithredol i brosesu a photelu llaeth Cymru fel y gwnaethpwyd eisoes gan rai ffermwyr yng Ngwynedd?

Owen John Thomas: I am pleased to hear that. It is unreasonable for a basic national product such as Welsh milk to be processed and bottled in England, only to be returned to Wales to be sold. Will you encourage and support farmers to create co-operative companies to process and bottle Welsh milk as some farmers have already done in Gwynedd?

Carwyn Jones: Mae'n bwysig na chawn sefyllfa lle yr ystyrir ni yng Nghymru fel cynhyrchwyr ond nid proseswyr. Mae'n bwysig fod gennym broseswyr yng Nghymru. Yr oedd ffatri Tre Ioan, Caerfyrddin yn pacio menyn ac yn y blaen ac yr oedd ffatri Marshfield yn potelu llaeth, ond nid oeddent yn prosesu yng ngwir ystyr y gair. Yr wyf yn barod i gefnogi'r hyn y mae ffermwyr yn ei ddyddio o ran sefydlu cyrff cydweithredol i sicrhau bod gennym allu prosesu yng Nghymru a ffordd o ychwanegu

Carwyn Jones: It is important that we do not have a situation where we in Wales are considered to be producers but not processors. It is important that we have processors in Wales. The Johnstown plant in Carmarthen packed butter and so on, and the Marshfield plant bottled milk, but they did not process in the strict sense of the word. I am willing to support whatever farmers wish to do to establish co-operative ventures to ensure that we have processing capacity in Wales and a means of adding value to our

gwerth at ein cynnyrch.

Nick Bourne: We recognise that you have a heavy workload at present and sympathise with you on that. You mentioned ensuring that there is confidence in Welsh dairy produce in our supermarkets. What are you doing to ensure that and to convey the message that the foot and mouth disease outbreak has no implications for food safety?

Carwyn Jones: I have said on many occasions, and will reiterate this morning, that foot and mouth does not pose a threat to human health. From the reports that we are receiving, it appears that people understand that. There have been apocryphal reports in the press of panic buying in various parts of the UK. If that is so, clearly people do not believe that the disease represents a risk to their health or they would not be buying the products. Foot and mouth disease is serious for animals with cloven feet but, in terms of human health, it is not a concern for the public.

produce.

Nick Bourne: Cydnabyddwn fod gennych faich gwaith trwm ar hyn o bryd a chydymdeimlwn â chi yn hynny. Yr ydych wedi crybwyll sicrhau bod hyder mewn cynnyrch llaeth Cymreig yn ein harchfarchnadoedd. Beth yr ydych yn ei wneud er mwyn sicrhau hynny ac er mwyn cyfleu'r neges nad oes gan glwy'r traed a'r genau unrhyw oblygiadau o ran diogelwch bwyd?

Carwyn Jones: Fel y dywedais ar sawl achlysur, ac ailadroddaf hyn y bore yma, nid yw clwy'r traed a'r genau yn fygythiad i iechyd dynol. Ar sail yr adroddiadau yr ydym yn eu derbyn, ymddengys bod pobl yn deall hynny. Bu adroddiadau amheus yn y wasg am brynu gwyllt a diangen mewn gwahanol rannau o'r DU. Os yw hynny'n wir, mae'n amlwg nad yw pobl yn credu bod y clwyf yn risg i'w hiechyd neu ni fyddent yn prynu'r cynnyrch. Mae clwy'r traed a'r genau yn ddifrifol i anifeiliaid fforchdroed ond, yn nhermau iechyd dynol, nid yw'n destun pryder i'r cyhoedd.

Cynllun Cig Eidion yr Undeb Ewropeaidd European Union Beef Plan

Q5 Mick Bates: Will the Minister make a statement on how the new European Union beef plan will affect Welsh agriculture? (OAQ9956)

Carwyn Jones: The European Commission's seven point plan for the beef sector is aimed at re-balancing the beef market in the light of the collapse in consumer demand in much of Europe and the loss of export markets outside the EU. I was present at the European Council meeting of Agriculture Ministers on 26 February in Brussels. No decisions were taken but the commission asked for submissions from the member states. There was a pre-meeting of all UK Ministers and it was decided that the UK's preference was for the purchase for destruction scheme that we know so well in the UK and which works well. There is a wide range of views in the EU on the best way forward and many schemes have been mentioned. The commission has its work cut out to achieve consensus or a qualified majority on the

C5 Mick Bates: A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar sut y bydd cynllun cig eidion newydd yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru? (OAQ9956)

Carwyn Jones: Mae cynllun saith pwynt y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y sector cig eidion wedi'i anelu at adfer y cydbwysedd yn y farchnad cig eidion yng ngoleuni'r cwmp yng ngalw'r cwsmer amdano mewn sawl man yn Ewrop a cholled y marchnadoedd allforio y tu allan i'r UE. Yr oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod Gweinidogion Amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd ar 26 Chwefror ym Mrwsel. Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau ond gofynnodd y comisiwn am gyflwyniadau gan yr aelod-wladwriaethau. Mewn rhag-gyfarfod rhwng yr holl Weinidogion yn y DU penderfynwyd bod y DU yn ffafrio'r cynllun prynu er mwyn dinistrio yr ydym mor gyfarwydd ag ef yn y DU ac sydd yn gweithio cystal. Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau yn yr UE ar y ffordd orau ymlaen a chrybwyllwyd nifer o

proposals as they stand. I am glad to say that the UK's viewpoint was to promote in Europe the scheme that we have in Britain.

Mick Bates: Thank you for that reassurance. I am pleased to hear that you support the retention of what is a good scheme for us. These support payments are vital and the promptness of those payments is critical during this foot and mouth crisis. Can you confirm that as many as 20 per cent of Welsh farmers have not yet received their suckler cow payments?

Carwyn Jones: Eighty per cent of farmers have received their suckler cow payments, which compares well with the figures of 87 per cent in England. We are not that far behind. We have caught up substantially and it is my intention that these payments are paid as soon as possible. You will be aware, Mick, that the Tir Mynydd payment scheme opens for the first time today. I have informed my staff that I expect the payments to be made as promptly as possible and I intend to monitor the situation on a regular basis.

William Graham: We note that those measures are being introduced in many other European countries and I am grateful to you for confirming your support for the purchase for destruction scheme. How will you review your policies on the suckler cow scheme and the beef special premium scheme?

9:55 a.m.

Carwyn Jones: There was concern about the suckler cow scheme because one proposal in the seven-point plan would have been unacceptable to us, as it would have meant reducing production levels in the UK. There is a clear divide in the EU between the countries that produce extensively and those that produce intensively. We are extensive producers as we allow our cattle to graze on land, which is a more natural way of rearing them. We have always presented the view that it makes no sense to reduce grass-fed production instead of intensive production

gynlluniau. Mae gan y comisiwn lawer o waith i'w wneud er mwyn sicrhau cytundeb barn neu fwyafrif cymwys ar y cynigion fel ag y maent. Yr wyf yn falch o ddweud mai safbwynt y DU oedd hybu cynllun Prydain yn Ewrop.

Mick Bates: Diolch ichi am y sicrwydd hwnnw. Yr wyf yn falch o glywed eich bod yn cefnogi cadw'r hyn sydd yn gynllun da i ni. Mae'r taliadau cymorth hyn yn hanfodol ac mae prydlondeb y taliadau hynny yn holl bwysig yn ystod yr argyfwng traed a'r genau hwn. A allwch gadarnhau nad yw cymaint ag 20 y cant o ffermwyr Cymru wedi derbyn eu taliadau gwartheg sugno eto?

Carwyn Jones: Mae 80 y cant o ffermwyr wedi derbyn eu taliadau gwartheg sugno, sydd yn cymharu'n ffafriol â ffigurau Lloegr, sef 87 y cant. Nid ydym mor bell â hynny ar ei hôl hi. Yr ydym wedi dal i fyny yn sylweddol a bwriadaf i'r taliadau hyn gael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Byddwch yn ymwybodol, Mick, fod cynllun taliadau Tir Mynydd yn dechrau am y tro cyntaf heddiw. Yr wyf wedi hysbysu fy staff fy mod yn disgwyl i'r taliadau gael eu gwneud mor brydlon â phosibl a bwriadaf fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd.

William Graham: Nodwn fod mesurau yn cael eu cyflwyno mewn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill ac yr wyf yn ddiolchgar ichi am gadarnhau eich cefnogaeth i'r cynllun prynu ar gyfer dinistrio. Sut byddwch yn adolygu eich polisiau ar y cynllun gwartheg sugno a'r cynllun premiwm cig eidion arbennig?

Carwyn Jones: Yr oedd pryder ynghylch y cynllun gwartheg sugno am fod un cynnig yn y cynllun saith pwynt yn annerbyniol inni, oherwydd byddai'n golygu lleihau lefelau cynhyrchu yn y DU. Ceir rhaniad clir yn yr UE rhwng y gwledydd sydd yn cynhyrchu'n anarddwys a'r rheini sydd yn cynhyrchu'n arddwys. Yr ydym yn gynhyrchwyr anarddwys gan ein bod yn caniatáu i'n gwartheg bori ar dir, sydd yn ffordd fwy naturiol o'u meithrin. Yr ydym wastad wedi mynegi'r safbwynt nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr lleihau lefelau cynhyrchu bwydo â

and the UK took that standpoint on Monday. gwair yn hytrach na chynhyrchu arddwys a safodd y DU yn gadarn ynghylch hynny ddydd Llun.

Diwygio Rheol Sefydlog Rhif 12 Revision to Standing Order No. 12

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): I propose that **Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigiau fod

the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 34: *y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:*

i. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 20 February 2001; *i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001;*

ii. approves the following revisions to the Standing Orders; *ii. yn cymeradwyo'r newidiadau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;*

iii. resolves that the revisions shall take effect immediately; *iii. yn penderfynu bod effaith y newidiadau'n dechrau ar unwaith:*

Standing Order No. 12

Rheol Sefydlog 12

1. Delete paragraph 12.7 and replace with the following:

1. Dileer paragraff 12.7 a rhoi'r canlynol yn ei le:

12.7 No member of the Committee shall participate in its consideration of any matter if he or she was at the relevant time a member of the Assembly Cabinet.

12.7 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor gymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater os oedd ef neu hi yn aelod o Gabinet y Cynulliad ar yr adeg berthnasol.

12.8 The Presiding Officer may issue guidelines for members on avoiding conflicts of interest when participating in the activities of the Audit Committee.

12.8 Caiff y Llywydd gyhoeddi canllawiau i'r aelodau ar osgoi gwrthdrawiadau buddiannau wrth iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

12.9 If the chair is disqualified from participating in the Committee's consideration of any matter under the Standing Orders or voluntarily withdraws from such participation, the Committee shall elect another member to chair it whenever that matter is being considered. The Committee may not elect, as its temporary chair, a member of the largest political group which is represented in the Assembly Cabinet.

12.9 Os yw'r cadeirydd wedi'i anghymhwysu rhag cymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater o dan y rheolau sefydlog neu'n tynnu'n ôl o ystyriaeth o'r fath yn wirfoddol, bydd y Pwyllgor yn ethol aelod arall i'w gadeirio pryd bynnag y bydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried. Ni chaiff y Pwyllgor ethol aelod o'r grp gwleidyddol mwyaf a gynrychiolir yng Nghabinet y Cynulliad yn gadeirydd dros dro.

12.10 A member of the Committee who has given advance notice to the Chair may be represented at a meeting, or a part of a

12.10 Gall aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grp gwleidyddol

meeting, of the Committee by another member of the same political group. The appropriate political group shall nominate for temporary membership of the Committee another member of the group whose name has been notified in advance to the Chair. The nominated representative shall not be a member of the Assembly Cabinet. No member may represent more than one committee member at a meeting.

2. *Renumber the remaining paragraphs in Standing Order No. 12.*

The Business Committee has agreed to these changes, and I believe that there is all-party support for them. They will clear up disqualification procedures for the Audit Committee, which were found to be unworkable. The proposed changes will make the workings of the Audit Committee more effective.

Janet Davies: I hope that the Assembly will agree to these changes. The Audit Committee has become increasingly unworkable, particularly since the last set of changes in Committee membership. So many Members have been excluded that it has occasionally been difficult to form a quorum. A third of the Members who joined the Committee recently have not yet been able to attend an evidence session. Clearly, that is unsatisfactory. It is partly due to the number of Assembly Members. If you compare the choice of 60 AMs for membership of the Audit Committee with 659 Members of Parliament for membership of the Public Accounts Committee in the House of Commons, you will understand why we encounter such problems.

Alison Halford: I have had to write three letters to get what I consider to be an important change in this Standing Order. I was concerned that, as a Member representing north Wales, I was debarred from speaking on the Cardiff Bay Barrage project, which will cost the taxpayer of Wales £220 million, which includes a worrying 15 per cent hike in the original estimated costs. I was concerned that a Member representing Cardiff, whose constituency is in Cardiff Bay—I am not pointing my finger at anyone, but this is the truth—which took on this

yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Bydd y grp gwleidyddol priodol yn enwebu aelod arall o'r grp, y mae ei enw wedi'i roi ymlaen llaw i'r Cadeirydd, i fod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor. Rhaid i'r aelod a enwebir beidio â bod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un aelod o'r Pwyllgor mewn cyfarfod.

2. *Ailrifer gweddill y paragraffau yn Rheol Sefydlog 12.*

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'r newidiadau hyn, a chredaf fod pob plaid yn eu cefnogi. Byddant yn egluro'r gweithdrefnau anghymwyso ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, y canfuwyd nad oedd modd eu gweithredu. Bydd y newidiadau arfaethedig yn gwneud gwaith y Pwyllgor Archwilio yn fwy effeithiol.

Janet Davies: Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cytuno i'r newidiadau hyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn gynyddol anodd i'w weithredu, yn arbennig ers y set ddiwethaf o newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgor. Mae cynifer o Aelodau wedi'u heithrio fel y bu'n anodd ffurfio cworwm ar adegau. Nid yw traean o'r Aelodau a ymunodd â'r Pwyllgor yn ddiweddar wedi llwyddo i fynychu sesiwn dystiolaeth eto. Yn amlwg, mae hynny'n annerbyniol. Mae hynny yn rhannol oherwydd nifer Aelodau'r Cynulliad. Os ydych yn ystyried dewis o blith 60 AC ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio o'i gymharu â 659 Aelod Seneddol ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, byddwch yn deall pam y cawn gymaint o broblemau.

Alison Halford: Bu'n rhaid imi ysgrifennu tri llythyr er mwyn cael yr hyn a ystyriaf yn newid pwysig i'r Rheol Sefydlog hon. Yr oeddwn yn bryderus, fel Aelod sydd yn cynrychioli gogledd Cymru, fy mod wedi fy atal rhag siarad ar brosiect Morglawdd Bae Caerdydd, a fydd yn costio £220 miliwn i drethdalwyr Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 15 y cant yn y costau gwreiddiol a amcangyfrifwyd ac mae hynny'n achosi pryder. Yr oeddwn yn bryderus bod Aelod yn cynrychioli Caerdydd, ag etholaeth ym Mae Caerdydd—ac nid wyf yn pwyntio bys at

project, was not debarred from participating fully in the Audit Committee's scrutiny. I was told that I had to withdraw and could not play any part in the scrutiny because I had been a Member of another Committee that, jointly, heard a presentation by the leader of Cardiff City and County Council. My only role in that Committee was to ask several probing questions, the answers to which only raised more questions. However, because I was a Member for north Wales, I was not allowed to ask questions about this expensive proposition in the Audit Committee.

Therefore, Presiding Officer, I am grateful that you will draft new guidelines. It will not be easy because of the existence of the list and regional constituency membership. Where there are overlapping geographical boundaries, it is not easy to get the clearness, transparency and fairness that this Standing Order requires. However, I am grateful that this matter has been addressed. It is wrong that only three Members—one of whom was the Chair—were present at an important meeting of the Committee when it considered the last report on the Cardiff Bay Barrage. That Committee was barely quorate. However, now that it is under your auspices, Presiding Officer, I am sure that your legal drafts people will work hard to ensure that your guidelines will address all the problems that I have encountered. I am grateful that those problems have been recognised, and I look forward to seeing your excellent guidelines.

Kirsty Williams: As a relatively new member of the Audit Committee, I have been able to attend hardly any of the meetings because I am the Chair of the Health and Social Services Committee. That has been extremely frustrating. Janet is quite right. It has been almost farcical on occasion. The Liberal Democrat group welcomes this amendment, which will enable me to play a full part in the Audit Committee from now on.

Alun Cairns: The Welsh Conservative Party

unrhyw un, ond dyma'r gwirionedd—a ymgwymerodd â'r prosiect hwn, wedi'i atal rhag cymryd rhan yn llawn yn archwiliad y Pwyllgor Archwilio. Dywedwyd wrthyf bod yn rhaid imi dynnu yn ôl ac na allwn chwarae unrhyw ran yn yr archwiliad am imi fod yn Aelod o Bwyllgor arall, a glywodd gyflwyniad, ar y cyd, gan arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd. Fy unig rôl yn y Pwyllgor hwnnw oedd gofyn nifer o gwestiynau treiddgar, a dim ond codi mwy o gwestiynau a wnaeth yr atebion iddynt. Fodd bynnag, gan fy mod yn aelod sydd yn cynrychioli gogledd Cymru, ni chaniatawyd imi ofyn cwestiynau ynghylch y cynnig drud hwn yn y Pwyllgor Archwilio.

Felly, Lywydd, yr wyf yn ddiolchgar y byddwch yn drafftio canllawiau newydd. Ni fydd yn hawdd oherwydd bodolaeth y rhestr ac aelodaeth yr etholaethau rhanbarthol. Pan fo ffiniau daearyddol yn gorgyffwrdd, nid yw'n hawdd sicrhau eglurder, tryloywder a thegwch fel sydd yn ofynnol yn y Rheol Sefydlog hon. Fodd bynnag, yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi ymdrin â'r mater hwn. Nid yw'n briodol mai dim ond tri Aelod—un ohonynt yn Gadeirydd—oedd yn bresennol mewn cyfarfod pwysig o'r Pwyllgor pan ystyriodd yr adroddiad diwethaf ar Forglawdd Bae Caerdydd. Prin bod cworwm yn y Pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, gan ei fod bellach o dan eich nawdd, Lywydd, yr wyf yn sicr y bydd eich pobl sydd yn gyfrifol am ddrafftio cyfreithiau yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd eich canllawiau yn datrys yr holl broblemau y deuthum ar eu traws. Yr wyf yn ddiolchgar bod y problemau hynny wedi'u cydnabod, ac edrychaf ymlaen at weld eich canllawiau gwych.

Kirsty Williams: Fel aelod cymharol newydd o'r Pwyllgor Archwilio, nid wyf wedi gallu mynychu bron unrhyw gyfarfod gan fy mod yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu hynny'n rhwystredig dros ben. Mae Janet yn hollol gywir. Bu bron yn chwerthinllyd ar adegau. Croesawa grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol y gwelliant hwn, a fydd yn galluogi imi chwarae rhan lawn yn y Pwyllgor Archwilio o hyn ymlaen.

Alun Cairns: Mae'n bleser gan Blaid

is happy to support these revisions to Standing Order No. 12. Assembly Members who represent Subject Committees often have expertise that provides for further probing at the Audit Committee. However, that does not necessarily detract from the intention of the previous amendment to Standing Order No. 12, which debarred Members, because the integrity of the Audit Committee is critical to effective, impartial probing in securing accountability.

Andrew Davies: I do not think that there is any real need to respond. We have all-party support for this, I believe.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. That is the kind of speech that I like to hear.

Atgoffaf Aelodau fod yn rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

Geidwadol Cymru gefnogi'r newidiadau hyn i Reol Sefydlog Rhif 12. Mae gan Aelodau'r Cynulliad sydd yn cynrychioli Pwyllgorau Pwnc yn aml iawn yr arbenigedd sydd yn addas ar gyfer holi'n fanylach yn y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, nid yw hynny o anghenraid yn tynnu oddi wrth y newid blaenorol i Reol Sefydlog Rhif 12, a oedd yn gwahardd Aelodau, am fod cywirdeb y Pwyllgor Archwilio yn hanfodol ar gyfer holi effeithiol, diduedd er mwyn sicrhau atebolrwydd.

Andrew Davies: Ni chredaf fod unrhyw angen gwirioneddol i ymateb. Credaf fod gennym gefnogaeth pob plaid ar gyfer hyn.

Y Llywydd: Diolch ichi, Weinidog. Dyna'r math o araith yr hoffaf ei chlywed.

I remind Members that we must have a two-thirds majority to approve changes to Standing Orders.

*Cynnig: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 39, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hutt, Jane
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Pugh, Alun

Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion adopted.*

Y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy The Sustainable Development Action Plan

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3, 4, 5 and 6 in the name of Jocelyn Davies.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn enw Jocelyn Davies.

The Minister for Environment (Sue Essex): I propose that

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Cynigiad fod

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol:

notes the sustainable development scheme draft action plan, distributed to Assembly Members by e-mail and laid in the Table Office on 20 February 2001;

yn nodi 'Cynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Datblygu Cynaliadwy' a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad trwy'r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001;

agrees that the implementation of the sustainable development scheme will be measured against the draft action plan;

yn cytuno y bydd y broses o roi'r cynllun datblygu cynaliadwy ar waith yn cael ei mesur yn erbyn y cynllun gweithredu drafft;

adopts the identified indicators of sustainable development (annex E);

yn mabwysiadu'r dangosyddion datblygu cynaliadwy a nodwyd (atodiad E);

asks the Minister for Environment to consult with Assembly Members and take other steps to further develop the action plan, identify additional sustainable development indicators and consider options for mainstreaming and promoting sustainable development within the Assembly's structures.

yn gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a chymryd camau eraill i ddatblygu'r cynllun gweithredu ymhellach, nodi dangosyddion datblygu cynaliadwy ychwanegol ac ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys datblygu cynaliadwy yn holl strwythurau'r Cynulliad a'i hybu o fewn y strwythurau hynny.

This is a further stage in developing our sustainable development scheme. I will refer to the motion debated in Plenary on 16 November 2000, which requested us to take several actions on the scheme. I will refer to the resolutions that were put forward one by one.

Mae hyn yn gam pellach yn y broses o ddatblygu ein cynllun datblygu cynaliadwy. Cyfeiriai at y cynnig y cafwyd dadl arno yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd 2000, a oedd yn gofyn inni ddilyn sawl cam gweithredu ar y cynllun. Cyfeiriai at y penderfyniadau a gyflwynwyd fesul un.

First was the resolution to use the scheme as the basis for an application for a European

Y cyntaf oedd y penderfyniad i ddefnyddio'r cynllun fel sail ar gyfer cais am grant

regional innovation grant. We have made good progress on this and we have gone out to consultation on it. I launched a seminar to encourage people to take interest in this, which was well attended and outlined bids that could form the basis of an application. We are also staging, through the Wales European Centre, a St David's Day seminar next Monday. It will promote sustainable development and Wales's role in it. It will also promote our obtaining a successful bid for this grant, and will be an opportunity to speak with potential partners throughout Europe. It will be a chance to showcase what we are trying to do in sustainable development, and hopefully obtain support for our bid for this particularly useful innovation grant.

Secondly, on the action plan, we have taken this forward during the three months since the motion was adopted. I said on 16 November 2000 that timing would be tight and that I hoped that you would respect the fact that my staff and I would do our best. We have done that, but the document before you is not a finished piece of work. There have been some small glitches in its production. I will ensure that revised documents are provided to you. It is not a revision in the content, it is just in the way that the table is set out. However, the document shows how our plans are developing at present. I showed a draft to the Environment, Planning and Transport Committee, and the format was generally approved. We have tried to produce a document that is easily understood, so that we and our partners can use the document to see how we progress. It is different to the normal tome that is produced with pages and pages of statements, which are often ignored, put to one side and used to prop up a bed or whatever. We have tried to produce a table in a useful and understandable format. I understand that some Members feel that it should be more comprehensive, but we can build on that as this develops.

10:05 a.m.

The third resolution is to bring forward structures to mainstream sustainable development through the Assembly. We have made progress, but I have picked out the

arloesedd rhanbarthol Ewropeaidd. Gwnaethom gynnydd da ar hyn ac yr ydym yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Lansiais seminar i annog pobl i ymddiddori yn hyn. Cafwyd presenoldeb da ynddo ac amlinellodd y cynigion a allai lunio sylfaen cais. Yr ydym hefyd yn cynnal, drwy Ganolfan Ewropeaidd Cymru, seminar Dydd Gŵyl Dewi ddydd Llun nesaf. Bydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a rôl Cymru yn hyn o beth. Bydd hefyd yn hyrwyddo ein hymgais i sicrhau cynnig llwyddiannus ar gyfer y grant hwn, a bydd yn gyfle i siarad â phartneriaid posibl ledled Ewrop. Bydd yn gyfle i arddangos yr hyn y ceisiwn ei wneud o ran datblygu cynaliadwy, a'r gobaiith yw y byddwn yn sicrhau cefnogaeth i'n cynnig ar gyfer y grant arloesedd hynod ddefnyddiol hwn.

Yn ail, ar y cynllun gweithredu, yr ydym wedi datblygu hwn yn ystod y tri mis ers i'r cynnig gael ei dderbyn. Dywedais ar 16 Tachwedd 2000 y byddai'r amseru yn dynn ac y gobeithiwn y byddech yn parchu'r ffaith y byddai fy staff a minnau'n gwneud ein gorau. Gwnaethom hynny, ond nid y fersiwn terfynol yw'r ddogfen o'ch blaen. Cafwyd rhai mân anawsterau wrth gynhyrchu'r ddogfen hon. Byddaf yn sicrhau y caiff dogfennau diwygiedig eu dosbarthu ichi. Nid diwygiad yn y cynnwys ydyw, ond yn y ffordd y gosodir y tabl. Fodd bynnag, dengys y ddogfen sut y caiff ein cynlluniau eu datblygu ar hyn o bryd. Dangosais gopi drafft i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, a chymeradwywyd y fformat yn gyffredinol. Ceisiasom gynhyrchu dogfen sydd yn hawdd i'w deall, er mwyn i ni a'n partneriaid ddefnyddio'r ddogfen i weld sut y datblygwn. Mae'n wahanol i'r gyfrol arferol a gynhyrchir gyda thudalennau ar dudalennau o ddatganiadau, a anwybyddir yn aml, a roddir i'r naill ochr ac a ddefnyddir i gynnal gwely neu beth bynnag. Ceisiasom gynhyrchu tabl mewn fformat defnyddiol a dealladwy. Deallaf fod rhai Aelodau o'r farn y dylai fod yn fwy cynhwysfawr, ond gallwn adeiladu ar hynny wrth i hyn ddatblygu.

Y trydydd penderfyniad yw cyflwyno strwythurau i drosglwyddo datblygu cynaliadwy i'r brif ffrwd drwy'r Cynulliad. Gwnaethpwyd cynnydd, ond yr wyf wedi

principles for underlying that mainstreaming. There are different formats available. It could be a standing committee, a work group or so on. However, I hope that you will agree that I set out the key principles for doing that, which will underpin whichever format we come up with in the future.

The next resolution is an initial set of indicators. They are there and we have consulted widely with external organisations and we propose to identify some more. The fifth resolution demonstrates how all Ministers promote sustainable development. We can link that with mainstreaming. The last resolution that arose from the September debate is the need to consider options for the external advisory arrangements. We have also taken steps on that, but there are a few issues of principle that I wish to cover in detail.

I ask you to concentrate on the supporting papers that are before you. First, the table. As I said, it is the format that we proposed to the Committee and it targets the next three years to fulfil commitments. It has some misinformation on fine detail. I wanted to ensure that things were put down in implementable chunks. More detailed action and specific dates will appear in a corporate plan. I wish to make two points on sustainable development. It takes extra time to bring forward these plans because we must consult and work with our partners. As we know, most of what we want to deliver on sustainable development will be with people outside of this organisation. The other important point is that we develop a corporate action plan and the inter-relationships that exist among the different portfolios. The timescale that we will propose for the action plan will depend on internal resources, but it will also depend on the actions of others working with us.

The original idea on the external arrangements was to set up an expert panel for the forum. An interesting workshop was held several weeks ago. A range of people involved in sustainable development attended

nodi'r egwyddorion fydd yn sylfaen i'r trosglwyddiad hwn i'r prif ffrwd. Mae gwahanol fformatau ar gael. Gallai fod yn bwyllgor sefydlog, gweithgor ac yn y blaen. Fodd bynnag, gobeithiaf y cytunwch fy mod yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer gwneud hynny, a fydd yn ategu pa bynnag fformat a ddefnyddiwn yn y dyfodol.

Y penderfyniad nesaf yw cyfres gychwynnol o ddangosyddion. Maent yn bodoli ac ymgynghorwyd yn helaeth â sefydliadau allanol a bwriadwn nodi mwy ohonynt. Dengys y pumed penderfyniad sut y gall pob Gweinidog hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Gallwn gysylltu hynny â'r trosglwyddiad i'r brif ffrwd. Y penderfyniad olaf a ddeilliodd o'r ddadl ym mis Medi yw'r angen i ystyried opsiynau ar gyfer y trefniadau ymgynghorol allanol. Yr ydym wedi cymryd rhai camau ar hynny hefyd, ond mae rhai materion o egwyddor yr hoffwn eu trafod yn fanwl.

Gofynnaf ichi ganolbwyntio ar y papurau ategol o'ch blaen. Yn gyntaf, y tabl. Fel y dywedais, dyma'r fformat a gynigiasom i'r Pwyllgor ac mae'n targedu'r tair blynedd nesaf ar gyfer cyflawni ei ymrwymadau. Mae rhywfaint o wybodaeth anghywir ynddo ynghylch y manylion. Yr oeddwn am sicrhau y cofnodwyd pethau mewn rhannau y gellir eu gweithredu. Cyflwynir camau gweithredu manylach a dyddiadau penodol mewn cynllun corfforaethol. Dymunaf wneud dau bwynt ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'n cymryd amser ychwanegol i gyflwyno'r cynlluniau hyn oherwydd bod yn rhaid inni ymgynghori a gweithio gyda'n partneriaid. Fel y gwyddom, bydd y rhan fwyaf o'r hyn yr ydym am ei gyflawni o ran datblygu cynaliadwy gyda phobl y tu allan i'r sefydliad hwn. Y pwynt pwysig arall yw ein bod yn datblygu cynllun gweithredu corfforaethol a'r rhyng-berthnasau sydd yn bodoli ymhlith y gwahanol bortffolios. Bydd yr amserlen a gynigiwn ar gyfer y cynllun gweithredu yn dibynnu ar adnoddau mewnol, ond bydd hefyd yn dibynnu ar weithredoedd eraill sydd yn gweithio gyda ni.

Y syniad gwreiddiol ar gyfer y trefniadau allanol oedd sefydlu panel arbenigol ar gyfer y fforwm. Cynhaliwyd gweithdy diddorol ychydig wythnosau yn ôl. Mynychwyd y gweithdy gan amrywiaeth o bobl sydd yn

it. A need for an external panel of experts emerged at that workshop because sustainable development is quite technical in some areas. A need to connect with the grassroots also emerged, in particular, with local organisations that can implement sustainable development in their locality. We are considering a way forward that picks up both of those key points, to get the benefit of experts, but also to link with local grassroots groups. I hope that we will be able to bring those forward over the next few weeks or months.

On the internal arrangements, I know that mainstreaming is dear to many people's hearts. Over the next few weeks and months, I want to talk with the various political parties and meet with the Business Committee to see what we can deliver. There are different formats, which all have their strengths and weaknesses. However, we must produce a way of working that ensures that sustainable development is delivered in an inter-related way. Annex E looks at indicators. That is an initial set and we are looking to develop more and I hope that the schedule is self-explanatory. I want to make two important points. I am prepared to look at alternatives to gross domestic product. I recognise its drawbacks and we need extra work to be done on it. Secondly, we had good discussions with World Wildlife Fund Cymru about the principle of trying to use ecological footprint as a headline indicator. That is an interesting element. This is easy for the Isle of White because it is a self-contained unit. It would be interesting to develop and work on the footprint ideas in Wales as an indicator. I would like to explore that further.

Turning to the amendments, I am pleased to see amendment 1, using sustainable development as a positive opportunity, and I am delighted to support it. On amendments 2, 3 and 4, I have problems with their wording, but not the principle behind them and I have discussed that with Rhodri Glyn Thomas.

The phrase in amendment 2 'at the top of their priorities' is problematic. I would like

ymwneud â datblygu cynaliadwy. Daeth i'r amlwg yn y gweithdy hwnnw bod angen panel allanol o arbenigwyr oherwydd bod rhai meysydd o ddatblygu cynaliadwy yn eithaf technegol. Daeth yr angen i'r amlwg hefyd i gysylltu â phobl ar lawr gwlad, yn arbennig sefydliadau lleol a all weithredu datblygu cynaliadwy yn eu hardal hwy. Yr ydym yn ystyried ffordd ymlaen sydd yn cwmpasu'r pwyntiau allweddol hynny, i gael barn arbenigwyr, ond hefyd i gysylltu â grwpiau ar lawr gwlad. Gobeithiaf y gallwn gyflwyno'r rheini yn ystod yr ychydig wythnosau neu fisoedd nesaf.

Mewn perthynas â'r trefniadau mewnol, gwn fod prif ffrydio yn fater pwysig i nifer o bobl. Yn ystod yr ychydig wythnosau a misoedd nesaf, dymunaf siarad â'r gwahanol bleidiau gwleidyddol a chwrdd â'r Pwyllgor Busnes i weld beth allwn ei gyflwyno. Ceir sawl fformat gwahanol, pob un â'i gryfderau a'i wendidau. Fodd bynnag, rhaid inni lunio ffordd o weithio sydd yn sicrhau y cyflwynir datblygu cynaliadwy mewn ffordd gydberthnasol. Canolbwyntia Atodiad E ar y dangosyddion. Set gychwynnol yw hon a'r bwriad yw datblygu mwy ohonynt a gobeithiaf bod yr amserlen yn hunanesboniadol. Hoffwn wneud dau bwynt pwysig. Yr wyf yn barod i edrych ar ddewisiadau ychwanegol i'r cynnyrch mewnwladol crynswth. Cydnabyddaf ei anfanteision ac mae angen gwneud gwaith ychwanegol arno. Yn ail, cawsom drafodaethau da gyda World Wildlife Fund Cymru ynglŷn â'r egwyddor o geisio defnyddio model ecolegol fel y prif ddangosydd. Mae hon yn elfen ddiddorol. Mae hyn yn hawdd i Ynys Wyth am ei bod yn uned hunan-gynhwysol. Byddai'n ddiddorol datblygu a gweithio ar y syniadau model yng Nghymru fel dangosydd. Hoffwn ymchwilio ymhellach i hynny.

Gan droi at y gwelliannau, yr wyf yn falch iawn o weld gwelliant 1, defnyddio datblygu cynaliadwy fel cyfle positif, ac mae'n bleser gennyf ei gefnogi. Ar welliannau 2, 3 a 4, yr wyf yn anhapus â'u geiriad, ond nid yr egwyddor y tu ôl iddynt a thrafodais hynny gyda Rhodri Glyn Thomas.

Y mae'r ymadrodd yng ngwelliant 2 'ar frig eu blaenoriaethau' yn achosi problemau.

to see, to use a phrase we frequently use, sustainable development intergrated into the heart of Assembly sponsored public bodies' policy development. I say to Plaid Cymru that the quinquennial review of the Environment Agency and the Countryside Council for Wales is taking place. We will also soon have the report on the Welsh Development Agency. We can address this issue during those reviews or I would be happy to do so as part of this internal arrangement. However, I want to ensure that we get the wording right. I would like to think that we could, if possible, extend this to include our other partners, local government in particular, and perhaps also the Forestry Commission. I accept the principle of what you are trying to achieve, just not the wording. Had we all been present last week, I could, perhaps, have sat down with you and talked that through.

Cynog Dafis: Yr wyf yn falch o glywed yr hyn a ddywedwch. A ystyriwch felly, gynnwys datblygu cynaliadwy yng nghylch gorchwyl cyrff megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru? Ar hyn o bryd, nid yw'n gynnwysedig. Deallaf fod gan y Cynulliad y pŵer i'w gynnwys mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. A gytunwch y byddai hynny i'w gymeradwyo?

Sue Essex: I have always thought that it is implicit in the remit. However, as you say, it is not overtly stated as it is in the Environment Agency's statement. I would be happy to consider that, as long as you recognise that it would still have an important role as an advisory institution on conservation and that organisations have other obligations and duties alongside that to sustainable development. The WDA has economic development, for example.

Amendment 3 refers to Committees. I understand the principle behind the amendment. However, I have said no to this because I was concerned about the procedure and timetabling, given that I do not control Committees' agendas. I have promised to cooperate as much as I can, but I do not want the action plan to be delayed. That is why I have refused that. The principle, again, is

Hoffwn weld ymadrodd a ddefnyddiwn yn aml, sef datblygu cynaliadwy wedi'i integreiddio wrth wraidd y broses o ddatblygu polisi cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Hoffwn hysbysu Plaid Cymru bod yr arolwg bob pum mlynedd o Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrthi'n cael ei gynnal. Yn fuan byddwn yn derbyn yr adroddiad ar Awdurdod Datblygu Cymru. Gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod yr arolygon hynny neu byddaf yn fodlon gwneud hynny fel rhan o'r trefniant mewnol hwn. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau ein bod yn defnyddio'r geiriad cywir. Hoffwn sicrhau y gallwn, os yw'n bosibl, ehangu hyn i gynnwys ein partneriaid, llywodraeth leol yn arbennig, ac efallai y Comisiwn Coedwigaeth hefyd. Derbyniaf egwyddor yr hyn y ceisiwch ei wneud, ond nid y geiriad. Pe baem ni oll wedi bod yn bresennol yr wythnos diwethaf, efallai y gallwn fod wedi eistedd gyda chi a thrafod hynny.

Cynog Dafis: I am pleased to hear what you have to say. Will you therefore consider including sustainable development in the remit of organisations such as the Countryside Council for Wales? At present, it is not included. I understand that the Assembly has the power to include it in some form or another. Do you agree that that would be welcomed?

Sue Essex: Yr wyf bob amser wedi ystyried bod hyn yn rhan holl bwysig o'r cylch gwaith. Fodd bynnag, fel y dywedwch, ni chaiff ei ddatgan mor agored ac y caiff yn natganiad Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddwn yn fodlon ystyried hynny, cyhyd ag y cydnabyddwch y bydd dal ganddo rôl bwysig fel sefydliad ymgynghorol ar gadwraeth a bod gan sefydliadau oblygiadau a dyletswyddau eraill ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy. Mae'r WDA yn gyfrifol am ddatblygiad economaidd, er enghraifft.

Cyfeiria gwelliant 3 at y Pwyllgorau. Deallaf yr egwyddor y tu ôl i'r gwelliant. Fodd bynnag, dywedais na wrth hyn am fy mod yn pryderu am y weithdrefn a'r amserlen, o ystyried nad oes gennyf unrhyw reolaeth dros agendâu Pwyllgorau. Addewais y byddwn yn cydweithredu cymaint ag y gallaf, ond nid wyf am weld oedi â'r cynllun gweithredu. Dyna pam y gwrthodais hynny. Mae'r

right and I will try to address it.

Amendment 4 is difficult for us to achieve because we do not control the agenda. Outside organisations have to be dealt with. I respect the wish to keep the impetus going and I have given my commitment to that today. I do not want this to slow down. However, three-month timetables are sometimes difficult to achieve in practice.

I thank you for amendment 5 and I am happy to support amendment 6. We have had discussions about the Earth Summit. I remind Members that this matter is under the Prime Minister's control, not the First Minister's. If that amendment is carried we will write to ask that we be included in the delegation. We can make an argument for that, given our sustainable development responsibilities. I am happy to support that amendment but, at the end of the day, it is up to other people to deliver it.

Today's debate is a further milestone towards a sustainable Wales. We must remember that this is an on-going and continually evolving process. The action plan sets out radical actions to be taken over the next three years. I acknowledge gratefully the interest shown by many Members in this matter. Encouragingly, there is huge interest shown by outside organisations. We must recognise that. We must ensure that our procedures and progress involve everyone outside the Assembly who wants to be involved. I urge you to support the motion.

Y Llywydd: Er nad wyf yn cyfyngu ar hyd yr areithiau, gofynnaf i Aelodau gadw at yr amseriad safonol o bum munud er mwyn inni ddiogelu dadl fer Helen Mary Jones, a'r anerchiad gan y Taoiseach sydd i'w dilyn.

10:15 a.m.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: Ar ôl y cymal cyntaf mewnosod yn gymal newydd ac ailrifo'r

egwyddor, unwaith eto, yn gywir, a cheisiaf fynd i'r afael â hynny.

Mae gwelliant 4 yn anodd inni ei gyflawni am nad oes gennym reolaeth dros yr agenda. Rhaid ymdrin â sefydliadau allanol. Parchaf y dymuniad i gadw'r ysgogiad, a rhoddais fy ymrwymiad i hynny heddiw. Nid wyf am i hyn arafu. Fodd bynnag, mae amserlenni tri mis yn anodd i'w cyflawni yn ymarferol weithiau.

Diolchaf ichi am welliant 5 ac yr wyf yn fodlon cefnogi gwelliant 6. Cawsom drafodaethau ynglŷn ag Uwchgyhadledd y Ddaear. Atgoffais yr Aelodau mai'r Prif Weinidog sydd yn rheoli'r mater hwn, nid Prif Weinidog Cymru. Os caiff y gwelliant hwnnw ei gymeradwyo byddwn yn ysgrifennu i ofyn i gael ein cynnwys yn y ddirprwyaeth. Gallwn ddadlau o blaid hynny, o ystyried ein cyfrifoldebau datblygu cynaliadwy. Yr wyf yn fodlon cefnogi'r gwelliant hwnnw ond, yn y pen draw, cyfrifoldeb pobl eraill yw cyflawni hynny.

Mae'r ddadl heddiw yn garreg filltir bellach tuag at sicrhau Cymru gynaliadwy. Rhaid inni gofio bod hyn yn broses barhaus ac un sydd yn datblygu'n barhaus. Noda'r cynllun gweithredu gamau gweithredu arloesol i'w cymryd yn ystod y tair blynedd nesaf. Cydnabyddaf yn ddiolchgar y diddordeb a fynegwyd gan sawl Aelod ar y mater hwn. Yr hyn sydd yn galonogol yw'r diddordeb mawr a fynegwyd gan sefydliadau allanol. Rhaid inni gydnabod hynny. Rhaid inni sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n cynnydd yn cynnwys pawb o'r tu allan i'r Cynulliad sydd am gymryd rhan. Anogaf chi oll i gefnogi'r cynnig.

The Presiding Officer: Although I am not restricting the length of speeches, I ask Members to keep to the standard time of five minutes so that we can safeguard Helen Mary Jones's short debate and the address by the Taoiseach that follows it.

Rhodri Glyn Thomas: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: after the first clause insert as a new clause and renumber

cymalau sydd yn weddill yn unol â hynny:	remaining clauses accordingly:
<i>yn galw ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy fel cyfle cadarnhaol ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol yn ogystal â datblygu amgylcheddol;</i>	<i>calls upon the Government of Wales to pursue sustainable development as a positive opportunity for economic and social as well as environmental development;</i>
Cynigiad welliant 2. Ar ôl y cymal cyntaf mewnosod yn gymal newydd ac ailrifo'r cymalau sydd yn weddill yn unol â hynny:	I propose amendment 2. After the first clause insert as a new clause and renumber remaining clauses accordingly:
<i>yn cydnabod yr angen i bob corff cyhoeddus gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdod Datblygu Cymru roi Datblygu Cynaliadwy ar frig eu blaenoriaethau;</i>	<i>recognises the need for all public bodies including Countryside Council for Wales, the Environment Agency and the Welsh Development Agency to place sustainable development at the top of their priorities;</i>
Cynigiad welliant 3. Yn y pedwerydd cymal mewnosod ar ôl 'Aelodau'r Cynulliad' 'a'r Pwyllgorau'.	I propose amendment 3. In the fourth clause insert after 'Assembly Members' 'and the Committees'.
Cynigiad welliant 4. Dileu'r atalnod llawn ac ychwanegu ar ddiwedd y pedwerydd cymal:	I propose amendment 4. Add at the end of the fourth clause:
<i>a chyflwyno unrhyw argymhellion i Gyfarfod Llawn o fewn 3 mis.</i>	<i>, and to bring any recommendations before Plenary within three months;</i>
Cynigiad welliant 5. Ychwanegu yn gymal newydd ar ddiwedd y cynnig:	I propose amendment 5. Add as a new clause at the end of the motion:
<i>yn croesawu'r camau ymlaen a gymerwyd eisoes yng nghynllun gweithredu drafft y cynllun datblygu cynaliadwy ac yn y dangosyddion.</i>	<i>welcomes the progress already made in the sustainable development scheme draft action plan and indicators.</i>
Cynigiad welliant 6. Ychwanegu yn gymal newydd ar ddiwedd y cynnig:	I propose amendment 6. Add as a new clause at the end of the motion:
<i>yn galw ar Brif Weinidog Cymru i fynd i Uwchgynhadledd y Ddaear ar ddatblygu cynaliadwy fel aelod o ddirprwyaeth y DU.</i>	<i>calls on the First Minister to attend the Earth Summit on sustainable development in 2002 as a member of the UK delegation.</i>
Cadwaf lygad barcud ar y cloc, er y sylwaf bod hanner munud wedi mynd eisoes, cyn imi ddweud unrhyw beth.	I will keep a close eye on the clock, although I notice that half a minute has already passed, before I have said anything.
Ar ran Plaid Cymru, croesawaf y ddogfen hon. Mae'n gam arall ymlaen mewn proses bwysig. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y derbynna Sue ei bod ymhell o fod yn gyflawn. Yn ystod y ddadl, byddwn yn amlinellu nifer o feysydd lle gellir ac y dylid gweld cynnydd pellach. Cydnabyddwn yn	On behalf of Plaid Cymru, I welcome this document. It is another step forward in an important process. However, I am sure that Sue will accept that it is far from being complete. During the debate, we will outline several areas where further progress could and should be made. We acknowledge

frwdfrydig y gwaith caled a gyflawnwyd gan uned datblygu cynaliadwy y Cynulliad, ac agwedd gadarnhaol y weinyddiaeth wrth geisio gweithio'n gynhwysol ar y mater hwn. Er mwyn dangos ein ewyllys da a'n parodrwydd ninnau i weithredu'n gynhwysol, ac wedi gwrandao ar sylwadau'r Gweinidog, tynnaf welliant 4 yn ôl. Yn ogystal, o ystyried yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am welliannau 2 a 3 a'r ymrwymadau a wnaeth, tynnaf y gwelliannau hynny yn ôl ar y ddealltwriaeth y bydd Sue yn gweithredu ar ei sylwadau. Gobeithiaf y bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad yn unfrydol i gefnogi gwelliannau 1, 5 a 6 a'r cynnig wedi'i ddiwygio.

Yr ydym yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod y persbectif rhyngwladol. Mae'n eithriadol bwysig y gwelir hynny'n glir. Yr ydym yn falch hefyd bod ymrwymiad i Brif Weinidog Cymru fod yn bresennol yn Uwchgyhadledd y Ddaear ar ddatblygu cynaliadwy.

Yr ydym yn falch hefyd o weld y cynnydd a wnaethpwyd tuag at y cymhorthdal Ewropeaidd. Edrychwn ymlaen at y seminar ym Mrwsel ddydd Llun nesaf. Gobeithiwn y bydd yn gam pellach ymlaen yn y broses o sefydlu gwaith y Cynulliad ar ddatblygu cynaliadwy fel cynllun peilot i Ewrop a gweddill y byd. Mae hynny'n eithriadol bwysig.

Mae angen gwaith ychwanegol. Er bod datblygu cynaliadwy yn cynnig fframwaith trosfwaol i holl waith y Cynulliad, nid ydym wedi gweld hynny'n digwydd eto. Nid yw Gweinidogion eraill wedi cymryd y cyfrifoldeb o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'w gweithgareddau a'u portffolios.

Er fy mod yn cydnabod ymrwymiad personol Sue i ddatblygu cynaliadwy, a'm bod yn falch mai hi sydd yn gyfrifol amdano, mae'r cysylltiad rhwng y portffolio datblygu cynaliadwy a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn anfantais. Mae canfyddiad mai rhywbeth sydd yn ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd yn unig yw datblygu cynaliadwy. Rhaid newid hynny. Yr ydym eisiau gweld datblygu cynaliadwy yn ganolog i ddatblygiad economaidd Cymru.

enthusiastically the hard work done by the Assembly's sustainable development unit and the administration's positive attitude in trying to work inclusively on this issue. To show our goodwill and our willingness to work inclusively, and having listened to the Minister's comments, I withdraw amendment 4. Also, following the Minister's comments on amendments 2 and 3 and the commitments that she made, I withdraw those amendments on the understanding that she will act on her comments. I hope that this will enable the Assembly to unanimously support amendments 1, 5 and 6 and the amended motion.

We are pleased that the international perspective is recognised in the report. It is extremely important that that is seen clearly. We are also pleased that there is a commitment for the First Minister to attend the Earth Summit on sustainable development.

We are also pleased to see the progress that has been made towards the European subsidy. We look forward to the seminar in Brussels next Monday. We hope that it will be a further step forward in the process of establishing the Assembly's work on sustainable development as a pilot scheme for Europe and the rest of the world. That is extremely important.

Additional work is required. Even though sustainable development offers an overarching framework for all the Assembly's work, we have not seen that happening yet. Other Ministers have not taken responsibility for ensuring that sustainable development is central to their activities and portfolios.

Although I acknowledge Sue's personal commitment to sustainable development and I am pleased that she has responsibility for it, the link between the sustainable development portfolio and the Minister for Environment is a disadvantage. There is a perception that sustainable development only involves planning and the environment. That must be changed. We want sustainable development to be central to Wales's economic development. I agree with Sue regarding the need to

Cytunaf â Sue ynglŷn â'r angen i ystyried ffactorau heblaw am gynnyrch mewnwladol crynswth. Croesawaf y cyfeiriad a wnaeth at droedle ecolegol, os mai dyna yw 'ecological footprint' yn Gymraeg—

Cynog Dafis: Ôltroed.

Rhodri Glyn Thomas: Ôltroed ecolegol. Diolch, Cynog. Efallai fod troedle ecolegol yn well term—

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn croesawu cyfieithu atodol o'r llawr. Mae gan y Cynulliad gyfieithwyr abl.

Rhodri Glyn Thomas: Yn sicr, mae gennym gyfieithwyr ardderchog yn y Cynulliad. Cydnabyddwn eu gwaith, gan fod cyfieithu yn ganolog i ddatblygiad cynaliadwy'r ddwy iaith yng Nghymru.

Yr ydym eisiau i ddatblygu cynaliadwy fod yn rhan ganolog o bortffolio pob Gweinidog. Dylai datblygu cynaliadwy fod yn ganolog i'n polisiau datblygu economaidd ac i bob portffolio arall. Yr ydym eisiau i wasanaethau gael eu cyflwyno mewn modd cynaliadwy.

Mae clwy'r traed a'r genau yn argyfwng cenedlaethol. Pe bai gennym bolisi amaethyddol gwirioneddol gynaliadwy, byddai gennym rwydwaith o ladd-dai lleol. Byddai cysylltiad rhwng ffermydd a'r lladd-dai hynny a chyfle i farchnata cynnyrch o Gymru fel cynnyrch a laddwyd yn lleol, o'r ansawdd gorau posibl. Byddai hynny'n osgoi'r angen i gludo anifeiliaid am gannoedd o filltiroedd i gael eu lladd, a byddai, felly, yn haws rheoli'r clwyf. Cludo anifeiliaid ar draws pellteroedd yw un o'r problemau.

Yn y cyd-destun hwnnw, dengys yr argyfwng hwn beth yw ystyr a gwerth datblygu polisiau cynaliadwy. Croesawaf a chefnogaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog. Gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi gwelliannau 1, 5 a 6, a'r cynnig wedi'i ddiwygio yn y modd hwnnw.

Mick Bates: I compliment the Minister on her approach to sustainable development. I also compliment Plaid Cymru for joining in with this inclusive approach, which will lead

consider factors other than gross domestic product. I welcome her reference to a '*troedle ecolegol*', if that is the Welsh translation for an ecological footprint—

Cynog Dafis: '*Ôltroed*'.

Rhodri Glyn Thomas: '*Ôltroed ecolegol*'. Thank you, Cynog. Perhaps '*troedle ecolegol*' is a better term—

The Presiding Officer: Order. I do not welcome supplementary translation from the floor. The Assembly has able translators.

Rhodri Glyn Thomas: We certainly have excellent translators in the Assembly. We acknowledge their work, as translation is central to the sustainable development of both languages in Wales.

We want sustainable development to be a central part of every Minister's portfolio. Sustainable development should be central to our economic development policies and to all other portfolios. We want services to be delivered in a sustainable way.

The foot and mouth disease outbreak is a national crisis. If we had a truly sustainable agricultural policy, we would have a network of local abattoirs. There would be links between farms and those abattoirs and an opportunity to market Welsh produce as locally slaughtered produce of the best possible quality. That would avoid the need to transport animals for hundreds of miles to be slaughtered, and it would be easier, therefore, to control the disease. One of the problems is transporting animals over long distances.

In that context, this crisis has shown the meaning and value of developing sustainable policies. I welcome and support the Minister's comments. I ask the Assembly to support amendments 1, 5 and 6, and the motion as thus amended.

Mick Bates: Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar ei hymagwedd tuag at ddatblygiad cynaliadwy. Hoffwn longyfarch Plaid Cymru hefyd am ymuno yn yr ymagwedd gynhwysol

to the successful implementation of the action plan.

Secondly, I congratulate those who prepared this plan. It is excellent, concise and comprehensible. It sets out the work that the Assembly can do and acknowledges areas where matters need to be considered further before action is taken. As such, it is ambitious and realistic. It is acknowledged that the draft plan will need updating. We cannot afford to be inflexible. The action plan reflects the move from the realm of rhetoric to the realm of action, which, as a practical Liberal Democrat, I welcome.

As the action plan acknowledges, while operating in the long term, we need to deliver gains in the short term. Those gains will help us to show the people of Wales what can be achieved in the long term. The Assembly's sustainable development scheme commits us to grasping growth opportunities in key areas. One such key area is renewable energy. A National Assembly sustainable energy group has been established, which has considered the possibilities of promoting renewable energy. We welcome, therefore, the inclusion in the plan of an indicator of how much electricity produced in Wales is generated from renewable sources. However, I would like to know which targets the Minister intends to follow. Will Wales have its own target for electricity production from renewable energy, or will we follow the UK or European target?

The Assembly cannot operate alone. However, we can lead by example, through our departments and through the bodies that are directly answerable to us. There is obviously a role in promoting sustainable development through the main Assembly sponsored public bodies, such as the WDA. We welcome the requirement in the action plan for ASPBs to submit a plan to the Assembly by spring 2002, setting out how they propose to integrate sustainable development into their work. We need a dedicated department, perhaps in the WDA—or should it be called the WSDA, the Welsh Sustainable Development Agency—to

hon, a fydd yn arwain at gyflwyno'r cynllun gweithredu yn llwyddiannus.

Yn ail, hoffwn longyfarch y rhai a baratodd y cynllun hwn. Mae'n wych, cryno a dealladwy. Mae'n nodi'r gwaith y gall y Cynulliad ei wneud ac yn cydnabod meysydd lle mae angen ystyried materion ymhellach cyn cymryd camau gweithredu. O ganlyniad, mae'n uchelgeisiol a realistig. Cydnabyddir y bydd angen diweddarau'r cynllun drafft. Ni allwn fforddio bod yn anhyblyg. Adlewyrcha'r cynllun gweithredu y broses o symud o fyd rhethreg i'r byd gweithredu, ac yr wyf i, fel Democrat Rhyddfrydol ymarferol, yn croesawu hynny.

Fel y mae'r cynllun gweithredu yn cydnabod, tra'n gweithredu yn y tymor hir, mae'n rhaid inni sicrhau canlyniadau yn y tymor byr. Bydd y canlyniadau hynny yn ein helpu i ddangos i bobl Cymru yr hyn y gellir ei sicrhau yn y tymor hir. Mae cynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad yn ein hymrwymo i fanteisio ar gyfleoedd twf mewn meysydd allweddol. Un maes allweddol o'r fath yw ynni adnewyddadwy. Sefydlwyd grŵp ynni cynaliadwy yn y Cynulliad Cenedlaethol, a ystyriodd y posibilïadau o hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Croesawn felly, y ffaith bod dangosydd i ddangos faint o drydan a gynhyrchir yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy yn cael ei gynnwys yn y cynllun. Fodd bynnag, hoffwn wybod pa dargedau y bydd y Gweinidog yn eu dilyn. A fydd gan Gymru ei tharged ei hun ar gyfer cynhyrchu trydan o ynni adnewyddadwy, neu a fyddwn yn dilyn targed y DU neu'r targed Ewropeaidd?

Ni all y Cynulliad weithredu ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, gallwn arwain drwy esiampl, drwy ein hadrannau a thrwy'r cyrff sydd yn atebol yn uniongyrchol inni. Mae rôl amlwg ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy'r prif gyrff a noddir gan y Cynulliad, fel y WDA. Croesawn y gofyniad a geir yn y cynllun gweithredu i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gyflwyno cynllun i'r Cynulliad erbyn gwanwyn 2002, sydd yn nodi sut y byddant yn bwriadu integreiddio datblygu cynaliadwy i mewn i'w gwaith. Mae angen adran benodol arnom, y WDA efallai—neu a ddylid ei alw'n WSDA, Awdurdod Datblygu Cynaliadwy Cymru—i ddatblygu a

develop and promote renewable energy.

In terms of quality of life indicators, sustainable development could be described by using a Venn diagram, which would include three overlapping circles representing economic, social and environmental benefit. Ideally, all Assembly projects should fall into the space where the three circles overlap. It is for this reason that some respondents to the consultation on indicators rejected GDP per head as an indicator. Were we only to use economic measures, we would lose the context where social and environmental benefits are used to promote a true indicator of quality of life in Wales. The action plan also acknowledges that we need to develop some indicators. In particular, we welcome the ambitious plan for developing indicators of Wales's global ecological footprint, and of satisfaction with quality of life. We welcome the work of the World Wildlife Fund in Wales on this.

10:25 a.m.

We welcome the commitment in the action plan to setting up a sustainable development forum. We would, once again, like to raise the issue of establishing a sustainable development committee in the Assembly. Sue Essex referred to the debate on 14 September, when the Assembly unanimously supported a Liberal Democrat amendment that committed this Assembly to investigating the feasibility of establishing a sustainable development committee. We therefore welcome the statement in the action plan that proposals for a co-ordinating group or committee to mainstream and promote sustainable development within Assembly structures are being formulated and will be put to Members in due course. I would like to hear more about the timescale for that from the Minister. Assembly Members may also remember that the Liberal Democrat Member, Peter Black, undertook a cost benefit analysis in September 1999, which showed the benefits of having a structure within the Assembly to promote sustainable development.

The Presiding Officer: Order. You have had five minutes.

hyrwyddo ynni adnewyddadwy.

Yn nhermau dangosyddion ansawdd bywyd, gellid disgrifio datblygu cynaliadwy gan ddefnyddio diagram Venn, a fyddai'n cynnwys tri chylch yn gorgyffwrdd sydd yn cynrychioli budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ddelfrydol, dylai holl brosiectau'r Cynulliad fod yn y gofod lle bydd y tri chylch yn gorgyffwrdd. Dyna pam y gwnaeth rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar ddangosyddion wrthod y CMC y pen fel dangosydd. Pe na baem ond yn defnyddio mesurau economaidd, byddem yn colli'r cyddestun lle defnyddir manteision cymdeithasol ac amgylcheddol i hyrwyddo dangosydd gwirioneddol o ansawdd bywyd yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cydnabod bod angen inni ddatblygu rhai dangosyddion. Yn arbennig, croesawn y cynllun uchelgeisiol i ddatblygu dangosyddion o effaith ecolegol Cymru ar y byd a boddhad gydag ansawdd bywyd. Croesawn waith y World Wildlife Fund yng Nghymru ar y mater hwn.

Croesawn yr ymrwymiad yn y cynllun gweithredu i sefydlu fforwm datblygu cynaliadwy. Hoffem, unwaith eto, godi'r mater o sefydlu pwyllgor datblygu cynaliadwy yn y Cynulliad. Cyfeiriodd Sue Essex at y ddadl ar 14 Medi, pan gefnogodd y Cynulliad gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn unfrydol a ymrwymodd Cynulliad hwn i ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu pwyllgor datblygu cynaliadwy. Felly, croesawn y datganiad yn y cynllun gweithredu y caiff cynigion ar gyfer grŵp neu bwyllgor cydlynu i brif ffrydio a hyrwyddo datblygu cynaliadwy o fewn strwythurau'r Cynulliad eu creu a'u cyflwyno i Aelodau yn y man. Hoffwn glywed mwy am yr amserlen ar gyfer hynny gan y Gweinidog. Efallai fod Aelodau'r Cynulliad yn cofio hefyd y gwnaeth yr Aelod Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black, ddadansoddiad cost a budd yn Medi 1999, a ddangosodd y manteision o gael strwythur o fewn y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi cael pum munud.

Mick Bates: I conclude with the recommendation that this, through section 121 of the Government of Wales Act 1998, is the future and the vision for this Welsh Assembly.

David Davies: We all agree on the principle of sustainable development, and the Conservative Party has at all times been happy to give its support while offering constructive criticism and advice, where necessary. Today will be no exception.

This plan, like so many others that we have seen on sustainable development, is long on big ideas and grand strategies but short on substance. There is much talk about developing tools and building toolkits. In fact, these buzzwords appear on virtually every page. However, as anyone who has ever bought a cupboard from B&Q will tell you, tools are all very well but you will not finish many jobs without nuts and bolts and a detailed instruction manual. That is what is lacking today.

The Minister has mentioned the radical action that will take place. The action plan may contain one or two vague but quite promising ideas, such as green transport plans and the use of new technology, but rather than developing these ideas further or giving examples of the specifics, the rest of the plan is full of suggestions to send staff on training days to teach them about sustainable development, to invite guest speakers in to talk about it and to set up seminars and workshops. If that is not enough, there will also be a plethora of committees and consultants and the seemingly obligatory charabanc tours around the country and the wider world to discuss sustainable development policies that do not appear in the sustainable development plan. Apart from the obvious question of cost, we must also ask what will be discussed at these meetings. I cannot understand why we need outside consultants to draw up these policies when there is a large civil service sustainable development unit in Cathays Park to help the Government to implement these policies.

Mick Bates: Yr wyf am gloi gyda'r argymhelliad mai hyn, drwy adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yw dyfodol a gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

David Davies: Cytunwn oll ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, ac mae'r Blaid Geidwadol bob amser wedi bod yn fodlon rhoi ei chefnogaeth tra'n cynnig beirniadaeth adeiladol a chyngor, lle bo angen. Ni fydd heddiw'n eithriad.

Mae'r cynllun hwn, fel cymaint o rai eraill a welwyd ar ddatblygu cynaliadwy, yn llawn syniadau a strategaethau mawr ond yn brin o sylwedd. Ceir llawer o sôn am offer datblygu a pheynnau adeiladu. Yn wir, mae'r geiriau allweddol hyn yn ymddangos ar bron pob tudalen. Fodd bynnag, fel y gall unrhyw un sydd wedi prynu cwprdd o B&Q ddweud wrthyf, mae offer yn ddefnyddiol iawn ond ni allwch gwblhau llawer o ddim heb y nytiau a'r bolttiau a llawlyfr cyfarwyddiadau manwl. Dyna sydd ar goll heddiw.

Soniodd y Gweinidog am y camau gweithredol radical y bwriedir eu cymryd. Efallai fod y cynllun gweithredu yn cynnwys un neu ddau syniad amwys ond addawol, fel y cynlluniau cludiant gwyrdd a defnyddio technoleg newydd, ond yn hytrach na datblygu'r syniadau hyn ymhellach neu roi enghreifftiau o'r manylion, mae gweddill y cynllun yn llawn awgrymiadau i anfon staff ar ddyddiau hyfforddi i'w dysgu am ddatblygu cynaliadwy, gwahodd siaradwyr gwadd i siarad amdano a threfnu seminarau a gweithdai. Os nad yw hynny'n ddigon, bydd hefyd ormodedd o bwyllgorau ac ymgynghorwyr a'r teithiau siarabang angenrheidiol bron ledled y wlad a'r byd ehangach i drafod polisïau datblygu cynaliadwy nad ydynt yn ymddangos yn y cynllun datblygu cynaliadwy. Ac eithrio'r cwestiwn amlwg ynglŷn â'r gost, rhaid inni hefyd ofyn beth gaiff ei drafod yn y cyfarfodydd hyn. Ni allaf ddeall pam mae angen ymgynghorwyr allanol i lunio'r polisïau hyn pan fo uned datblygu cynaliadwy fawr ym Mharc Cathays yn rhan o'r gwasanaeth sifil i helpu'r Llywodraeth i weithredu'r polisïau hyn.

Headline indicators also give rise to further concern. The problem with the term sustainable development is that it is generic and, therefore, open to interpretation. I think that it means the principle by which the economy grows in a way that benefits society and the natural environment. Any serious plans to implement sustainable development as a policy must answer the key questions of how we balance the inevitable conflicts that arise. For example, if a company plans to build a large factory on a greenfield site in an area of social deprivation, what criteria will be used to decide on the application? That is a simple but real question with which we will be faced, which our sustainable development policy should be able to help us resolve. The headline indicators give me no comfort that anyone realises this.

Two of the key indicators that have not been prioritised for adoption are gross domestic product per capita and usage of brownfield land. These two indicators are key to the whole package and yet, for some reason, they have been omitted. I do not intend to upset anyone by saying that some of the priorities are puzzling. As everyone knows, I am enthusiastic about encouraging the use of the Welsh language as long as that is voluntary. However, I cannot see why the number of Welsh speakers is considered to be such a key part of the sustainable development plan when usage of brownfield sites is not. I cannot help but think that this has more to do with the unwritten rule of the Welsh Office, which says that every document must include a token mention of the Welsh language. That is patronising to the language. Of course there is relevance, but you could argue that virtually any policy falls under the umbrella of sustainable development. I could argue that the standard spending assessment formula is relevant to the sustainable incomes of people in Monmouthshire, but I do not suppose that I would get very far. Virtually anything could be said to be part of sustainable development if one were to phrase it in the right way. The danger is that we could deviate far from the subject if we try to include everything. As a result of these concerns about the plan and the headline indicators, we will vote against the substantive motion. For similar reasons we will vote against amendment 5, although we

Mae dangosyddion allweddol hefyd yn peri pryder pellach. Y broblem gyda'r term datblygu cynaliadwy yw ei fod yn gyffredinol ac, felly, yn agored i ddehongliad. Credaf y golyga'r egwyddor o'r economi'n tyfu mewn ffordd sydd o fudd i'r gymdeithas a'r amgylchedd naturiol. Rhaid i gynlluniau difrifol i gyflwyno datblygu cynaliadwy fel polisi ateb y cwestiynau allweddol o ran sut y cydbwyswn y gwrthdaro anochel a fydd yn codi. Er enghraifft, os bydd cwmni'n bwriadu adeiladu ffatri fawr ar safle maes glas mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol, pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar y cais? Mae hwnnw'n gwestiwn syml ond gwirioneddol y byddwn yn ei wynebu, a dylai ein polisi datblygu cynaliadwy allu ein helpu i'w ddatrys. Nid yw'r dangosyddion allweddol yn fy argyhoeddi bod neb yn sylweddoli hyn.

Dau ddangosydd allweddol nas blaenoriaethwyd i'w mabwysiadu yw'r cynnyrch mewnwladol crynswth y pen a'r defnydd o dir maes llwyd. Mae'r ddau ddangosydd hyn yn allweddol i'r pecyn cyfan ond, am ryw reswm, ni chawsant eu cynnwys. Nid wyf yn bwriadu cynhyrfu neb drwy ddweud bod rhai o'r blaenoriaethau yn ddryslyd. Fel y gŵyr pawb, yr wyf yn frwdfrydig o ran annog defnyddio'r iaith Gymraeg cyhyd â bod hynny'n wirfoddol. Fodd bynnag, ni allaf weld pam yr ystyrir bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn rhan mor allweddol o'r cynllun datblygu cynaliadwy ond nid y defnydd o safleoedd tir llwyd. Ni allaf ond meddwl bod gan hyn fwy i'w wneud â rheol anysgrifenedig y Swyddfa Gymreig, sydd yn dweud y dylai pob dogfen gyfeirio'n symbolaidd at yr iaith Gymraeg. Mae hynny'n nawddoglyd i'r iaith. Wrth gwrs, mae'n berthnasol, ond gallech ddadlau bod bron pob polisi'n disgyn o dan ymbarél datblygu cynaliadwy. Gallwn ddadlau bod y fformwla asesu gwariant safonol yn berthnasol i incymau cynaliadwy pobl yn Sir Fynwy, ond ni thylbiaf y byddwn yn llwyddo. Gellir dweud bod bron popeth yn rhan o ddatblygu cynaliadwy petai rhywun yn ei eirio yn y ffordd gywir. Y perygl yw y gallem grwydro'n bell oddi wrth y pwnc pe ceisiwn gynnwys popeth. O ganlyniad i'r pryderon hyn am y cynllun a'r dangosyddion allweddol, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig. Am resymau tebyg, byddwn yn

are happy to support the other amendments.

pleidleisio yn erbyn gwelliant 5, er ein bod yn barod i gefnogi'r gwelliannau eraill.

Finally, I make a brief call for more clarity from whoever is responsible for drafting these documents. The Minister referred to the documents being in a usable format. I ask her to look at paragraph 8, which is typical of the jargon in the document. In that paragraph we are told, basically, that we might need to make changes as we go along. Why can whoever drafts these documents not just say that? Instead we are told that

I gloi, hoffwn ofyn am fwy o eglurder gan y sawl sydd yn gyfrifol am lunio copïau drafft o'r dogfennau hyn. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith bod y dogfennau mewn fformat defnyddiadwy. Gofynnaf iddi edrych ar baragraff 8, sydd yn nodweddiadol o'r jargon yn y ddogfen. Yn y paragraff hwn, cawn wybod, yn y bôn, y gallai fod angen inni wneud newidiadau wrth inni fynd ymlaen. Pam na all y sawl sydd yn drafftio'r dogfennau hyn ddweud hynny? Yn hytrach cawn wybod bod

'action on indicators underpins monitoring and evaluation. However, the process is not one-way: the process of monitoring and evaluation should inform development of improved decision-making tools and better policies in future.'

'gweithredu ar ddangosyddion yn ategu'r broses o fonitro a gwerthuso. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn un un ffordd: dylai'r proses o fonitro a gwerthuso lywio datblygiad dulliau gwneud penderfyniadau a pholisïau gwell yn y dyfodol.'

Of course I understood that immediately on seeing it last night, after a glass of wine, but other people might not be so familiar with civil service jargon. [*Interruption.*] Just one glass, of course; I always drink alcohol in a sustainable fashion.

Wrth gwrs, deallais hynny ar unwaith ar ôl ei weld neithiwr, ar ôl gwydraid o win, ond efallai na fydd pobl eraill yr un mor gyfarwydd â jargon y gwasanaeth sifil. [*Torri ar draws*]. Dim ond un gwydraid wrth gwrs; yr wyf bob amser yn yfed alcohol mewn ffordd gynaliadwy.

The Presiding Officer: Order. Your time is up.

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

David Davies: We are supposed to be committed to openness and transparency. Let that be reflected in these documents.

David Davies: Dylem fod yn ymrwymedig i fod yn agored ac eglur. Gadewch i hynny gael ei adlewyrchu yn y dogfennau hyn.

Cynog Dafis: Croesawaf y ddadl hon yn gynnes, a'r datblygiadau sydd yn digwydd. Yr wyf yn falch bydd gwelliant 1 yn cael ei gefnogi ac mae'n bwysig ein bod yn gweld y mater yn y termau hynny. Yr ydym yn byw mewn rhanbarth isddatblygedig, sydd yn dioddef ergydion caled i'w ddiwydiannau traddodiadol ac yn amlwg mae angen datblygu i foderneiddio ein heconomi. Gobeithio y bydd y fframwaith cynllunio sydd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd yn caniatáu a hwyluso datblygiad. Mae'n rhaid iddo beidio â bod yn siarter i'r rhai sydd am gadw ein tirlun yn ddilychwin ddigwyfnewid.

Cynog Dafis: I warmly welcome this debate, and the developments that are taking place. I am pleased that amendment 1 will be supported and it is important that we view the issue in those terms. We live in an underdeveloped region that is suffering body blows to its traditional industries and development is clearly needed to modernise our economy. I hope that the planning framework that is currently being prepared permits and facilitates development. It must not be a charter for those who want to preserve our landscape unsullied and unchanged.

Croesawaf yr hyn a ddywedodd Sue Essex am welliant 2. Yr wyf wedi beirniadu Cyngor

I welcome what Sue Essex said about amendment 2. I have criticised the

Cefn Gwlad Cymru droeon oherwydd ei agwedd negyddol tuag at ynni adnewyddadwy yn enwedig. Mae ei agwedd yn dramgwydd i ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, chwarae teg, os edrychwch ar Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 a sefydlodd y cyngor, ceir yr esboniad am hynny. Mae'r pwyslais i gyd ar y tirwedd a darparu cyfleusterau hamddena, gyda sylw israddol i fflora a ffawna. Nid oes sôn am sefydlogrwydd yr hinsawdd, am ddefnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy na chyfeiriad at y cyd-destun byd eang. Nid oes sôn o gwbl am bobl, diwylliannau na chymunedau.

Hoffwn weld cyfrifoldeb hyrwyddo datblygu cynaliadwy wedi'i ychwanegu at swyddogaethau'r cyngor a'i gyfarwyddo i ddehongli ei gyfrifoldeb am '*rich landscapes*' mewn modd sydd yn cydnabod angen newid a datblygu. Mae angen dweud yr un peth wrth y parciau cenedlaethol hefyd.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd yn gweinyddu cynllun Tir Gofal, enghraifft o ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae diffygion mawr yn y ffordd y mae'r cynllun hwnnw'n cael ei weithredu. Mae dylanwad y mudiadau cadwraethol ar y rheolau'n golygu nad yw'n gweithio fel y dylai i gryfhau hyfywedd ffermydd ar adeg o argyfwng enbyd.

Yn ddiweddar cyfarfûm â thri ffermwr blaengar yn ardal Llanfair Caereinion sydd wedi sefydlu prosiect cyffrous a fydd yn ailstwythuro eu dull ffermio yn gyfan gwbl yn ôl egwyddorion cynaliadwyedd, gan blannu coed, codi cloddiau, defnyddio ysglodion pren a blawd llif yn sarn o dan anifeiliaid yn lle cludo gwellt bob cam o Norfolk, ac yn y blaen. Mae'r enillion amgylcheddol ar y ffermydd hynny eisoes i'w gweld, ond pan wnaeth y ffermwyr gais am fynediad i gynllun Tir Gofal cafodd ei wrthod oherwydd nad oedd yn bodloni'r meini prawf. Nid oedd ganddynt ddigon o bwytiau oherwydd y buont yn ffermio yn rhy effeithlon, yn rhy intensif, yn y gorffennol. Mae rhywbeth mawr o'i le gyda chynllun sydd yn allgáu pobl felly o gyfle i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Heddiw bydd Edwina Hart a'r Llywydd yn torri tywarchen gyntaf ar safle'r dadleudy

Countryside Council for Wales many times because of its negative attitude towards renewable energy in particular. Its attitude is an obstacle to sustainable development. Although, to be fair, if you look at the Environmental Protection Act 1990, which established the council, you will find the explanation for that. All the emphasis is on landscape and providing leisure facilities, with lesser emphasis given to flora and fauna. There is no mention of climate stability, the sustainable use of natural resources, nor reference to the global context. There is no mention of people, cultures or communities.

I would like to see the responsibility for promoting sustainable development added to the council's duties, and that it be directed to interpret its responsibility for rich landscapes in a way that acknowledges the need for change and development. The same thing also needs to be said to the national parks.

The Countryside Council for Wales implements the Tir Gofal scheme, an example of sustainable development. However, there are great deficiencies in the way the scheme is implemented. The influence of conservation bodies on the rules means that it does not work as it should to improve the viability of farms at a time of dire crisis.

I recently met three innovative farmers in the Llanfair Caereinion area who have set up an exciting project that will completely restructure their farming methods according to the principles of sustainability by planting trees, erecting hedges, using wood chips and sawdust as animal bedding rather than transporting straw all the way from Norfolk, and so on. The environmental gains can already be seen on those farms, but when the farmers made an application for access to the Tir Gofal scheme it was refused because it did not satisfy the criteria. They did not have enough points because they had been farming too efficiently, too intensively, in the past. There is something very wrong with a scheme that excludes such people from an opportunity to promote sustainable development.

Today Edwina Hart and the Presiding Officer will cut the first turf on the site of the new

newydd. Dyna enghraifft o ddatblygu cynaliadwy, er enghraifft, yn ei ddefnydd o goed Cymreig. Mae'n rhoi inni gyfle i ddatblygu model newydd ac amgen o Werth Gorau, sef drwy gydweithio â llywodraeth leol a'r awdurdodau cyhoeddus iddynt gael polisi contractio a chaffael i ddechrau ailadeiladu'r economi leol. Hynny yn lle bod y pwyslais i gyd fel y mae ar hyn o bryd ar gadw'r pris i lawr—dyna'r 'Gwerth Gorau' presennol ac y mae eisiau iddo fod yn well na hynny. Gellid dangos yr enillion amgylcheddol o hynny. Gallai fod yn offeryn grymus i hyrwyddo menter a chreu swyddi a chyfoeth yn lleol. Mae Coed Cymru wedi bod yn gwneud hynny dros gyfnod o ryw 15 mlynedd. Mae'n enghraifft berffaith o ddatblygu cynaliadwy ar waith, yn gwarchod ac adfywio ar yr un pryd.

debating chamber. That is an example of sustainable development, for example, in its use of Welsh wood. It gives us the opportunity to develop a new, alternative model of Best Value, through working together with local government and public authorities so that they have a contracting and procurement policy that starts to rebuild the local economy. That would be instead of the whole emphasis being on keeping the cost down, as it is at the moment—that is current 'Best Value' and it needs to be better than that. The environmental gains of doing that could be demonstrated. It could be a powerful instrument to promote initiative and create jobs and wealth locally. Coed Cymru has been doing that over a period of about 15 years. It is a perfect example of sustainable development at work, safeguarding and regenerating simultaneously.

10:35 a.m.

O ran y dangosyddion, yr oeddwn yn hynod siomedig bod y farn yn rhanedig ar gynnwys cadw graddedigion ifanc gymwysedig yng Nghymru. Ni ddeallaf beth oedd cloffrwym pobl ynghylch hynny. Os na allwn wneud Cymru yn wlad lle bydd pobl ifanc am greu dyfodol iddynt eu hunain, a lle y bydd cyfle iddynt wneud hynny, byddwn wedi methu mewn ffordd sylfaenol. Nid yw gwlad sydd yn colli pobl ifanc, genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth fel y gwnaeth Cymru, yn wlad gynaliadwy. Mae'n ddangosydd allweddol a mawr obeithiaf y'i cynhwysir yn y dangosyddion yn y pendraw.

As regards the indicators, I was extremely disappointed that opinion was divided about including retaining qualified young graduates in Wales. I do not understand why people had reservations about that. If we cannot make Wales a country in which young people want to create a future for themselves, and where they have an opportunity to do so, we will have failed fundamentally. A country that loses young people, generation after generation as Wales has done, is not sustainable. It is a crucial indicator, and I greatly hope that it will eventually be included in the indicators.

Richard Edwards: I make my comments as Chair of the Environment, Planning and Transport Committee. The Committee welcomed the opportunity to discuss an early draft of the sustainable development action plan on 31 January. I congratulate the sustainable development unit and others for their hard work and commitment to sustainable development. I welcome the additions made since the Committee discussed the draft version, particularly those to the 'policy development review' and 'working with others' columns. There is much still to do, particularly on scrutiny and mainstreaming which is the key to delivering our commitment to sustainable development. It is essential that all Committees are

Richard Edwards: Gwnaf fy sylwadau fel Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i drafod fersiwn drafft cynnar o'r cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy ar 31 Ionawr. Hoffwn longyfarch yr uned datblygu cynaliadwy ac eraill am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Croesawaf yr ychwanegiadau a wnaethpwyd ers i'r Pwyllgor drafod y fersiwn drafft, yn arbennig y rhai i'r colofnau 'arolwg datblygu polisi' a 'gweithio ag eraill'. Mae llawer i'w wneud o hyd, yn arbennig ar archwilio a phrif ffrydio, sydd yn hanfodol i gyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Mae'n holl bwysig bod yr holl Bwyllgorau'n ymwneud â datblygu'r cynllun

involved in developing the action plan. It should not be seen as the sole responsibility of the Environment, Planning and Transport Committee or any new sustainability committee. As part of its remit, I suggest that the Assembly's review of procedures group also considers how best to mainstream and promote sustainable development within the Assembly's structures.

I welcome the requirement for Assembly sponsored public bodies to submit plans setting out how they propose to integrate sustainable development into their work. I agree that they should put sustainable development at the heart of their priorities. The Environment, Planning and Transport Committee will look closely at how the Countryside Council for Wales, the Environment Agency Wales and the Welsh national parks promote and mainstream sustainability in their own activities as well as their role in testing the sustainability of the Assembly's own policies and programmes. I welcome the call for the Government to pursue sustainable development as a positive opportunity for economic, social and environmental development. Those who attended the presentation by the community regeneration group, Traws-Newid from Trawsfynydd, will know that sustainability and social and economic regeneration can go hand in hand.

Glyn Davies: We are all in favour of sustainable development. Every political party will include references to sustainable development in their manifestos and each political party has champions for this cause. I admire John Gummer, who will be remembered for decades for making a significant contribution to British politics largely because of his commitment to sustainable development. I never miss a chance to hear him speak and I would recommend that others do the same.

I return to the nuts and bolts of the B&Q cupboard that David Davies talked about, which in this case, are the delivery of the overall objective that the Assembly in some ways is failing to come to terms with quickly enough. We must not shy away from decisions because they are difficult and controversial. The first time that I confronted

gweithredu. Ni ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth nac unrhyw bwyllgor cynaliadwyedd newydd yn unig. Fel rhan o'i gylch gorchwyl, awgrymaf fod arolwg y Cynlluniad o'r grŵp gweithdrefnau hefyd yn ystyried y ffordd orau o brif ffrydio a hyrwyddo datblygu cynaliadwy o fewn strwythurau'r Cynulliad.

Croesawaf y gofyniad i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gyflwyno cynlluniau sydd yn nodi sut y maent yn bwriadu integreiddio datblygu cynaliadwy i mewn i'w gwaith. Cytunaf y dylent roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu blaenoriaethau. Bydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn edrych yn fanwl ar sut y bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a pharciau cenedlaethol Cymru yn hyrwyddo a phrif ffrydio cynaliadwyedd yn eu gweithgareddau eu hunain yn ogystal â'u rôl i brofi cynaliadwyedd polisiau a rhaglenni y Cynulliad ei hun. Croesawaf yr alwad ar y Llywodraeth i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy fel cyfle positif ar gyfer datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gŵyr y rhai a fynychodd y cyflwyniad gan y grŵp adfywiad cymunedol, Traws-Newid o Drawsfynydd, y gall cynaliadwyedd ac adfywiad cymdeithasol ac economaidd fynd law yn llaw.

Glyn Davies: Yr ydym oll o blaid datblygu cynaliadwy. Bydd pob plaid yn cynnwys cyfeiriadau at ddatblygu cynaliadwy yn eu manifestos ac mae gan bob plaid arbenigwyr yn y maes hwn. Edmygaf John Gummer, a gaiff ei gofio am ddegawdau am wneud cyfraniad arwyddocaol i wleidyddiaeth ym Mhrydain yn bennaf oherwydd ei ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Ni fyddaf byth yn colli ar y cyfle i'w glywed yn siarad ac anogaf eraill i wneud yr un peth.

Dychwelaf at y nytiau a'r bolltiau yng nghwprdd B&Q y soniodd David Davies amdanynt, sef, yn yr achos hwn, y broses o gyflawni'r amcan cyffredinol y mae'r Cynulliad mewn rhyw ffyrdd yn methu â dod i delerau ag ef yn ddigon cyflym. Ni ddylem osgoi penderfyniadau am eu bod yn anodd a dadleuol. Y tro cyntaf yr euthum i'r afael â'r

this issue was when I was responsible for developing factories in rural Wales. There is a huge lobby saying that rural Wales is so beautiful that we must not build any factories there. A balance must be found between doing what you must to sustain jobs and people, and causing some damage to the landscape. The view that I took then, which I always will take, is that you must accept that there will be development and new factories. However, you must also accept that there is a cost involved in ensuring that developments are as environmentally acceptable as possible. You must not say 'no' to developments because they cause some damage.

I turn to Tir Gofal, which Cynog has mentioned. I agree with his points about the present practicalities of the scheme. I have also visited the Pontbren scheme in Llanfair Caereinion. When you visit such schemes, you realise that Tir Gofal in its current form is not delivering. That is why I welcome the Minister's commitment to stock-take Tir Gofal and to discuss this with the Committee. We will do that in June and there is much to do. I was pleased to hear the Minister for Rural Affairs refer to the extensive nature of Welsh farming. His predecessor is very much associated with that objective. Of course, in those days she was merely a Secretary, not a Minister. I support the Assembly's commitment to extensive farming.

We must get to grips with many controversial issues. One is wind power. At the moment, we are refusing to come to terms with it because it is controversial. An application in Montgomeryshire was submitted four years ago. I find it difficult to get involved because I am still a member of the planning panel. Therefore, it is difficult to publicly support one side or the other because I would not be able to serve on the panel. However, we must deal with the issue and you cannot leave it standing idle. The same applies to the wood burning integrated power station in Newbridge on Wye. I was disappointed when that application was called in. I am worried that, because it is so controversial within the area, it will be continually delayed in the hope that it will go away so that we do not

mater hwn oedd pan oeddwn yn gyfrifol am ddatblygu ffatrioedd yng Nghymru wledig. Ceir lobi mawr yn dweud bod Cymru wledig mor hardd fel na ddylem adeiladu unrhyw ffatrioedd yno. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud beth sydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal swyddi a phobl, ac achosi peth difrod i'r dirwedd. Fy safbwynt bryd hynny, ac fy safbwynt bob amser, yw bod yn rhaid derbyn y bydd datblygiad a ffatrioedd newydd yn digwydd. Fodd bynnag, rhaid ichi dderbyn hefyd bod sicrhau bod datblygiadau mor amgylcheddol dderbyniol â phosibl yn golygu costau. Ni ddylech ddweud 'na' i ddatblygiadau am eu bod yn achosi rhywfaint o difrod.

Trof at Dir Gofal, y soniodd Cynog amdano. Cytunaf â'i bwyntiau am ymarferoldebau presennol y cynllun. Yr wyf innau hefyd wedi ymweld â chynllun Pontbren yn Llanfair Caereinion. Pan fyddwch yn ymweld â chynlluniau o'r fath, sylweddolweh nad yw Tir Gofal, ar ei ffurf bresennol yn cyflawni ei amcanion. Dyna pam y croesawaf ymrwymiad y Gweinidog i ystyried Tir Gofal a thrafod hyn â'r Pwyllgor. Gwnawn hynny ym mis Mehefin ac mae llawer o waith i'w wneud. Yr oeddwn yn falch o glywed y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cyfeirio at natur helaeth ffermio yng Nghymru. Ceir cysylltiad agos iawn rhwng ei ragflaenydd a'r amcan hwnnw. Wrth gwrs, yn y dyddiau hynny Ysgrifennydd oedd hi, nid Gweinidog. Cefnogaf ymrwymiad y Cynulliad i ffermio helaeth.

Rhaid inni ymdrin â llawer o faterion dadleuol. Un yw pŵer gwynt. Ar hyn o bryd, yr ydym yn gwrthod dod i delerau â hyn am ei fod yn ddadleuol. Cyflwynwyd cais yn Sir Drefaldwyn bedair blynedd yn ôl. Mae'n anodd imi ymwneud â hyn am fy mod yn dal i fod yn aelod o'r panel cynllunio. Felly, mae'n anodd mynegi cefnogaeth yn gyhoeddus o blaid y naill ochr neu'r llall oherwydd na allwn wasanaethu ar y panel. Fodd bynnag, rhaid inni ddelio â'r mater hwn ac ni allwch ei anwybuddu. Mae'r un peth yn berthnasol i'r orsaf bŵer llosgi pren integredig yn y Bontnewydd ar Wye. Yr oeddwn yn siomedig pan alwyd y cais i mewn. Mae hyn yn peri pryder i mi oherwydd, gan ei fod mor ddadleuol o fewn yr ardal, caiff ei ohirio'n barhaus yn y gobaith y bydd yn diflannu ac ni

have to come to a decision on it.

Another issue is recycling. We pay much lip-service to the issue of recycling so we must get to grips with it. We should not allow incinerators to be developed because they are convenient. We know that is not the real answer, but we are avoiding becoming involved in this debate and introducing real recycling policies by developing incinerators. It will solve the problem in the short term and prevent us from having to deal with the issue. Again, that is not acceptable.

Finally, sustainable transport is important. We should encourage leisure activities that do not make any demand on renewable resources. There is no better activity than running. In two hours, I will try to promote it by running from this Assembly Chamber to the site of the new children's hospital. Rhodri Glyn Thomas and Brian Hancock are joining me in this run, so it has all-party support, which is encouraging. I would like to take this opportunity to thank everybody who has sponsored us and emphasise that it is still not too late to do so.

The Minister for Environment (Sue Essex): I thank most of the contributors for their positive points. I sometimes think that David Davies would not recognise sustainable development if it came up and smacked him in the face. Perhaps he needs a few more pints or glasses of wine to do so. I will return to his specific points.

I thank Plaid Cymru—The Party of Wales for its positive response to my points on the amendments. I welcome Rhodri Glyn Thomas's point about recognising that we are making progress but it is far from complete. Additional work is required. His points about mainstreaming the issues through economic development and other areas are important. On a positive note, in the last year, we have made huge progress in cultural changes on sustainable development. A few weeks ago, I would not have dreamt of hearing people talk about it in such a positive way. We cannot be complacent. However, during my economic development discussions with the WDA, and when I launched the policy on Monday with it, important cultural changes and changes of attitude have taken place. We need to keep

fydd angen inni benderfynu arno.

Mater arall yw ailgylchu. Yr ydym yn sôn llawer am ailgylchu felly rhaid inni fynd i'r afael â hyn. Ni ddylem ganiatáu i losgwyr gael eu datblygu dim ond am eu bod yn gyfleus. Gwyddom nad dyna'r ateb, ond yr ydym yn osgoi cymryd rhan yn y ddatl hon a chyflwyno polisiau ailgylchu gwirioneddol drwy ddatblygu llosgwyr. Bydd yn datrys y broblem yn y tymor byr ac yn golygu na fydd yn rhaid inni ddelio â'r mater. Unwaith eto, nid yw hynny'n dderbyniol.

Yn olaf, mae trafndiaeth gynaliadwy yn bwysig. Dylem annog gweithgareddau hamdden nad ydynt yn rhoi pwysau ar adnoddau adnewyddadwy. Nid oes gwell gweithgaredd na rhedeg. Ymhen dwy awr, ceisiaf hyrwyddo hyn drwy redeg o'r Siambr hon i safle'r ysbyty plant newydd. Mae Rhodri Glyn Thomas a Brian Hancock yn ymuno â mi yn y ras hon, felly mae ganddo gefnogaeth pob plaid, sydd yn galonogol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi ein noddi a phwysleisiaf nad yw'n rhy hwyr i wneud hynny.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Diolchaf i'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr am eu pwyntiau cadarnhaol. Credaf weithiau na allai David Davies adnabod datblygu cynaliadwy petai'n ei daro yn ei wyneb. Efallai fod angen ychydig mwy o beintiau neu wydrau o win arno i allu gwneud hynny. Byddaf yn dychwelyd at ei bwntiau penodol.

Diolchaf i Blaid Cymru—The Party of Wales am ei hymateb cadarnhaol i'm pwyntiau ar y gwelliannau. Croesawaf bwynt Rhodri Glyn Thomas ynglŷn â chydabod ein bod yn gwneud cynnydd ond nad yw'n gyflawn o bell ffordd. Mae angen gwaith ychwanegol. Mae ei bwntiau ynglŷn â phrif ffrydio'r materion drwy ddatblygu economaidd a meysydd eraill yn bwysig. Ar nodyn cadarnhaol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gynnydd aruthrol mewn newidiadau diwylliannol ar ddatblygu cynaliadwy. Ychydig wythnosau yn ôl, ni fyddwn wedi dychmygu clywed pobl yn trafod hyn mewn ffordd mor gadarnhaol. Ni allwn fod yn hunanfodlon. Fodd bynnag, yn ystod fy nhrafodaethau ar ddatblygu economaidd gyda'r WDA, a phan lansiais y polisi gydag ef ddydd Llun, mae newidiadau

pushing on that.

I thank Mick Bates for his positive comments. I will refer to the issue of renewable energy, which I know is dear to his heart and that of many others. I hope that, in collaboration with the Deputy First Minister and Minister for Economic Development, we will push this forward positively. Although there will be a difference of opinions, I understand that the first meeting of the advisory group on planning that you attended was successful and was well attended. In May, I am organising, with Michael German, a joint seminar on renewable energy because it is difficult to assess its role in the economic development of Wales. The discussion here has often focused on planning difficulties. Glyn Davies alluded to some of them. However, it is a wider issue, which covers how we treat that as part of the green economy. We need to address that as well as the planning side, which we are taking forward.

10:45 a.m.

The co-ordinating group, Mick, will be important in whatever form it takes. As soon as this motion has been adopted by the Assembly, we will start work on that cross-party co-ordinating group, to see how it could happen. I agree with your point that sustainable development, if we get this right, is the future and vision for Wales.

David Davies talked about the principles and poured scorn on the tools. However, the tools of the trade will answer many of the difficult questions that Glyn raised. Glyn was right to point out that there are tricky questions. They can often be answered with an 'either/or'. In many cases, a compromise can be reached, but it is often an 'either/or' answer. The point about evaluation and putting the tools in place is that we can, perhaps, take this out of the subjective discussions that we have previously had and put it on a more objective basis, so that we have a rational basis for decision-making. That is the point of that kind of work. It is also being done through Objective 1 applications.

diwylliannol pwysig a newidiadau pwysig mewn ymagwedd wedi digwydd. Mae angen inni barhau i bwysio am hynny.

Diolchaf i Mick Bates am ei sylwadau cadarnhaol. Cyfeiriaf at ynni adnewyddadwy, sydd yn agos at ei galon ef a chalonnau nifer o bobl eraill fe wn. Gobeithiaf, drwy gydweithio â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, y gallwn roi hwb cadarnhaol i hyn. Er y bydd gwahaniaeth barn, deallaf y bu cyfarfod cyntaf y grŵp ymgynghorol ar gynllunio, a fynychwyd gennych, yn llwyddiannus ac fe'i mynychwyd gan lawer. Yn mis Mai, yr wyf yn trefnu, gyda Michael German, seminar ar y cyd ar ynni adnewyddadwy am ei bod yn anodd asesu ei rôl yn natblygu economaidd Cymru. Mae'r drafodaeth hon wedi canolbwyntio'n aml ar anawsterau cynllunio. Cyfeiriodd Glyn Davies at rai ohonynt. Fodd bynnag, mae'n fater ehangach, sydd yn cwmpasu sut yr ydym yn trin hynny fel rhan o'r economi werdd. Mae angen inni fynd i'r afael â hyn yn ogystal â'r ochr gynllunio, a ddatblygir gennym ar hyn o bryd.

Bydd y grŵp cydlynu, Mick, yn bwysig beth bynnag ei ffurf. Cyn gynted ag y caiff y cynnig hwn ei fabwysiadu gan y Cynulliad, byddwn yn dechrau ar waith y grŵp cydlynu traws-bleidiol hwnnw, i weld sut y gallai ddigwydd. Cytunaf â'ch pwynt mai datblygu cynaliadwy, os byddwn yn ei gael yn iawn, yw dyfodol a gweledigaeth Cymru.

Siaradodd David Davies am yr egwyddorion a dirmygodd yr offer. Fodd bynnag, bydd yr offer yn ateb nifer o'r cwestiynau anodd a gododd Glyn. Yr oedd Glyn yn gywir i nodi bod cwestiynau anodd. Gellir eu hateb yn aml gyda 'naill ai/neu'. Mewn nifer o achosion eraill, gellir cyfaddawdu, ond yn aml yr ateb yw 'naill ai/neu'. O ran y pwynt am werthuso a rhoi'r offer ar waith, y gobaith yw y gallwn, efallai, dynnu hyn allan o'r trafodaethau goddrychol a gawsom yn gynt a thrafod hyn yn fwy gwrthrychol, er mwyn inni gael sail resymol dros wneud penderfyniadau. Dyna bwrpas y math hwnnw o waith. Caiff ei wneud hefyd drwy geisiadau Amcan 1.

Richard made some sensible points about the Environment, Planning and Transport Committee's work on this. He also made a point about the need to pass that on to other Committees and to ensure that information on sustainable development is picked up across the board.

Glyn said that in principle—and I suppose it is a bit like motherhood and apple pie—every political party will say 'yes' to this. The test will be what we do. The reference to John Selwyn Gummer, known as the 'burger king', is not the most practical example of sustainable development. However, I will make some points on sustainable development in practice to refute David Davies's view that all we do is talk and do nothing to put it into practice.

This administration invested pilot money for national parks and areas of outstanding natural beauty to devise sustainable development schemes. That is progressing well. It picks up social, environmental and economic points. We have invested money to promote those schemes.

Yesterday, I and some other Members—unfortunately, not many—attended an Environment Wales presentation. There were some excellent examples, particularly from small local groups and organisations, of putting sustainable development into practice. We want to pick up those examples of best practice, pass them on and make them work.

Rhodri Glyn mentioned the issue of locality, when he referred to the abattoirs. We must discover what we can do locally to get people involved. You often find that the best economic and environmental solutions are made locally. The foot and mouth disease tragedy has shown some of those points only too clearly.

I thank everyone for their comments. I thank Plaid Cymru for withdrawing amendments 2, 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies. We can all, apart from the Welsh Tories, support the three remaining amendments.

Gwnaeth Richard rai pwyntiau synhwyrol am waith Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar hyn. Gwnaeth bwynt hefyd am yr angen i drosglwyddo hynny i Bwyllgorau eraill ac i sicrhau bod gwybodaeth ar ddatblygu cynaliadwy ar gael yn gyffredinol.

Dywedodd Glyn—a chredaf fod hyn yn rhywbeth sydd yn agos at galon pawb—y bydd pob plaid yn dweud 'ie' i hyn mewn egwyddor. Y prawf fydd beth a wnawn. Nid y cyfeiriad at John Selwyn Gummer, a adwaenir fel y 'brenin byrgyrs' yw'r enghraifft mwyaf ymarferol o ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, gwnaf rai pwyntiau ar ddatblygu cynaliadwy ymarferol i wrthbrofi safbwynt David Davies mai'r cyfan a wnawn yw siarad yn hytrach na rhoi pethau ar waith.

Buddsoddodd y weinyddiaeth hon arian peilot er mwyn i barciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ddyfeisio cynlluniau datblygu cynaliadwy. Mae hynny'n mynd rhagddo'n dda. Mae'n cwmpasu pwyntiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Yr ydym wedi buddsoddi arian i hyrwyddo'r cynlluniau hynny.

Ddoe, mynychais i a rhai Aelodau eraill—yn anffodus, dim llawer—gyflwyniad Amgylchedd Cymru. Cafwyd rhai esiamplau gwych, yn arbennig gan grwpiau lleol a sefydliadau bach, o roi datblygu cynaliadwy ar waith. Yr ydym am gael gwybod am yr esiamplau hyn o arfer gorau, eu trosglwyddo i eraill a gwneud iddynt lwyddo.

Soniodd Rhodri Glyn am ardaloedd lleol, pan gyfeiriodd at ladd-dai. Rhaid inni ganfod beth y gallwn ei wneud yn lleol i gynnwys pobl. Yn aml, gwneir y datrysiadau economaidd ac amgylcheddol gorau yn lleol. Mae trychineb clwy'r traed a'r genau wedi amlygu rhai o'r pwyntiau hyn yn eglur iawn.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu sylwadau. Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am dynnu gwelliannau 2, 3 a 4 yn ôl yn enw Jocelyn Davies. Gallwn oll, ac eithrio Torïaid Cymru, gefnogi'r tri gwelliant arall.

*Gwelliant 1: O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 41, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.*

*Tynnwyd gwelliannau 2, 3 a 4 yn ôl.
Amendments 2, 3 and 4 withdrawn.*

*Gwelliant 5: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 7.
Amendment 5: For 36, Abstain 0, Against 7.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn

Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Feld, Val
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty

Graham, William
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Richards, Rod

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment adopted.*

*Gwelliant 6: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 6.
 Amendment 6: For 38, Abstain 0, Against 6.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Geraint
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Feld, Val
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Bourne, Nicholas
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Richards, Rod

Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment adopted.*

Amended motion:

Cynnig wedi'i ddiwygio:

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol:

notes the sustainable development scheme draft action plan, distributed to Assembly Members by e-mail and laid in the Table Office on 20 February 2001;

yn nodi 'Cynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Datblygu Cynaliadwy' a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad trwy'r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001;

calls upon the Government for Wales to pursue sustainable development as a positive opportunity for economic and social as well as environmental development;

yn galw ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy fel cyfle cadarnhaol ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol yn ogystal â datblygu amgylcheddol;

agrees that the implementation of the sustainable development scheme will be measured against the draft action plan;

yn cytuno y bydd y broses o roi'r cynllun datblygu cynaliadwy ar waith yn cael ei mesur yn erbyn y cynllun gweithredu drafft;

adopts the identified indicators of sustainable development (annex E);

yn mabwysiadu'r dangosyddion datblygu cynaliadwy a nodwyd (atodiad E);

asks the Minister for Environment to consult with Assembly Members and take other steps to further develop the action plan, identify additional sustainable development indicators and consider options for mainstreaming and promoting sustainable development within the Assembly's structures;

yn gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a chymryd camau eraill i ddatblygu'r cynllun gweithredu ymhellach, nodi dangosyddion datblygu cynaliadwy ychwanegol ac ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys datblygu cynaliadwy yn holl strwythurau'r Cynulliad a'i hybu o fewn y strwythurau hynny;

welcomes the progress already made in the sustainable development scheme draft action plan and indicators;

yn croesawu'r camau ymlaen a gymerwyd eisoes yng nghynllun gweithredu drafft y cynllun datblygu cynaliadwy ac yn y dangosyddion;

calls on the First Minister to attend the Earth Summit on sustainable development in 2002

yn galw ar Brif Weinidog Cymru i fynd i Uwchgynhadledd y Ddaear ar ddatblygu

as a member of the UK delegation.

cynaliadwy fel aelod o ddirprwyaeth y DU.

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 8.
Amended motion: For 36, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nicholas
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion adopted.*

Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig Cynlluniau Trafnidiaeth Leol Approval of the Local Transport Schemes Special Grant Report

The Minister for Environment (Sue Essex): I propose that

the National Assembly, under section 88B of the Local Government Finance Act 1988, and in accordance with Standing Order No. 19.8, approves the Local Transport Services Grant Scheme 2001-2002 Special Grant Report (Wales) 2001, which was laid in the Table

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol, o dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) 2001 - Cynllun Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol 2001-2002

Office on 19 February 2001.

I hope that this will be fairly non-controversial. Through this grant, we are trying to combine the bus subsidy grant and the Welsh rural transport grant. That will enable local authorities to have greater flexibility. It will help to better underpin and support community transport and allow local councils to respond to their own communities in a more flexible and responsive way.

Local bus services are vital in meeting the transport needs of people throughout Wales. Increasingly, the legacy of deregulation means that local authorities are called upon to provide the funding needed to ensure that services run and that fares are within the reach of passengers. Since its launch in 1998, the bus subsidy grant scheme has played an important part in helping authorities to meet this need. In its first year, the budget was £2.25 million. At the same time, £0.25 million was allocated to support community transport projects in Wales.

Dafydd Wigley: Can you confirm whether there has now been agreement on the provision of reduced or free transport facilities for pensioners throughout Wales, given that the different policies being pursued by different counties cause difficulties if pensioners travel any great distance? Has that issue been dealt with?

Sue Essex: The concessionary fares scheme that we have introduced aims to produce consistency throughout Wales. In April, the free bus pass will be introduced and half price fares will be delivered across Wales. Next April, that pass will cover the full fare. Powys was the last county to enter that scheme.

Ensuring effective local transport and promoting accessibility is one of our key priorities. Accessibility is important to enable people, young and old, to get to work and education and to access services. Next year, the combined budget allocated to local authorities to support bus subsidies and community transport will be £6.3 million, an

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2001.

Gobeithiaf na fydd llawer o ddadlau ynglŷn â hyn. Drwy'r grant hwn, ceisiwn gyfuno'r grant cymhorthdal bysys a grant trafndiaeth wledig Cymru. Bydd hynny'n galluogi awdurdodau lleol i fod yn fwy hyblyg. Bydd yn helpu i gynnal trafndiaeth gymunedol ac yn caniatáu i gynghorau lleol ymateb i'w cymunedau eu hunain mewn ffordd fwy hyblyg ac ymatebol.

Mae gwasanaethau bysys lleol yn hanfodol wrth ddiwallu anghenion trafndiaeth pobl ledled Cymru. Yn gynyddol, golyga'r problemau a ddaeth yn sgîl dadreoleiddio y gelwir ar awdurdodau lleol i ddarparu'r arian sydd ei angen i sicrhau y cynhelir gwasanaethau a bod prisiau teithio o fewn cyrraedd teithwyr. Ers ei lansio yn 1998, mae'r cynllun grant cymhorthdal bysys wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu awdurdodau i ddiwallu'r angen hwn. Yn ei flwyddyn gyntaf, y gyllideb oedd £2.25 miliwn. Ar yr un pryd, dyrannwyd £0.25 miliwn i gynnal prosiectau trafndiaeth gymunedol yng Nghymru.

Dafydd Wigley: A allwch gadarnhau a gytunwyd bellach ar ddarparu cyfleusterau trafndiaeth am bris gostyngol neu am ddim i bensynwyr ledled Cymru, o gofio bod y gwahanol bolisiau a ddilynir gan wahanol siroedd yn achosi anawsterau os bydd pensynwyr yn teithio unrhyw bellter mawr? A ymdriniwyd â'r achos hwnnw?

Sue Essex: Nod y cynllun prisiau teithio gostyngol a gyflwynwyd gennym yw creu cysondeb ledled Cymru. Yn Ebrill, cyflwynir y tocyn bws am ddim a chyflwynir prisiau teithio hanner pris ledled Cymru. Fis Ebrill nesaf, bydd y tocyn hwnnw yn cwmpasu'r pris teithio llawn. Powys oedd y sir ddiwethaf i ymuno â'r cynllun hwnnw.

Mae sicrhau trafndiaeth leol effeithiol a hyrwyddo hygyrchedd yn un o'n prif flaenoriaethau. Mae hygyrchedd yn bwysig i alluogi pobl, yn hen ac ifanc, i gyrraedd gwaith ac addysg ac i gael mynediad i wasanaethau. Y flwyddyn nesaf, ceir cyllideb gyfun o £6.3 miliwn a ddyrennir i awdurdodau lleol i gynnal cymorthdaliadau

increase of more than 150 per cent on 1998-99. That is a significant increase and shows our commitment to supporting public transport. The indicative budget for 2001-03 and 2003-04 provides for further increases to £7.3 million and £8.3 million. The proposed allocations for each authority are in annex A of the special grant report. I am pleased that this money is increasing and we will support the provision of services in local communities.

Although it is not included in this report, a further £340,000 is available next year to fund community transport projects approved under the former rural transport innovation and Welsh rural transport grant schemes. That sum also includes funding until March 2004 of the post of a rural transport officer for Wales, under the auspices of the Community Transport Association. Anyone who is familiar with the work of Wynford Lloyd Davies will know what a good job he has done and how committed he is to developing community transport on the ground. I am pleased to say that this post, and the telephone advice line, have proved their worth, and I am keen that they should continue.

10:55 a.m.

Members of the Environment, Planning and Transport Committee will know that we are committed to the development of community transport. That is why we are establishing a working group, to consider how this can be mainstreamed throughout Wales. It is important to remember that while community transport is vital in rural areas, it also plays an important part in urban areas and inaccessible Valley communities. Such communities find community transport to be a good way of ensuring access.

We have considered the effectiveness of the bus subsidy grant and the scheme was reviewed during the past year. That work included an assessment of its administration, impact and potential. The review also considered the relationship between the bus subsidy grant and the Welsh rural transport grant. A conclusion of that study led to this

bysys a thrafnidiaeth gymunedol, cynnydd o dros 150 y cant ar 1998-99. Mae hynny'n gynydd sylweddol a dengys ein hymroddiad i gynnal trafndiaeth gyhoeddus. Darpara'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2001-03 a 2003-04 ar gyfer cynnydd pellach i £7.3 miliwn a £8.3 miliwn. Mae'r dyraniadau arfaethedig ar gyfer pob awdurdod yn atodiad A yr adroddiad grant arbennig. Yr wyf yn falch bod yr arian hwn yn cynyddu a byddwn yn cefnogi darparu gwasanaethau mewn cymunedau lleol.

Er na chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, mae £340,000 pellach ar gael y flwyddyn nesaf i ariannu prosiectau trafndiaeth gymunedol a gymeradwywyd o dan yr hen gynlluniau dyfeisgarwch trafndiaeth wledig a grantiau trafndiaeth wledig Cymru. Bydd y swm hwnnw hefyd yn ariannu swydd swyddog trafndiaeth wledig i Gymru tan fis Mawrth 2004, o dan arweiniad y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol. Gŵyr unrhyw un sydd yn gyfarwydd â gwaith Wynford Lloyd Davies am safon ei waith a'i ymroddiad wrth ddatblygu trafndiaeth gymunedol ar lawr gwlad. Mae'n bleser gennyf nodi bod y swydd hon, a'r llinell gyngor dros y ffôn, wedi profi eu gwerth, ac yr wyf yn awyddus iddynt barhau.

Bydd aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ymwybodol ein bod yn ymroddedig i ddatblygu trafndiaeth gymunedol. Dyna pam ein bod yn sefydlu gweithgor, i ystyried sut y gellir gosod hyn yn y brif ffrwd ledled Cymru. Mae'n bwysig cofio, er bod trafndiaeth gymunedol yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig, ei bod hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn ardaloedd trefol a chymunedau anghysbell y Cymoedd. Mae trafndiaeth gymunedol yn ffordd dda o sicrhau mynediad i gymunedau o'r fath.

Yr ydym wedi ystyried effeithiolrwydd y grant cymorthdaliadau bysys ac adolygwyd y cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yr oedd y gwaith hwnnw yn cynnwys asesiad o'i weinyddiaeth, ei effaith a'i botensial. Ystyriodd yr adolygiad hefyd y berthynas rhwng y grant cymorthdaliadau bysys a grant trafndiaeth wledig Cymru. Un o gasgliadau'r

motion today. The combination of grants in the new scheme is the best way of meeting passengers' needs effectively and efficiently. The new scheme will be reviewed to ensure that it continues to meet our objectives for local transport provision. The key requirement is that the new arrangements will mean that local authorities will be able to better target this money to meet local circumstances and needs and to reflect the policies in their local transport plans. The proposal has been widely consulted upon and has secured considerable support. I hope that Members will also give their support to it.

Janet Ryder: I fully support the points you raised, Sue. However, I have some concerns about the amalgamation of the grants. Support for rural transport is one element amalgamated in the scheme. As you said, transport is crucial to increasing social inclusion. Without transport, which is vital in rural areas, people cannot access employment, training and social activities. I hope that the amalgamation of these grants will not mean that the rural transport element is lost, or the provision used for transport in urban areas.

I welcome the move to develop community transport schemes, particularly those aimed at ensuring disabled access to transport, such as schemes that support the development of dial-a-ride with, for example, buses adapted to carry wheelchairs. Other groups, such as Chariots in Wrexham, provide transport for disabled people by using vehicles adapted to carry wheelchairs, so that disabled people can carry out tasks such as shopping and are given the independence that they desperately need. We welcome the move to develop transport as a means of promoting social inclusion, with the proviso that the rural element will not be lost in the amalgamation.

Mick Bates: The Liberal Democrats also welcome this scheme. Last year, the Assembly provided £5 million in grants for bus subsidies. This year's payment will be

astudiaeth honno a arweiniodd at y cynnig hwn heddiw. Y cyfuniad o grantiau yn y cynllun newydd yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion teithwyr yn effeithiol ac yn effeithlon. Adolygir y cynllun newydd i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu ein hamcanion ar gyfer darpariaeth trafndiaeth leol. Y prif ofyniad yw y bydd y trefniadau newydd yn golygu y gall awdurdodau lleol dargedu'r arian hwn yn well er mwyn diwallu amgylchiadau ac anghenion lleol ac adlewyrchu'r polisïau yn eu cynlluniau trafndiaeth lleol. Ymgynghorwyd yn eang ar y cynnig a chafwyd cefnogaeth sylweddol iddo. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau hefyd yn ei gefnogi.

Janet Ryder: Cefnogaf y pwyntiau a godoch yn llwyr, Sue. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon ynghylch uno'r grantiau. Un o'r elfennau a gaiff ei huno yn y cynllun yw cymorth i drafnidiaeth wledig. Fel y dywedaso, mae trafndiaeth yn hanfodol wrth gynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Heb drafnidiaeth, sydd yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig, ni all pobl gael mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant a gweithgareddau cymdeithasol. Gobeithiaf na fydd uno'r grantiau hyn yn golygu y collir yr elfen trafndiaeth wledig, neu y defnyddir y ddarpariaeth ar gyfer trafndiaeth mewn ardaloedd trefol.

Croesawaf yr ymgais i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gymunedol, yn arbennig y rheini sydd wedi'u hanelu at sicrhau mynediad i'r anabl i drafnidiaeth, megis cynlluniau sydd yn cynnal y gwaith o ddatblygu deial-amdaith gyda bysys wedi'u haddasu i gludo cadeiriau olwyn, er enghraifft. Darpara grwpiau eraill, megis Chariots yn Wrecsam, drafnidiaeth i bobl anabl drwy ddefnyddio cerbydau wedi'u haddasu i gludo cadeiriau olwyn, fel y gall pobl anabl gyflawni tasgau megis siopa ac er mwyn rhoi'r annibyniaeth honno sydd ei hangen yn ddirfawr arnynt. Croesawn yr ymgais i ddatblygu trafndiaeth fel ffordd o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, ar yr amod na cholli yr elfen wledig wrth uno.

Mick Bates: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn croesawu'r cynllun hwn. Y llynedd, darparodd y Cynulliad £5 miliwn mewn grantiau ar gyfer

£6.3 million, which represents a 26 per cent increase in funding. We made a commitment in the partnership agreement to increase bus subsidies, particularly in rural areas, by £6 million over the next three years. This special grant report determines how we will allocate the first instalment of £1.3 million. If the Assembly accepts the indicative allocations, we will, in fact, increase the budget by £6.9 million over the next two years.

I am concerned about one aspect. The Minister mentioned the telephone line. However, will published timetables also be available? I believe that there is some doubt about their continued provision. I hope that the Minister will address that in her closing remarks.

The Liberal Democrats welcome the extra money for local transport services and that the bulk of that money is for improving rural bus services. Rural communities have suffered from the loss of many services over recent years, and it is vital that the Assembly does what it can to maintain sustainable rural communities. We therefore welcome the Assembly's commitment to spend more on public transport and the recognition of the need to boost public transport in rural areas.

David Davies: I welcome all comments made by previous speakers. On a recent visit to a bus company, one great problem that was apparent was that a small minority of youths makes life difficult for other passengers at times. Many bus companies do not feel that they have adequate powers to deal with that.

In general, the Welsh Conservatives support the provisions in the rural transport grant. The Minister knows that deregulation is an inevitable consequence of membership of the European Union. It is unavoidable under the terms of EU legislation. Can we therefore stop making snide comments about the previous Conservative Government, which did an excellent job in improving transport

cymorthdaliadau bysys. Bydd taliad eleni yn £6.3 miliwn, sydd yn cynrychioli cynnydd o 26 y cant. Yr ydym wedi ymrwymo yn y cytundeb partneriaeth i gynyddu cymorthdaliadau bysys, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, £6 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Mae'r adroddiad grant arbennig hwn yn pennu sut y byddwn yn dyrannu'r rhandaliad cyntaf o £1.3 miliwn. Os derbynia'r Cynulliad y dyraniadau dangosol, byddwn, mewn gwirionedd, yn cynyddu'r gyllideb £6.9 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf.

Yr wyf yn pryderu ynghylch un agwedd. Soniodd y Gweinidog am y llinell ffôn. Fodd bynnag, a fydd amserlenni cyhoeddedig ar gael hefyd? Credaf fod rhywfaint o amheuaeth ynglŷn â pharhau i'w darparu. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ymdrin â hynny yn ei sylwadau cloi.

Croesawa'r Democratiaid Rhyddfrydol yr arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth lleol a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r arian hwnnw ar gyfer gwella gwasanaethau bysys gwledig. Mae cymunedau gwledig wedi dioddef ar ôl colli llawer o wasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn gwneud popeth y gall i gynnal cymunedau gwledig cynaliadwy. Felly croesawn ymrwymiad y Cynulliad i wario mwy ar drafndiaeth gyhoeddus a'r gydnabyddiaeth o'r angen i roi hwb i drafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

David Davies: Croesawaf yr holl sylwadau a wnaethpwyd gan lefarwyr blaenorol. Ar ymweliad diweddar â chwmni bysys, un broblem fawr a ddaeth i'r amlwg oedd bod nifer fach o bobl ifanc yn gwneud bywyd yn anodd i deithwyr eraill ar adegau. Mae llawer o gwmnïau bysys yn teimlo nad oes ganddynt bwerau digonol i ddelio â hynny.

Yn gyffredinol, mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi darpariaethau'r grant trafndiaeth wledig. Gŵyr y Gweinidog fod dadreoleiddio yn un o ganlyniadau anochel bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Ni ellir ei osgoi o dan delerau deddfwriaeth yr UE. Felly a allwn roi'r gorau i wneud sylwadau coeglyd am y Llywodraeth Geidwadol flaenorol, a wnaeth waith ardderchog wrth wella trafndiaeth

across the country? If the Minister has a problem with deregulation, she should address it to the European Union. Perhaps she should tell us her views on that.

Sue Essex: I do not know how David Davies can stand up and say that the previous Tory Government did an excellent job on public transport. As the public knows the truth, I will not discuss that. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I hoped that, as it is St David's Day, Members would show some spiritual intelligence.

Sue Essex: I would just settle for intelligence, Llywydd.

Janet Ryder voiced concerns that the rural transport grant would be lost. I refer her to the table in annex D of the special grant report. If you compare the sum that Gwynedd will receive with the sums for urban authorities, the formula seems to reflect rurality. However, I will look at the formula again. Janet's point about disability will also be picked up in the review of community transport.

Mick mentioned timetable books. Although I do not know whether any will be published, I do not see any reason why that should not happen. I will investigate that and report back to Mick. Overall, I hope that, given the extra money and the flexibility that this grant provides, there will be an expansion of local services.

ledled y wlad? Os nad yw'r Gweinidog yn cytuno â dadreoleiddio, dylai gyfleu hynny i'r Undeb Ewropeaidd. Efallai y dylai leisio ei barn ar hynny.

Sue Essex: Ni wn sut y gall David Davies sefyll a datgan bod y Llywodraeth Dorïaidd flaenorol wedi gwneud gwaith ardderchog ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gan fod y cyhoedd yn gwybod y gwir, ni thrafodaf hynny. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Yr oeddwn wedi gobeithio, gan ei bod yn Ddydd Gŵyl Dewi, y byddai'r Aelodau yn dangos rhywfaint o ddeallusrwydd ysbrydol.

Sue Essex: Byddwn yn fodlon ar ddeallusrwydd, Lywydd.

Lleisiodd Janet Ryder bryderon y byddem yn colli'r grant trafnidiaeth wledig. Fe'i cyfeiriaf at y tabl yn atodiad D yr adroddiad grant arbennig. Os cymharwch y swm y bydd Gwynedd yn ei dderbyn gyda'r symiau ar gyfer awdurdodau trefol, ymddengys fod y fformwla yn adlewyrchu natur wledig. Fodd bynnag, ailystyriaif y fformwla. Nodir pwynt Janet ynghylch anabledd hefyd yn yr adolygiad o drafnidiaeth gymunedol.

Soniodd Mick am lyfrau amserlenni. Er na wn a gaiff unrhyw lyfrau o'r fath eu cyhoeddi, ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai hyn ddigwydd. Ymchwiliaf i'r mater gan adrodd yn ôl i Mick. Ar y cyfan, gobeithiaf, o gofio'r arian ychwanegol a'r hyblygrwydd a geir yn sgîl y grant hwn, y caiff gwasanaethau lleol eu hehangu.

*Cynnig: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 40, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet

Davies, Jocelyn
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion adopted.*

Strategaeth NHS Cymru: Parhad The NHS Wales Strategy: Continued

Parhad o ddadl 13 Chwefror.
 Debate continued from 13 February.

Motion proposed:

Y cynnig a gynigiwyd:

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol

1. endorses 'Improving Health in Wales—A Plan for the NHS with Its Partners' (laid in the Table Office on 5 February 2001) and the actions it puts forward;

1. yn cymeradwyo 'Gwella Iechyd yng Nghymru—Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid' (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001), a'r camau y mae yn eu hargymell.

2. congratulates the partnership administration on a plan which is both bold and radical and which:

2. yn llongyfarch y weinyddiaeth bartneriaeth ar gynllun sydd yn feiddgar yn ogystal ag yn radical, ac sydd:

simplifies the administration of the health service in Wales and makes it easier to understand;

yn symleiddio'r modd y gweinyddir y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a'i wneud yn haws i'w ddeall;

makes a reality of a primary-led health service in Wales;

yn creu gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol;

<i>emphasises the role of preventative and public health measures in improving the health of the population;</i>	<i>yn pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, i wella iechyd y boblogaeth;</i>
<i>enhances the local planning and delivery of services;</i>	<i>yn gwella'r agwedd leol ar gynllunio a darparu gwasanaethau;</i>
<i>strengthens the democratic voice in the delivery and strategic planning of health services in Wales;</i>	<i>yn cryfhau'r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio'r gwasanaeth iechyd yn strategol yng Nghymru;</i>
<i>builds on essential partnerships with local government and others;</i>	<i>yn adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill;</i>
<i>provides record levels of resources for improving the health of the Welsh population;</i>	<i>yn darparu lefelau adnoddau uwch nag erioed er mwyn gwella iechyd poblogaeth Cymru;</i>
<i>values the contribution of staff at all levels;</i>	<i>yn gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel;</i>
<i>confirms the administration's commitment to tackling health inequalities;</i>	<i>yn cadarnhau ymroddiad y weinyddiaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd;</i>
<i>reaffirms the importance to the people of Wales of a health service which is of the highest quality and based on need and not ability to pay.</i>	<i>yn ailgadarnhau'r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar wasanaeth iechyd sydd o'r ansawdd uchaf, ac sydd wedi'i seilio ar angen yn hytrach na'r gallu i dalu.</i>
Amendment 1 proposed:	Gwelliant 1 a gynigiwyd:
Delete 'endorses' from clause one and replace with 'notes'.	Dileer 'cymeradwyo' o'r cymal cyntaf gan roi 'nodi' yn ei le.
Amendment 2 proposed:	Gwelliant 2 a gynigiwyd:
Delete all from '(laid in the Table Office on 5 February 2001)' and insert as new second clause:	Dileer popeth o '(a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001)' ac ychwaneger y canlynol fel ail gymal newydd:
<i>2. recognises that the success of radical leadership is to be seen in actions taken, as well as in commitment expressed, and therefore commits the partnership administration to:</i>	<i>2. yn cydnabod mai trwy'r camau a gymerir, yn ogystal â'r ymrwymiad a leisir, y mae mesur llwyddiant arweinyddiaeth radical, ac felly mae'n ymrwymo'r weinyddiaeth bartneriaeth i:</i>
<i>replacing the abolished health authorities with an all-Wales strategic body that will bring an end to the postcode lottery of service provision;</i>	<i> greu corff strategol Cymru-gyfan yn lle'r awdurdodau iechyd a fydd yn cael eu diddymu er mwyn rhoi diwedd ar y loteri cod post sydd yn bod ar hyn o bryd o ran darparu gwasanaethau;</i>
<i>further increasing the numbers of training places available for NHS staff and developing the 'all-Wales campus' model of medical undergraduate education;</i>	<i>cynyddu ymhellach nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael ar gyfer staff yr NHS a datblygu model 'campws Cymru-gyfan' ar gyfer addysgu israddedigion meddygaeth;</i>

<i>acknowledging the need to set coherent human resource targets in order to achieve long-term workforce planning;</i>	<i>cydnabod yr angen i bennu targedau cydlynol ym maes adnoddau dynol er mwyn sicrhau llwyddiant wrth gynllunio'r gweithlu yn y tymor hir;</i>
<i>re-evaluating the role of the private finance initiative;</i>	<i>ailwerthuso rôl y fenter cyllid preifat;</i>
<i>developing a coherent approach to reducing waiting times that does not rely on the imposition of targets alone but on increasing capacity in order to deliver improved patient care and further sets a public timescale for the introduction of a booking and prioritisation system across Wales.</i>	<i>datblygu dull cydlynol o weithredu wrth fynd ati i leihau amserau aros, nad yw'n dibynnu'n unig ar bennu targedau, ond ar gynyddu gallu er mwyn rhoi gofal gwell i gleifion, yn ogystal â phennu amserlen gyhoeddus ar gyfer cyflwyno system neilltuo lle a blaenoriaethu ar draws Cymru.</i>
<i>Welcomes any plan for the NHS that:</i>	<i>Yn croesawu unrhyw gynllun ar gyfer yr NHS sydd yn:</i>
<i>emphasises the role of preventative and public health measures in improving the health of the population;</i>	<i>pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, o ran gwella iechyd y boblogaeth;</i>
<i>enhances the local planning and delivery of services;</i>	<i>gwella'r agwedd leol ar gynllunio a darparu gwasanaethau;</i>
<i>strengthens the democratic voice in the delivery and strategic planning of health services in Wales;</i>	<i>cryfhau'r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio gwasanaethau iechyd yn strategol yng Nghymru;</i>
<i>builds on essential partnerships with local government and others;</i>	<i>adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill;</i>
<i>values the contribution of staff at all levels;</i>	<i>gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel;</i>
<i>reaffirms the importance to the people of Wales of a national health service which is of the highest quality and based on need and not ability to pay.</i>	<i>ail-gadarnhau'r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar wasanaeth iechyd gwladol sydd o'r ansawdd uchaf ac sydd wedi'i seilio ar angen yn hytrach na'r gallu i dalu.</i>
<i>Amendment 3 proposed:</i>	<i>Gwelliant 3 a gynigiwyd:</i>
<i>Delete all of the second clause and replace with:</i>	<i>Dileer yr ail gymal i gyd, gan roi'r canlynol yn ei le:</i>
<i>2. regrets that the Liberal Democrat/Labour administration has:</i>	<i>2. yn gresynu bod y weinyddiaeth Ddemocrataidd Ryddfrydol/Llafur wedi:</i>
<i>failed to set core targets for the recruitment of staff and the maximum length of waiting times;</i>	<i>methu â phennu targedau craidd ar gyfer recriwtio staff ac ar gyfer yr amserau hiraf y dylai cleifion aros;</i>
<i>ruled out the piloting of care trusts in Wales as permitted in the Health and Social Care</i>	<i>diystyru'r posibilrwydd o ragbrofi ymddiriedolaethau gofal yng Nghymru fel</i>

<i>Bill currently before Parliament;</i>	<i>sydd yn cael ei ganiatáu yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd;</i>
<i>decided to centralise operational control of NHS Cymru in the Minister's office.</i>	<i>penderfynu canoli'r gwaith o reoli NHS Cymru yn swyddfa'r Gweinidog.</i>
Amendment 4 proposed:	Gwelliant 4 a gynigiwyd:
Add as a third clause:	Ychwaneger fel trydydd cymal:
<i>3. commits the partnership administration to examine, in both Plenary and Committee debate, the consequences of extending free personal care as part of the care funding reforms planned as part of the partnership administration's strategy for older people discussed in the NHS plan.</i>	<i>3. ymrwymo'r weinyddiaeth bartneriaeth i ystyried, mewn dadleuon yn y cyfarfod llawn ac yn y pwyllgorau, ganlyniadau ymestyn gofal personol rhad ac am ddim fel rhan o'r newidiadau i'r dulliau o ariannu gofal y bwriedir eu cyflwyno fel rhan o'r strategaeth ar gyfer yr henoed a amlinellir gan y weinyddiaeth bartneriaeth yng nghynllun yr NHS.</i>
Amendment 5 proposed:	Gwelliant 5 a gynigiwyd:
Add a new third clause:	Ychwaneger fel trydydd cymal newydd:
<i>3. notes that when health authorities are abolished the statutory basis for local health groups (LHGs) disappears and thus recommends that LHGs be reconstituted under Part I of the Health Act 1999.</i>	<i>3. yn nodi y bydd y sail statudol ar gyfer grwpiau iechyd lleol yn diflannu pan ddiwydd ym yr awdurdodau iechyd ac yn argymhell felly bod y grwpiau iechyd lleol yn cael eu hail gyfansoddi o dan Ran I Deddf Iechyd 1999.</i>
Amendment 6 proposed:	Gwelliant 6 a gynigiwyd:
At the end of motion add:	Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:
<i>After the abolition of health authorities, any health authority powers not transferred to local health groups be vested in an all-Wales arms length body called Wellbeing Wales which will:</i>	<i>Ar ôl diddymu'r Awdurdodau Iechyd, yn breinio unrhyw bwerau sydd gan yr Awdurdodau Iechyd nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i grwpiau iechyd lleol mewn corff hyd braich Cymru-gyfan, o'r enw Lles Cymru, a fydd yn:</i>
<i>implement the strategic decisions taken by the National Assembly to promote the health and wellbeing of the people of Wales;</i>	<i>gweithredu'r penderfyniadau strategol sydd yn cael eu cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol i hybu iechyd a lles pobl Cymru;</i>
<i>remove politicians from the operational control of the NHS, and;</i>	<i>sicrhau nad yw gwleidyddion yn cael rhan yn y gwaith o reoli'r NHS, ac;</i>
<i>on the advice of an independent panel, recommend any major health service reorganisations that may be necessary.</i>	<i>ar ôl cael cyngor panel annibynnol, argymhell unrhyw ad-drefnu mawr ar y gwasanaeth iechyd a fydd, o bosibl, yn angenrheidiol.</i>

Rod Richards: Point of order. I seek your guidance on the rights and role of Assembly Members who are not members of the Executive. On 13 February, the vast majority of Members voted to postpone the debate because the issue was such an important one and Members of all parties had concerns about it. On 14 February, the Minister for Health and Social Services announced that the strategy would go ahead in any event. Is this not a complete disregard of Assembly Members who are not part of the Executive? Does it not undermine the *raison d'être* of devolution, because we have Cabinet government?

The Presiding Officer: That is not a matter directly for me. My role is to ensure that matters are brought to the Assembly for debate at all times. When those debates are not concluded in a timely manner because of pressure of business, that places a difficulty upon us. However, Cabinet government is a matter for the Cabinet. If the Cabinet chooses to make announcements outwith the Assembly or in the Health and Social Services Committee, which is part of the Assembly but not Plenary, it is entitled to do so.

11:05 a.m.

Peter Law: I declare an interest as some members of my family are involved in nursing and the social care services. I welcome the policy statement made by Jane Hutt. As a Labour Minister, she is aware of the needs of the national health service and the people of Wales. 'Improving Health in Wales' is a positive document, which gives us the big picture. There is a big headline here because it means about £1 billion additional expenditure over the next three years. That is a real attempt to get to grips with the problems of the national health service.

The NHS is an eternal argument and a political football. However, the Minister for Health and Social Services is committed to getting to grips with the problems of the NHS and she has demonstrated that since she started in office. I welcome the content of the document. For instance, the £175 million for health authorities for their unified allocation

Rod Richards: Pwynt o drefn. Gofynnaf am arweiniad gennych ar hawliau a rôl Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth. Ar 13 Chwefror, pleidleisiodd mwyafrif helaeth yr Aelodau i ohirio'r ddadl gan fod y mater mor bwysig a bod gan Aelodau o bob plaid bryderon yn ei gylch. Ar 14 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r strategaeth yn mynd rhagddi beth bynnag. Onid yw hyn yn diystyru yn llwyr Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn rhan o'r Weithrediaeth? Onid yw'n tanseilio *raison d'être* datganoli, oherwydd bod gennym lywodraeth Cabinet?

Y Llywydd: Nid yw hynny'n fater uniongyrchol ar fy nghyfer i. Fy rôl i yw sicrhau y cyflwynir materion i'r Cynulliad i'w dadlau bob amser. Pan na ddaw'r dadleuon hynny i ben ar amser oherwydd pwysau busnes, mae hynny'n creu anhawster. Fodd bynnag, mater i'r Cabinet yw llywodraeth Cabinet. Os dewisa'r Cabinet wneud cyhoeddiadau y tu allan i'r Cynulliad neu yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd yn rhan o'r Cynulliad ond nid mewn Cyfarfod Llawn, mae'r hawl ganddo i wneud hynny.

Peter Law: Datganaf fuddiant gan fod rhai aelodau o'm teulu yn ymwneud â nyrsio a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Croesawaf y datganiad polisi a wnaethpwyd gan Jane Hutt. Fel Gweinidog Llafur, mae'n ymwybodol o anghenion y gwasanaeth iechyd gwladol a phobl Cymru. Mae 'Gwella Iechyd yng Nghymru' yn ddogfen bositif, sydd yn rhoi'r darlun cyfan inni. Dyna bennawd mawr gan ei fod yn golygu gwario tua £1 biliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf. Mae hynny'n ymdrech wirioneddol i fynd i'r afael â phroblemau'r gwasanaeth iechyd gwladol.

Mae'r NHS yn ddadl dragywydd ac yn gêm wleidyddol. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymrwymedig i fynd i'r afael â phroblemau'r NHS ac wedi dangos hynny ers iddi ddechrau yn ei swydd. Croesawaf gynnwys y ddogfen. Er enghraifft, soniwyd am y £175 miliwn i awdurdodau iechyd ar

was mentioned, which includes £35 million for emergency pressures and dealing with waiting lists—we will all support that—and £27 million for key priorities as identified by the Health and Social Services Committee. It shows that the Minister is listening continually to the Committee's input. It also gives us an opportunity to examine other issues that perhaps have been hidden in the shadows.

Coming from a place like Blaenau Gwent, I obviously welcome the health inequalities fund, which means £4 million being made available for the next year. That is a definite move forward. We must use the fund to concentrate on social deprivation. The additional £1 million to expand the dental initiative scheme in deprived areas is important. We benefit from it in places like Blaenau Gwent. Audiology services will receive an additional £1.5 million. Some of us attended a good presentation by the Royal National Institute for the Deaf yesterday. Its good work is recognised. A further £1 million will be invested in the diabetes national framework and up to £1 million to develop liquid cytology services over the next three years. These are all important and make a difference as far as our patients in Wales are concerned—

David Davies: The Member has given us a wonderful list of the extra money that the Government is investing in different services, but what are the real amounts when you take away the effect of inflation? What is his opinion of the £16 billion that is sitting in a war chest in the Treasury so that Gordon Brown can give away a few more baubles to win the next general election?

Peter Law: I am sure that Gordon Brown will comment on that and that you will hear much more about the £16 billion in the near future. However, our Minister is concentrating on Wales's needs. That is her job and that is what this Assembly must do. Before I was interrupted I was about to mention the £1 million allocated to improve sexual health, which is important in Wales. We must get to grips with these issues. There is an increasing problem with sexual health

gyfer eu dyraniad unedig, sydd yn cynnwys £35 miliwn ar gyfer pwysau brys ac ymdrin â rhestrau aros—bydd pob un ohonom yn cefnogi hynny—a £27 miliwn ar gyfer blaenoriaethau allweddol fel y nodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dengys fod y Gweinidog yn gwrando'n barhaus ar fewnbwn y Pwyllgor. Rhydd hefyd gyfle inni archwilio materion eraill a fu'n cuddio yn y cysgodion o bosibl.

Gan fy mod yn hanu o Flaenau Gwent, yn amlwg croesawaf y gronfa anghydraddoldebau iechyd, sydd yn golygu y rhyddheir £4 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n gam pendant ymlaen. Rhaid inni ddefnyddio'r gronfa i ganolbwyntio ar amddifadedd cymdeithasol. Mae'r £1 filiwn ychwanegol i ehangu'r cynllun menter deintyddol mewn ardaloedd difreintiedig yn bwysig. Yr ydym yn elwa arno mewn ardaloedd fel Blaenau Gwent. Bydd gwasanaethau clywedeg yn derbyn £1.5 miliwn ychwanegol. Mynychodd rai ohonom gyflwyniad da gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar ddoe. Cydnabyddir ei waith da. Buddsoddir £1 filiwn bellach yn y fframwaith clefyd siwgr cenedlaethol a hyd at £1 filiwn i ddatblygu gwasanaethau cytoleg hylifol dros y tair blynedd nesaf. Mae pob un o'r rhain yn bwysig ac yn gwneud gwahaniaeth i gleifion Cymru—

David Davies: Mae'r Aelod wedi rhoi rhestr ardderchog inni o'r arian ychwanegol y mae'r Llywodraeth yn ei fuddsoddi mewn gwahanol wasanaethau, ond beth yw'r symiau gwirioneddol os tynnwch effaith chwyddiant? Beth yw ei farn am y £16 biliwn sydd yn eistedd mewn coffr rhyfel yn y Trysorlys fel y gall Gordon Brown gyflwyno ychydig yn rhagor o berlau i ennill yr etholiad cyffredinol nesaf?

Peter Law: Yr wyf yn siŵr y bydd Gordon Brown am roi ei sylwadau ar hynny ac y clywch lawer mwy am y £16 biliwn yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae ein Gweinidog yn canolbwyntio ar anghenion Cymru. Dyna ei gwaith a dyna y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei wneud. Cyn i rywun dorri ar fy nhraws, yr oeddwn ar fin sôn am y £1 filiwn a ddyrannwyd i wella iechyd rhywiol, sydd yn bwysig yng Nghymru. Rhaid inni fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r

from which we should not hide. A sum of £2 million has been allocated for welfare rights for workers through lottery funding, which is also important.

We have also seen the end of the divisive purchase/provider split. Community health councils will remain, and I am delighted about that. Health authorities are to be abolished. Their staff have worked reliably and supportively for many years and we must deal sensitively with their needs during the abolition. I pay tribute to all the dedicated health and social care workers throughout Wales who do so much for our patients and for the people of Wales. I recognise their efforts as does everyone in the Chamber.

The Minister will be responsible for running the health service and local health groups will have elected representatives. That is in contrast to the recent past. At last, after 10 years, we will return to having elected representatives. The Tories took them away. I was once an elected representative but I was taken away. The Tories stuffed the boards full of failed Tory electoral candidates. Now we are putting democracy back.

I look at the Conservatives here today and say to them that they ruined the NHS. It is too late for them. The ambulance is too late for the Tories as far as politics is concerned. They are proof of political life after death. They are led by a high priest, Nick, who emerges every day like a mummy from a tomb, followed by the Tory undead. They have been resuscitated by proportional representation. That is how they got here. They are completely bewildered. We are rebuilding what they destroyed. We will not forget what they did to the NHS. I could go on, but I will instead finish by saying that this strategy focuses on people and their needs, which include the provision of more resources, more accountability and less bureaucracy. This is a good plan for the people of Wales.

Huw Lewis: I am proud to be taking part in

broblem iechyd rhywiol ar gynnydd ac ni ddylem anwybyddu hyn. Dyrannwyd swm o £2 filiwn ar gyfer hawliau lles i weithwyr drwy arian y loteri, sydd hefyd yn bwysig.

Gwelwyd hefyd ddiwedd y rhaniad rhwng y prynwr/darparwr. Erys cynghorau iechyd cymuned, ac yr wyf yn falch iawn o hynny. Diddymir awdurdodau iechyd. Mae eu staff wedi gweithio'n ddibynadwy ac wedi bod yn gefnogol ers blyneddodau lawer a rhaid inni ddelio yn sensitif â'u hanghenion yn ystod y broses ddiddymu. Talaf deyrnged i'r holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymroddedig ledled Cymru sydd yn gwneud cymaint i'n cleifion ac i bobl Cymru. Cydnabyddaf eu hymdrechion fel y gwna pawb yn y Siambr.

Bydd y Gweinidog yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth iechyd a bydd cynrychiolwyr etholedig ar grwpiau iechyd lleol. Mae hynny'n wahanol i'r gorffennol diweddar. O'r diwedd, ar ôl 10 mlynedd, dychwelwn at gynrychiolwyr etholedig. Cafwyd gwared arnynt o dan lywodraeth y Torïaid. Yr oeddwn innau unwaith yn gynrychiolydd etholedig ond cafwyd gwared arnaf. Sicrhaodd y Torïaid fod y byrddau yn llawn ymgeiswyr etholiadol Torïaidd a oedd wedi methu. Yn awr yr ydym yn dychwelyd at ddemocratiaeth.

Edrychaf ar y Ceidwadwyr sydd yma heddiw a dywedaf wrthynt eu bod wedi difetha'r NHS. Mae'n rhy hwyr iddynt. Mae'r ambiwlans yn rhy hwyr i'r Torïaid o ran gwleidyddiaeth. Maent yn brawf o fywyd gwleidyddol ar ôl marwolaeth. Fe'u harweinir gan uchel esgob, Nick, a ddaw allan bob dydd fel mymi o fedd, a'r Torïaid difarw yn ei ddilyn. Fe'u dadebrwyd drwy gynrychiolaeth gyfrannol. Dyna sut y cyraeddasant yma. Maent wedi drysu'n llwyr. Yr ydym yn ailadeiladu'r hyn a ddinistriwyd ganddynt. Nid anghofiwn am yr hyn a wnaethant i'r NHS. Gallwn fynd ymlaen, ond yn hytrach, gorffennaf drwy nodi fod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar bobl a'u hanghenion, sydd yn cynnwys darparu mwy o adnoddau, mwy o atebolrwydd a llai o fiwrocratiaeth. Mae hwn yn gynllun da i bobl Cymru.

Huw Lewis: Yr wyf yn falch o gymryd rhan

this debate for reasons that Peter Law has already mentioned. I am proud that a Labour-led Government of Wales has made a historic commitment to a step change in resourcing the NHS in Wales, which includes an extra £1 billion pounds over three years and a 28 per cent increase in investment in the people's NHS. I will let that historic figure of 28 per cent sink in for a moment. No matter what opposition parties say, they could not match that. The Tories are floating the idea of taking higher earners out of the NHS.

David Melding: We are committed to matching these increases, and I have been quite supportive of the Minister's efforts to get more resources into the NHS. That point is acknowledged. However, we need to address what we do with those resources and how we set future priorities to attract more investment.

Huw Lewis: I do not doubt David's sincerity, but I do not trust the party that he supports. I cannot understand how he can square his views with the tax cuts that William Hague promises the country. The Tories promise to take higher earners out of NHS provision. That means an end to access to the best services regardless of one's ability to pay. In other words, they would destroy the first principle of the NHS.

Plaid Cymru offers us an uncostered fantasy world. Until it can resolve the £5 billion funding gap between what we spend and what we would raise in taxes in a self-governing Wales, it cannot say anything credible about a massive public service like the NHS. By 2003, that funding gap will have risen to around £8 billion, so that is another £3 billion for Phil Williams to find in his fantasy politics.

This strategy is a 10-year plan for the health service, which has much to commend it. The abolition of health authorities has been widely welcomed—

Pauline Jarman: Do you share my concerns

yn y ddadl hon am resymau a grybwyllwyd eisoes gan Peter Law. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cymru o dan arweiniad y Blaid Lafur wedi gwneud ymrwymiad hanesyddol i newid yn sylweddol y ffordd y darperir adnoddau i'r NHS yng Nghymru, sydd yn cynnwys £1 biliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf a chynnydd o 28 y cant wrth fuddsoddi yn NHS y bobl. Ystyriwch y ffigur hanesyddol hwnnw o 28 y cant am funud. Waeth beth a ddywed y gwrthbleidiau, ni allent wneud crystal. Mae'r Toriaid yn chwarae â'r syniad o sicrhau nad yw enillwyr uchel yn gymwys i ddefnyddio'r NHS.

David Melding: Yr ydym yn ymrwymedig i ddarparu cynnydd cyfatebol, a bûm yn eithaf cefnogol o ymdrechion y Gweinidog i sicrhau mwy o adnoddau i'r NHS. Cydnabyddir hynny. Fodd bynnag, mae angen inni ymdrin â beth y dylid ei wneud â'r adnoddau hynny a'r ffordd y dylid gosod blaenoriaethau yn y dyfodol er mwyn denu mwy o fuddsoddiad.

Huw Lewis: Nid wyf yn amau didwylledd David, ond ni allaf ymddiried yn y blaid a gefnogir ganddo. Ni allaf ddeall sut y gall gysoni ei safbwyntiau â'r toriadau treth y mae William Hague yn eu haddo i'r wlad. Mae'r Toriaid yn addo sicrhau na fydd enillwyr cyflog uchel yn gymwys i ddefnyddio'r NHS. Golyga hynny ddiwedd ar fynediad i'r gwasanaethau gorau waeth beth fydd gallu rhywun i dalu. Hynny yw, byddent yn dinistrio prif egwyddor yr NHS.

Cynigia Plaid Cymru fyd o ffantasi heb ei gostio inni. Nes iddi lwyddo i ddatrys y bwlch ariannu o £5 biliwn rhwng yr hyn a wariwn a'r hyn y byddem yn ei godi mewn trethi mewn Cymru hunan-lywodraethol, ni all ddatgan unrhyw beth credadwy ynghylch gwasanaeth cyhoeddus enfawr megis yr NHS. Erbyn 2003, bydd y bwlch ariannu hwnnw wedi cynyddu i tua £8 biliwn, sydd yn £3 biliwn arall i Phil Williams ddod o hyd iddo yn ei wleidyddiaeth ffantasi.

Cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gwasanaeth ieched yw'r strategaeth, ac mae llawer i'w gymeradwyo o'i fewn. Croesawyd y broses o ddiddymu'r awdurdodau ieched yn gyffredinol—

Pauline Jarman: A rannwch fy mhryderon

about the threat to remove the special care baby unit from Prince Charles Hospital in Merthyr Tydfil to the University Hospital of Wales or the Royal Glamorgan Hospital, which would not only threaten the lives of young babies, but also the entire maternity provision in the Cynon Valley and Merthyr Tydfil?

Huw Lewis: I am glad that Pauline has put that on the record. I am co-ordinating a petition to protest against proposals to close the special care baby unit at Prince Charles Hospital.

The abolition of health authorities, which has been widely welcomed, will lead to a more strategic distribution of resources that will clarify servicing needs in Wales. The retention of community health councils is welcome. There was tremendous pressure in Wales to keep them, showing how much they are valued. I am sure that Jane Hutt agrees that we must continue to consider patient advocacy elements of the CHCs. I also make a small plea for a change of name. The public does not know what CHCs are. Journalists routinely call them local health watchdogs; why can we not do the same?

Jane will know that I am concerned about some aspects of the strategy and I must put them on record. I hope that we will never again produce a document that is written in such inaccessible jargon. If we are discussing the people's NHS, we need a strategy that the people will understand. However, my main concern is the relative lack of clear targets. I am not alone in thinking that. The Royal College of Nursing and the Welsh Institute for Health and Social Care have echoed this concern in the last few days.

Targets tie policy to implementation and enable us to monitor our progress. Comparisons with the English plan made in this Chamber are valid. The NHS is a British-wide service and we have a duty in Wales to deliver a service that is equal or better than that in England, Scotland or Northern Ireland. I remain concerned about the quality of targets that we have set out for the provision of cancer services in Wales, particularly on

am y bygythiad i symud yr uned babanod gofal arbennig o Ysbyty Tywysog Cymru ym Merthyr Tudful i Ysbyty Athrofaol Cymru neu Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a fyddai nid yn unig yn bygwth bywydau babanod ifanc, ond hefyd pob un o'r unedau mamolaeth yng Nghwm Cynon a Merthyr Tudful?

Huw Lewis: Yr wyf yn falch bod Pauline wedi cofnodi hynny. Yr wyf yn cydlynu deiseb i brotestio yn erbyn cynigion i gau'r uned babanod gofal arbennig yn Ysbyty Tywysog Cymru.

Bydd diddymu awdurdodau iechyd, y rhoddwyd croeso helaeth iddo, yn arwain at ddsbarthu adnoddau yn fwy strategol a fydd yn egluro anghenion gwasanaethu yng Nghymru. Croesewir y bwriad o gadw cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru. Yr oedd pwysau aruthrol yng Nghymru i'w cadw, gan ddangos cymaint y'u gwerthfawrogir. Yr wyf yn siŵr bod Jane Hutt yn cytuno bod yn rhaid inni barhau i ystyried elfennau eiriolaeth cleifion y CIC. Erfyniaf hefyd iddynt newid eu henw. Ni ŵyr y cyhoedd beth yw CIC. Fel mater o arfer mae newyddiadurwyr yn eu galw'n gyrff gwarchod iechyd lleol; pam na allem wneud yr un peth?

Bydd Jane yn ymwybodol fy mod yn pryderu am rai agweddau ar y strategaeth a rhaid imi eu cofnodi. Gobeithiaf na fyddwn fyth eto yn cynhyrchu dogfen wedi'i hysgrifennu mewn jargon mor annealladwy. Wrth drafod NHS y bobl, mae angen strategaeth arnom y bydd y bobl yn ei deall. Fodd bynnag, fy mhrif bryder yw diffyg cymharol targedau clir. A gwn fod eraill o'r un farn. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol a Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi adleisio'r pryder hwn yn ystod y diwrnodau diwethaf.

Mae targedau yn clymu polisi wrth weithredu ac yn ein galluogi i fonitro ein cynnydd. Mae'r cymariaethau a wnaethpwyd â chynllun Lloegr yn y Siambr hon yn ddilys. Mae'r NHS yn wasanaeth sydd yn cwmpasu Prydain gyfan ac mae'n ddyletswydd arnom yng Nghymru i gyflwyno gwasanaeth sydd yn gyfwerth neu'n well na'r hyn a geir yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Pryderaf o hyd am ansawdd y targedau a

the length of waiting time between diagnosis and treatment. I am concerned that patients in England have a clear commitment to a timetable for a universal booked appointments system, whereas patients in Wales do not. However, my main concern relates to the timetable for the measures that will be introduced to tackle health inequalities, which are stark in Wales. One third of my constituents will die prematurely compared to the Welsh average. I demand that we act on that before 2003.

11:15 a.m.

I make a plea to Jane for a more detailed route map for our journey to creating a modern NHS. Let us use this strategy as a statement of intent and develop a parallel set of clear targets. This is a good strategy, but we need tactics to deliver it. We must consider the nuts and bolts issues as we move forwards. Having said that, the fact remains that Jane will preside over an historic reaffirmation of Labour's commitment to the NHS; the Tories would never honour it and the nationalists could never pay for it, which is why I will vote for today's strategy with pride.

<i>3. commits the partnership administration to examine, in both Plenary and Committee debate, the consequences of extending free personal care as part of the care funding reforms planned as part of the partnership administration's strategy for older people discussed in the NHS plan.</i>	<i>3. ymrwymo'r weinyddiaeth bartneriaeth i ystyried, mewn dadleuon yn y cyfarfod llawn ac yn y pwyllgorau, ganlyniadau ymestyn gofal personol rhad ac am ddim fel rhan o'r newidiadau i'r dulliau o ariannu gofal y bwriedir eu cyflwyno fel rhan o'r strategaeth ar gyfer yr henoed a amlinellir gan y weinyddiaeth bartneriaeth yng nghynllun yr NHS.</i>

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 27, Ymatal 11, Yn erbyn 7.
Amended motion: For 27, Abstain 11, Against 7.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod

Davies, Jocelyn
 Hancock, Brian
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
 Amended motion adopted.*

Dadl Fer Short Debate

Llywodraethu Cymru The Governance of Wales

Helen Mary Jones: I feel honoured and lucky to have the opportunity to present the short debate, not only on our national day, but also on the occasion of the first visit to our National Assembly by a head of state. I have invited Nick Bourne to make a minute's contribution at the end of my speech, and if time allows, I will also make time for John Griffiths. I anticipate that I shall be able to do that.

I am sure that all of us remember the huge sense of honour and optimism that filled this Chamber when we first met almost two years ago. I will use this debate to ask whether that sense of optimism was justified. Is the governance of Wales better now than it was before the National Assembly was established? I will do this from a personal perspective and attempt to give some answers. Is Wales governed better now than it was before the Assembly? For me, the answer is 'yes', but that does not necessarily say a great deal. Even if we draw a veil over the bad old days of the Tory viceroys, we are left with a system that was dependent on Ministers' abilities and where decision-making was opaque. The establishment of the National Assembly has revolutionised Welsh politics at a national level. There are now 60 politicians to make and challenge decisions and to scrutinise outcomes. The system is far more open. For example, the Assembly's Economic Development Committee opened the can of worms of European funding for Wales and exposed the grubby Treasury practices of clawback. That exposure led directly to a much enhanced, though still far

Helen Mary Jones: Teimlaf yn ffodus ac fe'i hystyriaf hi'n ffrainc o gael y cyfle i gyflwyno'r ddadl fer, nid yn unig ar ŵyl ein nawddsant, ond hefyd ar achlysur yr ymweliad cyntaf gan bennaeth gwladwriaeth â'n Cynulliad Cenedlaethol. Gwahoddais Nick Bourne i wneud cyfraniad o funud ar ddiwedd fy araith, ac os caniatâ amser, neilltuaf amser hefyd ar gyfer John Griffiths. Rhagwelaf y gallaf wneud hynny.

Yr wyf yn siŵr bod pob un ohonom yn cofio'r ymdeimlad mawr o anrhydedd ac optimistiaeth a lenwodd y Siambr hon pan gyfarfuom am y tro cyntaf bron ddwy flynedd yn ôl. Defnyddiaf y ddadl hon i ofyn a oedd cyfiawnhad dros yr ymdeimlad hwnnw o optimistiaeth. A yw'r dull o lywodraethu Cymru yn well yn awr nag yr oedd cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol? Ystyriaf hyn o safbwynt personol a cheisiaf roi rhai atebion. A yw Cymru yn cael ei llywodraethu'n well yn awr nag yr oedd cyn y Cynulliad? I mi, yr ateb yw 'ydyw', ond nid yw hynny o reidrwydd yn dweud llawer. Hyd yn oed os dynnwn len dros hen ddyddiau drwg y llywodraethwyr Toriaidd, fe'n gadewir â system a oedd yn ddibynnol ar allu Gweinidogion a lle yr oedd y broses o wneud penderfyniadau yn aneglur. Mae sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi chwyldroi gwleidyddiaeth Cymru ar lefel genedlaethol. Bellach mae 60 o wleidyddion ar gael i wneud a herio penderfyniadau ac archwilio canlyniadau. Mae'r system yn llawer mwy agored. Er enghraifft, datgelodd Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad broblemau posibl arian Ewrop i Gymru gan

from adequate, financial deal for Wales in the last comprehensive spending review. That justifies the National Assembly's existence.

We have achieved broad cross-party support and often consensus on important issues and on approaches to government. We have enthusiastically embraced the Assembly's statutory duties to promote equality and sustainable development and have placed ending poverty at the top of our agenda. There have been tangible achievements, such as the new structure for post-16 education and training. There can be no doubt that the National Assembly has, at the very least, demonstrated that Wales has a distinctive political culture that is, on the whole, to the left of the London centre right consensus. Yet, time and again, Assembly decisions are overturned or left on the table and the Assembly's will is thwarted because this institution lacks the power to turn our shared aspirations for our nation into reality.

To take a simple example, a year ago, this Assembly—unanimously, if I remember correctly—endorsed a proposal to make St David's day a national holiday in Wales. A year later, we are all at work on our national day. I have no doubt that the administration has made representations to Westminster on this, and in all honesty, one would hardly expect the Cabinet to give the issue top priority, given everything else that Wales has faced this year. However, the point is that the Assembly lacks the power to grant the people of Wales a measure as simple as an extra day's holiday.

Another example is the Children's Commissioner for Wales. Peter Clarke takes up his post today and I have no doubt that history will look back on the whole process of appointing and developing the commissioner's role as one of this Assembly's main achievements in its first term. It is a major achievement not only because of the outcome, but because of the process used to achieve it. We had well-

ddatguddio arferion adfachu brwnt y Trysorlys. Arweiniodd y datguddio hwnnw at fargen ariannol well o lawer i Gymru, er nad digonol o bell ffordd yn yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o wariant. Mae hynny'n cyfiawnhau bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

Cawsom gefnogaeth eang trawsbleidiol a chonsensws yn aml ar faterion pwysig ac ar ddulliau llywodraethu. Croesawsom yn frwdfrydig ddyletswyddau statudol y Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy gan osod dileu tlodi ar frig ein hagenda. Bu cyflawniadau diriaethol, fel y strwythur newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn ddiaw mae'r Cynulliad Cenedlaethol, o leiaf, wedi dangos bod gan Gymru ddiwylliant gwleidyddol penodol sydd, ar y cyfan, i'r chwith o'r consensws adain dde-ganol a welir yn Llundain. Ac eto, dro ar ôl tro, caiff penderfyniadau'r Cynulliad eu gwyrddroi neu eu gadael ar y bwrdd a rhwystrir ewyllys y Cynulliad gan nad oes gan y sefydliad hwn y pŵer i wireddu ein dyheadau a rennir ar gyfer ein cenedl.

A chymryd enghraifft syml, flwyddyn yn ôl, cymeradwyodd y Cynulliad hwn—yn unfrydol, os cofiaf yn iawn—gynnig i wneud dydd Gŵyl Dewi, yn ŵyl genedlaethol yng Nghymru. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae pob un ohonom yn y gwaith ar ŵyl ein nawddsant. Yr wyf yn siŵr bod y weinyddiaeth wedi gwneud sylwadau i San Steffan ynglŷn â hyn, ac a bod yn onest, o'r braidd y byddai unrhyw un yn disgwyl i'r Cabinet roi'r flaenoriaeth uchaf i'r mater hwn, o gofio popeth arall a wynebodd Cymru eleni. Fodd bynnag, y gwir yw nad oes gan y Cynulliad y pŵer i ganiatáu mesur mor syml â diwrnod ychwanegol o wyliau i bobl Cymru.

Enghraifft arall yw Comisiynydd Plant Cymru. Mae Peter Clarke yn dechrau ar ei swydd newydd heddiw ac nid oes unrhyw amheuaeth gennyf, pan edrychir yn ôl, y bydd pobl yn ystyried y broses gyfan o benodi a datblygu rôl y comisiynydd fel un o brif gyflawniadau'r Cynulliad hwn yn ei dymor cyntaf. Mae'n gyflawniad mawr nid yn unig oherwydd y canlyniad ond oherwydd y broses a ddefnyddiwyd i'w gyflawni.

informed Committee debates, wide, open consultation, and developed cross-party consensus and the active participation of children and young people throughout. Vitally, we also had a Minister committed to and respectful of this open process. We then had a unanimous Assembly decision. That was a real example of a new kind of politics. It was not cosy or chummy and it was challenging at times. It was creative and had an exciting outcome that has engaged the imagination of the people of Wales and the respect of nations beyond our borders.

However, history will also show the Assembly's vision for the Children's Commissioner cramped and limited by the need to go cap-in-hand to Westminster to give the Commissioner the power that we all believe he needs. I will not rehearse the legislative history let alone intrude on the private grief of Conservative colleagues. That would be unkind. Of course, we still hope the current Bill will be improved as it takes its course, but it looks as if, after all the work that has been achieved, the Commissioner will still lack any power in relation to non-devolved issues, for example, youth justice. He will have no right to protect children from Wales who receive services in England because those services are unavailable at home. He may even lack basic powers such as the right to enter institutions. How can it be right that after all the work that has been done not only in this Assembly, but by the people of Wales to develop the Commissioner's role, that we do not have the power to give the Commissioner real teeth?

11:45 a.m.

I could cite other examples such as the Assembly's lack of power in relation to rail transport. Even the London Assembly has more. There is also the apparent contempt with which some Whitehall departments have treated Assembly Ministers, issuing England and Wales statements without so much as a by your leave or an if you please. Then there was the census debacle. Powers on a par with

Cawsom ddadleuon tra hyddysg yn y Pwyllgor, ymgynghori eang, agored gan ddatblygu consensws trawsbleidiol a chyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc drwy gydol y broses. Yn holl bwysig, cawsom Weinidog a oedd wedi ymrwymo i'r broses agored hon ac yn llawn parch ohoni. Yna cawsom benderfyniad unfrydol gan y Cynulliad. Yr oedd honno'n enghraifft wirioneddol o fath newydd o wleidyddiaeth. Nid oedd yn gysurus nac yn agos-atoch ac yr oedd yn heriol ar adegau. Yr oedd yn greadigol ac yr oedd iddi ganlyniad cyffrous sydd wedi dal dychymyg pobl Cymru ac ennyn parch gwledydd y tu hwnt i'n ffiniau.

Fodd bynnag, dengys hanes hefyd weledigaeth y Cynulliad ar gyfer y Comisiynydd Plant fel un sydd wedi ei chyfyngu gan yr angen i fynd â'ch cap yn eich llaw i San Steffan i roi'r pŵer i'r Comisiynydd y cred pob un ohonom sydd ei angen arno. Nid ailadroddaf yr hanes deddfwriaethol heb sôn am darfu ar alar preifat fy nghyd-Aelodau Ceidwadol. Byddai'n hynny'n angharedig. Wrth gwrs, gobeithiwn o hyd y caiff y Mesur cyfredol ei wella yn ystod ei hynt, ond ymddengys, ar ôl yr holl waith a gyflawnwyd, na fydd gan y Comisiynydd unrhyw bŵer o hyd mewn perthynas â materion annatganoledig, er enghraifft, cyfiawnder i'r ifanc. Ni fydd ganddo'r hawl i ddiogelu plant o Gymru sydd yn derbyn gwasanaethau yn Lloegr gan nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael gartref. Efallai na fydd ganddo bwerau sylfaenol hyd yn oed, fel yr hawl i fynd i mewn i sefydliadau. Sut y gall fod yn iawn, ar ôl yr holl waith a wnaethpwyd nid yn unig yn y Cynulliad hwn, ond gan bobl Cymru i ddatblygu rôl y Comisiynydd, nad yw'r pŵer gennym i roi nerth gwirioneddol i'r Comisiynydd.

Gallwn roi enghreifftiau eraill, megis diffyg pŵer y Cynulliad mewn perthynas â chludiant ar y rheilffyrdd. Mae gan hyd yn oed Gynulliad Llundain fwy o bŵer. Hefyd mae'r ffordd ddirmygus, yn ôl pob tebyg, y cafodd Gweinidogion y Cynulliad eu trin gan rai o adrannau Whitehall, gan gyhoeddi datganiadau ar gyfer Cymru a Lloegr, heb ofyn caniatâd na dweud os gwelwch yn dda.

the Scottish Parliament would have enabled this Assembly to deal properly with many of these issues. For other matters, such as the scandal of miners' compensation and the disastrous macro-economic policy that is devastating Welsh manufacturing and agriculture, only full national status would suffice.

At present, we must live with a confused devolution settlement, which I submit is unsustainable. There are those who believe that the Assembly's powers have yet to be used to the full. I would not argue with that. There is no doubt that more could be done within the present settlement. There is a question of political will and administrative ability, but there is also a question of authority. For example, the Assembly was to have triggered a 'bonfire of the Quangos'. We have seen little more than a damp squib so far, though in fairness, the forthcoming abolition of the health authorities will help to stoke the flames a little. However, most pre-Assembly public bodies still exist and many of them seem to be going their own sweet—or should I say—sour way? For example, I see little evidence as yet of the Welsh Development Agency transforming its policies and practices in line with the Assembly's stated priorities in relation to equality and sustainability. Why not?

Let us consider the vital relationship between the National Assembly and local government. There are authorities in Wales that are embracing the new political agenda. Others are floundering in the face of change. There are others who have set their faces against anything beyond minimal engagement with the Assembly in the hope, perhaps, that if they ignore it for long enough it will go away. So many of the vital services, such as housing, education, social services, for which the Assembly is responsible, rely on local government for delivery. At some point, those authorities that will not play ball will have to be taken on. However, so far, the administration seems reluctant to do so. Why? Political will may be lacking to control the quangos and challenge local authorities. There may be administrative weakness. However, it could also be that a lack of real

Yna bu llanastr y cyfrifiad. Byddai pwerau cystal â rhai Senedd yr Alban wedi galluogi'r Cynulliad hwn i ddelio'n gywir â llawer o'r materion hyn. Ar gyfer materion eraill, fel sgandal iawndal y glowyr a'r polisi macro-economaidd trychinebus sydd yn dinistrio'r sector gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth yng Nghymru, dim ond statws cenedlaethol llawn fyddai'n gwneud y tro.

Ar hyn o bryd, rhaid inni fyw gyda setliad datganoli dryslyd, yr awgrymaf fod hynny'n anghynaliadwy. Mae pobl sydd yn credu bod pwerau'r Cynulliad eto i'w defnyddio i'r eithaf. Ni fyddwn yn anghytuno. Yn ddiau, gellid gwneud mwy o fewn y setliad presennol. Mae mater ewyllys gwleidyddol a gallu gweinyddol, ond mae mater awdurdod hefyd. Er enghraifft, y bwriad oedd i'r Cynulliad gychwyn 'coelcerth y Cwagos'. Ni welsom fawr ddim mwy na matsien wleb hyd yn hyn, er, a bod yn deg, bydd diddymu'r awdurdodau iechyd cyn bo hir yn helpu i fwydo'r tân ychydig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus a fodolai cyn y Cynulliad yn bodoli o hyd ac ymddengys bod llawer ohonynt yn mynd eu ffordd felys—neu a ddylwn i ddweud—chwerw eu hunain? Er enghraifft, prin yw'r dystiolaeth a welais hyd yn hyn o Awdurdod Datblygu Cymru yn trawsnewid ei bolisiau a'i arferion yn unol â blaenoriaethau datganedig y Cynulliad mewn perthynas â chydarddoldeb a chynnaladwyedd. Pam lai?

Gadewch inni ystyried y berthynas holl bwysig rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol. Mae awdurdodau yng Nghymru sydd yn croesawu'r agenda wleidyddol newydd. Mae eraill yn ymbalfalu yn wyneb newid. Mae eraill wedi gwrthod derbyn unrhyw beth y tu hwnt i'r cysylltiadau lleiaf â'r Cynulliad yn y gobraith, efallai, os anwybyddant ef am ddigon o amser y bydd yn diflannu. Mae cymaint o'r gwasanaethau hanfodol, fel tai, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, yn dibynnu ar lywodraeth leol i'w cyflawni. Ar ryw adeg, bydd yn rhaid herio'r awdurdodau hynny nad ydynt yn cydweithredu. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ymddengys fod y weinyddiaeth yn amharod i wneud hynny. Pam? Efallai nad oes ewyllys wleidyddol i reoli'r cwagos a herio awdurdodau lleol. Efallai bod gwendidau

power engenders a lack of confidence. It is hard to fully use the powers that this body has when those powers are so confused and inadequate. The fact that current powers are not fully used is no argument against further power, rather the reverse is true.

There are two constitutional positions that I fully understand. First, the position that opposed devolution and stood for the integrity of the British state. I totally repudiate that position, but at least it is comprehensible. Second is my position and that of my party, which seeks full national status for Wales in the European Union. Look at what Ireland has achieved economically, using a range of taxation measures, effective national strategic planning and European aid. I believe that Wales deserves and—if there are colleagues who wish to intervene, they are welcome to do so—

The Presiding Officer: Order. You know that the rules of the short debate do not permit intervention in the opening speech. However, interventions are welcome when the Minister responds.

Helen Mary Jones: I apologise.

The Presiding Officer: Do not encourage them.

Helen Mary Jones: I will take the Presiding Officer's word and not encourage you.

As I said, I believe that Wales deserves, and could achieve, no less than the other small nations of Europe. However, I do not understand the position of those who advocate and support devolution within the UK framework, but believe that the National Assembly for Wales needs less power than the Scottish Parliament. No one has been able to adequately explain to me the reasoning behind this. I understand the historical differences. I am a trained historian. However, this is about the future, not the past. Do these colleagues somehow believe that we lack the maturity, wisdom and intelligence as a people to deal with complex issues like primary legislation and a measure

gweinyddol. Fodd bynnag, efallai bod diffyg pŵer gwirioneddol yn achosi diffyg hyder. Mae'n anodd defnyddio'r pwerau hynny sydd gan y corff hwn i'r eithaf pan fo'r pwerau hynny mor ddryslyd ac mor annigonol. Nid yw'r ffaith na ddefnyddir y pwerau cyfredol i'r eithaf yn ddadl yn erbyn rhagor o bŵer, yn hytrach mae'r gwrthwyneb yn wir.

Mae dau safbwynt cyfansoddiadol a ddeallaf yn llwyr. Yn gyntaf, y safbwynt a wrthwynebodd datganoli ac a oedd o blaid integreidd y wladwriaeth Brydeinig. Ymwrthodaf â'r safbwynt hwnnw yn llwyr, ond o leiaf mae'n ddealladwy. Yr ail safbwynt yw un fy mhlaid sydd yn ceisio statws cenedlaethol llawn i Gymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Edrychwch ar yr hyn a gyflawnodd Iwerddon yn economaidd, gan ddefnyddio ystod o fesurau trethu, cynlluniau strategol cenedlaethol effeithiol a chymorth Ewropeaidd. Credaf fod Cymru yn haeddu ac—os oes cyd-Aelodau sydd am ymyrryd, mae croeso iddynt wneud hynny—

Y Llywydd: Trefn. Gwyddoch nad yw rheolau'r ddadl fer yn caniatáu ymyrryd yn yr araith agoriadol. Fodd bynnag, croesewir ymyriadau pan ymateba'r Gweinidog.

Helen Mary Jones: Ymddiheuraf.

Y Llywydd: Peidiwch â'u hannog.

Helen Mary Jones: Cymeraf air y Llywydd ac ni wnaf eich annog.

Fel y dywedais, credaf fod Cymru yn haeddu, ac y gallai gyflawni, yr un peth â gwledydd bychain eraill Ewrop. Fodd bynnag, ni ddeallaf safbwynt y rheini sydd yn cefnogi ac sydd yn dadlau dros ddatganoli o fewn fframwaith y DU, ond sydd yn credu bod angen llai o bŵer ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru na Senedd yr Alban. Nid oes unrhyw un wedi llwyddo i'm darbwylllo o'r rhesymu y tu ôl i hyn. Deallaf y gwahaniaethau hanesyddol. Yr wyf yn hanesydd o ran galwedigaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â'r dyfodol, nid â'r gorffennol. A yw'r cyd-Aelodau hyn yn credu rywffordd nad oes gennym yr aeddfedrwydd, y doethineb a'r deallusrwydd fel pobl i ddelio â

of fiscal freedom? Can it be that somewhere, deep down in the post-colonial psyche, they believe that Wales is less of a nation than Scotland? Here, on our national day in our National Assembly, I say, Presiding Officer, 'heaven forbid'.

In answer to my original question, 'Is the governance of Wales better than it was before 1999?', I believe that it is. It could be better still if this Assembly had more power and authority. The current constitutional position of these islands is an unjust, unsustainable hotch-potch of varying powers based on expediency rather than equity. No wonder the poor Whitehall mandarins lose the plot about who they should consult on what.

I will continue to work for our nation to achieve equal status with Eire and the other small nations of Europe, because I believe that that is the best and, ultimately, the only way to serve the interests of the people of Wales. I challenge those colleagues who believe that devolution within the UK as it stands can be made to work, to demand parity for Wales and Scotland now. Anything less is an insult to our nation, but worse, it simply does not work.

Nick Bourne: I am grateful to Helen Mary and congratulate her on getting the short debate on St David's day. Listening to her, I was reminded of Tony Benn, who is always incredibly plausible, but not at all logical when you analyse what was said. There is a good reason why we have less power, as you put it, than Scotland. It is the little matter of democracy. This is what people voted for.

You referred to the differences between the Welsh Conservative Party and the Conservative Party in Westminster. It is not a matter of private grief. We glory in the fact that we can take a different line in the National Assembly from the Westminster party. It is something that William Hague welcomes in the land of his father-in-law. If only other parties had the same freedom. It is not a problem for Plaid Cymru—The Party of Wales, because it has few members in

materion cymhleth fel deddfwriaeth sylfaenol a rhywfaint o ryddid cyllidol? Ai'r gwir yw y credant, rhywle ym mherfeddion yr ysbryd ôl-drefedigol, fod Cymru yn llai o genedl na'r Alban? Yma, ar ŵyl ein nawddsant yn ein Cynulliad Cenedlaethol, dywedaf, Lywydd, 'Duw a'n gwaredo'.

Mewn ateb i'm cwestiwn gwreiddiol 'A yw llywodraethu Cymru yn well nag yr oedd cyn 1999?', credaf ei fod. Gallai fod yn well fyth pe bai gan y Cynulliad hwn fwy o bŵer ac awdurdod. Mae sefyllfa gyfansoddiadol gyfredol yr ynysoedd hyn yn gymysgedd anghyfiawn, anghynaliadwy o bwerau amrywiol yn seiliedig ar hwylustod yn hytrach na chyfiawnder. Nid oes ryfedd bod mandarinaid truenus Whitehall yn mynd ar gyfeiliorn ynglŷn â phwy y dylent ymgynghori â hwy ar beth.

Parhaf i weithio ar ran ein cenedl i gyflawni statws cyfartal ag Eire a gwledydd bychain eraill Ewrop, oherwydd credaf mai dyna'r ffordd orau, ac yn y pen draw, yr unig ffordd o wasanaethu buddiannau pobl Cymru. Heriaf y cyd-Aelodau hynny sydd yn credu y gellir gwneud i ddatganoli, o fewn y DU fel y mae ar hyn o bryd, weithio a galw am gydraddoldeb i Gymru a'r Alban yn awr. Mae unrhyw beth llai yn sarhad i'n cenedl, ond yn waeth na hynny, nid yw'n gweithio.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i Helen Mary a hoffwn ei llongyfarch ar sicrhau'r ddadl fer ar ddydd Gŵyl Dewi. Wrth wrando arni, fe'm hatgoffwyd o Tony Benn, sydd y tu hwnt o gredadwy bob amser, ond nid yn rhesymegol o gwbl pan ddadansoddwch yr hyn a ddywedwyd. Mae rheswm da pam bod gennym lai o bŵer, fel y dywedasoeh, na'r Alban. Mater bach democratiaeth ydyw. Dyna beth y pleidleisiodd pobl amdano.

Cyfeiriasoch at y gwahaniaethau rhwng Plaid Geidwadol Cymru a'r Blaid Geidwadol yn San Steffan. Nid yw hyn yn fater o alar preifat. Ymfalchïwn yn y ffaith y gallwn arddel safbwynt gwahanol yn y Cynulliad Cenedlaethol i blaid San Steffan. Mae'n rhywbeth a groesewir gan William Hague yng ngwlad ei dad-yng-nghyfraith. Trueni nad oes gan bleidiau eraill yr un rhyddid. Nid yw'n broblem i Blaid Cymru—The Party of Wales, gan nad oes ganddi lawer o aelodau

Westminster. However, it is a real problem for the governing party—or party of the governing pantomime horse—because it is not allowed to take a different line here. We know that from the census, post office closures, jury trial and a whole host of other issues. It receives its orders from Westminster. It is a branch office of Westminster.

Even Mr Blair was impressed—goodness knows why—by the Liberal Democrat/Labour coalition in Scotland. Therefore, the order was given to have one in Wales, and look what happened. There are two unsackable Liberal Democrat Cabinet Ministers—unsackable, I hasten to add, not by reason of competence, but by reason of keeping the coalition together.

We have an agenda. We must make this National Assembly work within the current framework. We can do many things within existing powers to make this place effective for the people of Wales in terms of creating jobs, helping agriculture and creating a national gallery, on which I wish this Government would make a commitment. All sorts of things could be done. I invite the Government of Wales to ensure that these things happen, because it has every opportunity to ensure that that is the case.

I hope that the Assembly review will help us to improve the process within the existing framework. Our party is committed to improving the governance of Wales through this National Assembly.

11:55 a.m.

John Griffiths: I thank Helen Mary for allowing me to contribute. On St David's day, I draw attention to an important development for better governance in Wales, namely the launch of a radical, cross-party Welsh think-tank to promote social justice in Wales, the Bevan foundation. It is named after Nye Bevan, one of Wales's greatest sons and a famous champion of social justice and socialism. It is appropriately based in the heart of the south Wales valleys and includes well-respected and key figures, such as the First Minister, the Secretary of State for

yn San Steffan. Fodd bynnag, mae'n broblem wirioneddol i'r blaidd lywodraethol—neu blaidd y ceffyl pantomeim llywodraethol—oherwydd ni chaniateir iddi arddel safbwynt gwahanol yma. Gwyddom hynny o'r cyfrifiad, achosion o gau swyddfeydd post, prawf rheithgor a llu o faterion eraill. Derbynna ei orchmynion gan San Steffan. Un o swyddfeydd rhanbarthol San Steffan ydyw.

Crëwyd argraff ar Mr Blair hyd yn oed—dyn a wŷr pam—gan glymblaidd y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur yn yr Alban. Felly, rhoddwyd y gorchymyn i gael un yng Nghymru ac edrychwch beth ddigwyddodd. Mae dau Weinidog Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol na ellir eu diswyddo—na ellir eu diswyddo, prysuraf i ychwanegu, nid oherwydd gallu, ond er mwyn cadw'r glymblaidd at ei gilydd.

Mae gennym agenda. Rhaid inni wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn weithio o fewn y fframwaith cyfredol. Gallwn wneud llawer o bethau o fewn y pwerau presennol i sicrhau bod y lle hwn yn effeithiol i bobl Cymru o ran creu swyddi, helpu amaethyddiaeth a chreu oriel genedlaethol, yr hoffwn pe bai'r Llywodraeth hon yn ymrwymo iddi. Gellid gwneud pob math o bethau. Gwahoddaf Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y pethau hyn yn digwydd, oherwydd mae ganddi bob cyfle i sicrhau mai fel yna y mae hi.

Gobeithiaf y bydd adolygiad y Cynulliad yn ein helpu i wella'r broses o fewn y fframwaith presennol. Mae ein plaid yn ymrwymedig i wella'r modd y llywodraethir Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol hwn.

John Griffiths: Diolchaf i Helen Mary am ganiatáu imi gyfrannu. Ar ddydd Gŵyl Dewi, tynnaf sylw at ddatblygiad pwysig i lywodraethu Cymru'n well, sef lansio pwyllgor ystyried radical, trawsbleidiol Cymreig i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, sefydliad Bevan. Fe'i henwir ar ôl Nye Bevan, un o feibion mwyaf nodedig Cymru, a chefnogwr enwog cyfiawnder cymdeithasol a sosialaeth. Fe'i lleolir yn briodol yng nghanol cymoedd de Cymru ac mae'n cynnwys pobl uchel eu parch ac allweddol, megis Prif Weinidog

Wales, Tyrone O'Sullivan and the Archbishop of Wales, Rowan Williams, who is president.

At this crucial stage in Welsh history, there is a great need for ideals, vision and radical new ideas for a fairer society. This is a welcome development to help to provide that and to work up prospective policies for the new Wales to ensure distinctive policies to meet the distinctive needs of Wales. I welcome this development on St David's day.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): I was going to say that I welcomed this opportunity to discuss better governance. However, after Helen Mary and Nick Bourne's contributions, it is nice to see the forces of Conservatism at work in this Chamber.

When I hear Helen Mary speak I think, 'Oh gosh. Here she goes again, whingeing for Wales.' Plaid Cymru constantly complain. Whatever is achieved is belittled. Whatever we do is rubbished. It is good, however, to hear Nick Bourne's views. It is said that converts are more royalist than the King, but it is always good to hear a sinner repent. However, unlike Helen Mary, and her often grudging or conditional welcome, I strongly believe that in less than two years this Assembly has had a positive effect on the governance of Wales. It is possible to consider each devolved policy area and demonstrate how our policies are making a real difference to the people of Wales in innovative and distinctive ways. I will give a few examples.

We debated health today. We have developed locally-based approaches to healthcare and health improvement alongside this Assembly's strategic role. We have developed Welsh solutions to Welsh problems.

Our approaches to education and training are breaking new ground. The impact of Education and Learning Wales, or the National Council for Education and Training for Wales, as it was previously called, will be significant. We are currently reviewing access to further and higher education, the

Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Tyrone O'Sullivan ac Archesgob Cymru, Rowan Williams, sef y llywydd.

Ar yr adeg dyngedfennol hon yn hanes Cymru, mae angen mawr am ddelfrydau, gweledigaeth a syniadau radical newydd er mwyn sicrhau cymdeithas decach. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu er mwyn helpu i ddarparu hynny ac i baratoi polisiau penodol i ddiwallu anghenion penodol Cymru. Croesawaf y datblygiad hwn ar ddydd Gŵyl Dewi.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Yr oeddwn yn mynd i ddweud fy mod yn croesawu'r cyfle hwn i drafod mater llywodraethu gwell. Fodd bynnag, ar ôl cyfraniadau Helen Mary a Nick Bourne, mae'n braf gweld grymoedd Ceidwadaeth ar waith yn y Siambr hon.

Pan glywaf Helen Mary yn siarad, meddyliaf, 'O diar. Dyma hi eto, yn cwyno dros Gymru.' Mae Plaid Cymru byth a beunydd yn cwyno. Bychanir beth bynnag a gyflawnir. Dilornir beth bynnag a wnawn. Fodd bynnag, mae'n dda clywed safbwyntiau Nick Bourne. Dywedir bod troedigion yn fwy teyrngar na'r Brenin, ond mae bob amser yn dda clywed pechadur yn syrthio ar ei fai. Fodd bynnag, yn wahanol i Helen Mary, a'i chroeso crintachlyd neu amodol, credaf yn gryf fod y Cynulliad, hwn, mewn llai na dwy flynedd, wedi cael effaith gadarnhaol ar lywodraethu Cymru. Mae'n bosibl ystyried pob maes polisi datganoledig a dangos sut y mae ein polisiau yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru mewn ffyrdd arloesol a gwahanol. Rhoddaf rai enghreifftiau ichi.

Buom yn dadlau ynghylch iechyd heddiw. Datblygasom ymagweddau lleol i ofal iechyd a gwella iechyd ochr yn ochr â rôl strategol y Cynulliad hwn. Datblygasom atebion Cymreig i broblemau Cymreig.

Mae ein hymagweddau tuag at addysg a hyfforddiant yn torri tir newydd. Bydd effaith Addysg a Dysgu Cymru, neu Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, fel y'i gelwid yn flaenorol, yn arwyddocaol. Ar hyn o bryd, yr ydym yn adolygu mynediad i addysg bellach ac addysg

post-16 education curriculum and how we judge performance in our schools. We have developed Welsh solutions to Welsh problems.

Our approaches to community regeneration and tackling poverty are rapidly being developed and implemented. The new framework for the Communities First programme will target resources and harness community energies to tackle poverty in ways previously unseen. Our success in using European structural fund programmes such as Objective 1 will be essential to the long-term economic and social regeneration of our communities. Again, these are Welsh solutions to Welsh problems.

Helen Mary referred to the Children's Commissioner for Wales. Far from belittling that achievement, we should celebrate it. It is a victory for the co-operation between this Assembly and the UK Government in legislating, for the first time, for a children's commissioner.

Five Welsh Bills were included in the last Queen's Speech, when many Whitehall departments had no Bills included. Therefore, as well as noting innovative policy delivery, we should recognise the positive developments in the political process itself.

Brian Gibbons: Will you comment on whether Plaid Cymru's ultimate ambitions for a constitutional settlement in Wales will be any clearer to the people of Wales, in view of Helen Mary Jones's definition and disposition, particularly as she predicated her comments by saying that she was making them in the interest of clarity?

Andrew Davies: I am grateful for the opportunity to comment. The people of Wales will be just as confused about Plaid Cymru's constitutional position as they are about the party's attitude towards Councillor Simon Glyn.

As I said, as well as noting the innovation in policy delivery, we should also recognise the positive developments in the political process itself.

uwch, y cwricwlwm addysg ôl-16 a sut y barnwn berfformiad yn ein hysgolion. Yr ydym wedi datblygu atebion Cymreig i broblemau Cymreig.

Caiff ein hymagweddau tuag at adfywio cymunedau a mynd i'r afael â thlodi eu datblygu a'u gweithredu'n gyflym. Bydd y fframwaith newydd ar gyfer y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn targedu adnoddau ac yn rheoli egni cymunedol i fynd i'r afael â thlodi mewn ffyrdd nas gwelwyd o'r blaen. Bydd ein llwyddiant wrth ddefnyddio rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd fel Amcan 1 yn hanfodol i adfywiad economaidd a chymdeithasol tymor hir ein cymunedau. Unwaith eto, atebion Cymreig yw'r rhain i broblemau Cymreig.

Cyfeiriodd Helen Mary at Gomisiynydd Plant Cymru. Yn hytrach na bychanu'r cyflawniad hwnnw, dylem ei ddathlu. Mae'n fuddugoliaeth ar gyfer y cydweithredu rhwng y Cynulliad hwn a Llywodraeth y DU wrth ddeddfu ar gyfer comisiynydd plant, am y tro cyntaf.

Yr oedd pum Mesur Cymreig yn Araith ddiwethaf y Frenhines, pan nad oedd gan lawer o adrannau Whitehall unrhyw Fesurau ynddi. Felly, yn ogystal â nodi bod polisiau yn cael eu cyflwyno mewn dull arloesol, dylem gydnabod y datblygiadau cadarnhaol yn y broses wleidyddol ei hun.

Brian Gibbons: A wnewch sylw ar a fydd dyheadau Plaid Cymru yn y pen draw ar gyfer setliad cyfansoddiadol yng Nghymru rywfaint yn gliriach i bobl Cymru, yng ngoleuni diffiniad a gosodiad Helen Mary Jones, yn arbennig gan iddi ddechrau ei sylwadau drwy ddweud ei bod yn eu gwneud er mwyn egluro?

Andrew Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylw. Bydd pobl Cymru yr un mor ddryslyd ynghylch safbwynt cyfansoddiadol Plaid Cymru ag y maent ynghylch agwedd y blaid tuag at y Cynghorydd Simon Glyn.

Fel y dywedais, yn ogystal â nodi'r dyfeisgarwch wrth gyflwyno polisiau, dylem gydnabod hefyd y datblygiadau cadarnhaol yn y broses wleidyddol ei hun.

Ieuan Wyn Jones: Will you give way?

Andrew Davies: I am not sure that I have time.

The Presiding Officer: You have six minutes left.

Andrew Davies: Then I will give way.

Ieuan Wyn Jones: In the interest of clarity, will you name the five Welsh Bills in the Queen's Speech?

Andrew Davies: We have had an effect on legislation such as the Children's Commissioner for Wales Bill, the Learning and Skills Bill and on other Bills. We have had a major impact on the contents of the Queen's Speech and the legislative programme. In pre-devolution Wales, many decisions were made behind closed doors by unelected bodies that were unaccountable to the people of Wales. Those decisions were often geared to events and audiences elsewhere in the UK, and the Welsh Office was used as a playground or a laboratory for aspiring leaders of the Conservative Party. For the first time in our history we have a body directly elected by the people of Wales, making decisions that benefit the people of Wales.

Devolution has enlivened and enriched Welsh politics. However, we should not be too preoccupied by what goes on in this Chamber or in the Committees. Neither should we be misled into believing that the devolution process is confined to the workings of this institution. The benefits of devolution will be most positive when there is a stronger civic society in Wales, when Welsh business and trade unions recognise that they can use devolution to shape their future, when our voluntary sector, universities and other civic institutions take advantage of devolution to develop their contributions towards making policy and when local communities in Wales use their partnership with the Assembly to extend devolution into every part of Wales.

Ieuan Wyn Jones: A wnewch chi ildio?

Andrew Davies: Nid wyf yn credu bod amser gennyf.

Y Llywydd: Mae gennych chwe munud yn weddill.

Andrew Davies: Yna ildiaf.

Ieuan Wyn Jones: Er mwyn egluro, a enwch y pum Mesur Cymreig yn Araith y Frenhines?

Andrew Davies: Cawsom ddylanwad ar ddeddfwriaeth megis Mesur Comisiynydd Plant Cymru, y Mesur Dysgu a Sgiliau a Mesurau eraill. Cawsom effaith fawr ar gynnwys Araith y Frenhines a'r rhaglen ddeddfwriaethol. Yng Nghymru cyn datganoli, gwnaethpwyd llawer o benderfyniadau y tu hwnt i ddrysau caeedig gan gyrrff anetholedig nad oeddent yn atebol i bobl Cymru. Yn aml, yr oedd y penderfyniadau hynny ynghlwm wrth ddigwyddiadau a chynulleidfaoedd mewn mannau eraill yn y DU, a defnyddiwyd y Swyddfa Gymreig fel maes chwarae neu labordy ar gyfer darpar arweinwyr y Blaid Geidwadol. Am y tro cyntaf yn ein hanes mae gennym gorff a etholwyd yn uniongyrchol gan bobl Cymru, sydd yn gwneud penderfyniadau y mae pobl Cymru yn elwa arnynt.

Symbylwyd a chyfoethogwyd gwleidyddiaeth Cymru gan ddatganoli. Fodd bynnag, ni ddylem ymddiddori ormod yn yr hyn sydd yn digwydd yn y Siambr hon nac yn y Pwyllgorau. Ni ddylem ychwaith gael ein camarwain i gredu bod proses datganoli yn gyfyngedig i waith y sefydliad hwn. Bydd buddiannau datganoli ar eu mwyaf cadarnhaol pan fydd cymdeithas ddinesig gryfach yng Nghymru, pan fydd busnesau ac undebau llafur Cymru yn cydnabod y gallant ddefnyddio datganoli i lunio eu dyfodol, pan fydd ein sector gwirfoddol, prifysgolion a sefydliadau dinesig eraill yn manteisio ar ddatganoli i ddatblygu eu cyfraniadau tuag at wneud polisi a phan fydd cymunedau lleol yng Nghymru yn defnyddio eu partneriaeth â'r Cynulliad i ymestyn datganoli i bob rhan o Gymru.

There are those, like Helen Mary and Plaid Cymru Members, who wish to ignore or belittle all that is happening in the Assembly to create a richer governance in Wales.

Peter Black: In response to Helen Mary's point about the extra powers that the Assembly needs, will you confirm that the partnership Government has responded to that by proposing to set up a commission to report after 2003? I hope that the commission's remit will involve considering the Assembly's powers and that it will make recommendations to the UK Government on that.

Andrew Davies: Yes, exactly. This partnership Government is delivering for the people of Wales. We are using our powers to maximum effect. As Peter said, we are setting up an independent commission to consider the Assembly's powers and how they are used. Plaid Cymru is the only party obsessed with the relationship between Wales and Westminster and other parts of the UK, and its only interest is seemingly in examining the devolution settlement and indulging in constitutional navel-gazing.

Brian Hancock *rose—*

Andrew Davies: I will not give way.

Helen Mary said that the macro-economic policies of the present Labour Government have been disastrous. It is those so-called 'disastrous' policies that have led to a record level of investment in public services in Wales over three years, as well as the highest number ever of people in employment, the lowest unemployment level since 1974, low interest rates, raising real prosperity and record investment in public services such as the health service, education and transport. In time, we will evaluate the devolution settlement. We will do so in the understanding that Wales is an integral part of the UK. We will do so when the people of Wales can celebrate their active participation in decisions that affect their lives, through, and with, the Assembly, and understand the positive impact that devolution has had, and continues to have, on the governance of

Mae rhai pobl, fel Helen Mary ac Aelodau Plaid Cymru, yn dymuno anwybyddu neu fychanu yr hyn sydd yn digwydd yn y Cynulliad i greu dull llywodraethu cyfoethocach yng Nghymru.

Peter Black: Mewn ymateb i bwynt Helen Mary ynghylch y pwerau ychwanegol sydd eu hangen ar y Cynulliad, a gadarnhewch fod y Llywodraeth bartneriaeth wedi ymateb i hynny drwy gynnig sefydlu comisiwn i gyflwyno adroddiad ar ôl 2003? Gobeithiaf y bydd cylch gwaith y comisiwn yn cynnwys ystyried pwerau'r Cynulliad ac y gwnaiff argymhellion i Lywodraeth y DU ar hynny.

Andrew Davies: Ydyw, yn union. Mae'r Llywodraeth bartneriaeth hon yn cyflawni ar ran pobl Cymru. Defnyddiwn ein pwerau yn y ffordd orau bosibl. Fel y dywedodd Peter, yr ydym wrthi'n sefydlu comisiwn annibynnol i ystyried pwerau'r Cynulliad a sut y'u defnyddir. Plaid Cymru yw'r unig blaid sydd ag obsesiwn â'r berthynas rhwng Cymru a San Steffan a rhannau eraill o'r DU, a'i hunig ddiddordeb yn ôl pob tebyg yw archwilio'r setliad datganoli ac ymbleseru mewn bogailsyllu cyfansoddiadol.

Brian Hancock *a gododd—*

Andrew Davies: Nid ildiaf.

Dyweddodd Helen Mary y bu polisiau macro-economaidd y Llywodraeth Lafur bresennol yn drychinebus. Y polisiau 'trychinebus' hynny fel y'u gelwir sydd wedi arwain at y lefel uchaf erioed o fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros dair blynedd, yn ogystal â'r nifer uchaf erioed o bobl mewn swyddi, y lefel ddiweithdra isaf ers 1974, cyfraddau llog isel, cynnydd gwirioneddol mewn ffyniant a'r lefel uchaf erioed o fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus fel y gwasanaeth iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Ymhen amser, gwerthuswn y setliad datganoli. Gwnawn hynny ar yr amod bod Cymru yn rhan annatod o'r DU. Gwnawn hynny pan y gall pobl Cymru ddatlu eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau, drwy'r Cynulliad a chydag ef, gan ddeall yr effaith gadarnhaol a gafodd

Wales.

datganoli, ac y mae'n parhau i'w chael, ar lywodraethu Cymru.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.
The session ended at 12.05 p.m.*

**Anerchiad gan y Taoiseach, Bertie Ahern
Address by the Taoiseach, Bertie Ahern**

Y Llywydd: Y mae'n bleser arbennig gennyf groesawu y Taoiseach—gair cytras â'r Gymraeg, 'Tywysog' fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod—Prif Weinidog Iwerddon i annerch y Cynulliad.

The Presiding Officer: It gives me great pleasure to welcome the Taoiseach—a word that corresponds with the Welsh 'Tywysog', as many of you will know—the Prime Minister of Ireland to address the Assembly.

It is a privilege to welcome you to the Assembly, and I invite you to address us.

Mae'n frainit eich croesawu i'r Cynulliad, ac fe'ch gwahoddaf i'n hannerch.

An Taoiseach (Bertie Ahern): Llywydd, First Minister, Secretary of State for Wales, I thank you for the opportunity to be here and your words of welcome. It is a singular honour to be invited to address the National Assembly for Wales on this special day that is dedicated to the patron saint of Wales, St David. I express my thanks and appreciation for this kind invitation.

An Taoiseach (Bertie Ahern): Lywydd, Prif Weinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, diolchaf ichi am y cyfle i fod yma ac am eich geiriau croesawgar. Mae'n frainit unigryw i gael fy ngwahodd i annerch Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y diwrnod arbennig hwn a gysegrwyd i nawddsant Cymru, Dewi Sant. Mynegaf fy niolch a'm gwerthfawrogiad am y gwahoddiad caredig hwn.

In two days time, we were to have another special day when our two nations were to meet in a mighty contest in your magnificent Millennium Stadium. It is disappointing that it was necessary to postpone the match, but I know that we all accept that it was the right decision. We could not take the risk of a further spread of foot and mouth disease and the consequent threat to the livelihoods of members of the farming community, who are already hardpressed by the effects of BSE on consumer confidence.

Ymhen dau ddiwrnod, yr oeddem i gael diwrnod arbennig arall gyda'n dwy wlad yn dod at ei gilydd mewn gornest fawr yn eich Stadiwm y Mileniwm gwych. Mae'n siom y bu'n rhaid gohirio'r gêm, ond gwn fod pob un ohonom yn derbyn mai dyma oedd y penderfyniad cywir. Ni allem gymryd y risg o glwy'r traed a'r genau yn lledaenu ymhellach ac o ganlyniad y bygythiad i fywoliaeth ffermwyr, sydd eisoes yn dioddef caledi oherwydd effeithiau BSE ar hyder defnyddwyr.

The Irish and Welsh have been pastoral peoples down the centuries and I am sure that all here today have understanding and sympathy for the anxiety and heartache experienced by farmers and their families. It is not much consolation to those whose lives and livelihoods are disrupted, but at least the appeals made by our respective administrations reflected a close co-operation between our ministerial colleagues, Joe Walsh and Carwyn Jones. I thank all of you for your help, advice and involvement in this

Bu'r Gwyddelod a'r Cymry yn bobl y wlad ar hyd y canrifoedd ac yr wyf yn siŵr bod pawb sydd yma heddiw yn deall ac yn cydymdeimlo â phryder a thorcalon ffermwyr a'u teuluoedd. Nid yw'n llawer o gysur i'r rheini yr amharwyd ar eu bywydau a'u bywoliaethau, ond o leiaf, mae'r galwadau a wnaethpwyd gan ein gweinyddiaethau priodol yn adlewyrchu cydweithio agos rhwng ein gweinidogion, Joe Walsh a Carwyn Jones. Diolchaf i bob un ohonoch am eich help, cyngor a'ch ymwneud

matter over the last week, which shows the level of co-operation on such issues and how they affect us all. I had the opportunity to talk at length about these issues with the First Minister this morning and how we will continue to work closely together through our respective colleagues.

Picking up on the theme of close co-operation, Presiding Officer, I want to take advantage of the great honour that you have afforded me today to speak about developments in relations between us and the opportunity that they afford us to forge a new relationship for a new era. The stories of the Welsh and Irish peoples have been intertwined through history. The narrow strip of water that we share as our common link—60 miles at its narrowest point—has been criss-crossed by our people since time immemorial.

In the early centuries of the Christian era, the wisdom and learning of our peoples were generously and readily shared. Our mutual love of learning served as a beacon to many other lands, including mainland Europe. Irish missionaries on their way to Brittany and the evangelical fields of central Europe trod a well-beaten path across the peninsula of St David's land. There is, perhaps, no clearer symbol of the closeness of our people than the reputed origins of our patron saints. Therefore, it is particularly apt that I have the opportunity to make this address on St David's day because, at least one source claims that St David was born of an Irish mother and died in the arms of Aidan of Ferns in Wexford. Every child in Ireland is taught that St Patrick was born in Wales, taken as a captive to Ireland, escaped and later returned to his adopted home spreading the Christian message in the promised land of Ireland.

The Welsh and Irish are kindred spirits. We come from common stock and share a common culture from pre-historic and early Christian times. However, as is often the case with many close neighbours, our proximity did not always mean that we enjoyed the positive relations that we appreciate so much today.

â'r mater hwn dros yr wythnos diwethaf, sydd yn dangos lefel y cydweithredu a fu ar faterion o'r fath a sut yr effeithiant ar bob un ohonom. Cefais gyfle i siarad yn bur faith ar y materion hyn gyda'r Prif Weinidog y bore yma a sut y parhawn i gydweithio'n agos drwy ein gweinidogion priodol.

I ailafael â'r thema cydweithredu agos, Lywydd, dymunaf fanteisio ar y fraint fawr a roddwyd imi heddiw i sôn am ddatblygiadau yn y berthynas rhyngom a'r cyfle a roddant inni lunio perthynas newydd ar gyfer cyfnod newydd. Cyd-blethwyd hanes y Cymry a'r Gwyddelod erioed. Croeswyd y darn cul o ddŵr a rannwn fel ein cyswllt cyffredin—60 milltir ar ei fan culaf—gan ein pobl ers cyn cof.

Yng nghanrifoedd cynnar y cyfnod Cristnogol, rhennid doethineb a dysg ein pobl mewn modd hael a pharod. Bu cariad y ddwy wlad tuag at ddysgu yn ysbrydoliaeth i lawer o wledydd eraill, gan gynnwys tir mawr Ewrop. Troediodd cenhadon o Iwerddon ar eu ffordd i Lydaw ac ardaloedd efengylaidd canol Ewrop lwybr cyfarwydd ar draws penrhyn gwlad Dewi Sant. Efallai nad oes symbol cliriach o agosrwydd ein pobl na gwreiddiau honedig ein nawddsaint. Felly, mae'n briodol iawn fod cyfle gennyf i wneud yr anerchiad hwn ar ddydd Gŵyl Dewi oherwydd, honna o leiaf un ffynhonnell fod Dewi Sant wedi ei eni o fam Wyddelig ac y bu farw ym mreichiau Aidan o Ferns yn Llŵch Garmon. Addysgir pob plentyn yn Iwerddon bod San Padrig wedi ei eni yng Nghymru, iddo gael ei gymryd yn garcharor i Iwerddon, iddo ddianc a dychwelyd yn ddiweddarach i'w gartref mabwysiedig gan ledaenu'r neges Gristnogol yng ngwlad addewid Iwerddon.

Mae'r Cymry a'r Gwyddelod yn debyg i'w gilydd. Deuwn o linach gyffredin a rhannwn ddiwylliant cyffredin ers y cyfnod cyn-hanes a'r cyfnod Cristnogol cynnar. Fodd bynnag, fel y mae'n aml yn wir gyda llawer o gymdogion agos, nid oedd ein hagosrwydd bob amser yn golygu bod gennym y berthynas gadarnhaol a werthfawrogn gymaint heddiw.

In the twelfth century, Welsh princes led invasions to Ireland and Welsh gentry came to Ireland following the plantations in the sixteenth and seventeenth centuries. Welsh soldiers played a significant role in the Williamite Irish wars. In the nineteenth century Irish emigrants, largely Catholic, fleeing dispossession, famine and economic hardship found a home in Wales, even among people who knew great hardship themselves.

Today, we are proud of the Irish immigrant muscle, which helped build the roads, railways, bridges, dams, canals and power stations of Wales. They stand as a monument to the contribution of those generations to the development of the Welsh nation today. Our shared history provides many examples of Welsh-Irish solidarity. The political passions of the Irish have often found echoes and sympathisers in Wales. The great nineteenth century Irish patriot and Labour leader, Michael Davitt, found ready audiences here for the efforts of his Land League to improve and safeguard the position of tenants of landed estates. Campaigns in Ireland for the disestablishment of the Church and the revival of Irish culture all elicited Welsh sympathies in some measure.

Although the Irish-Welsh relationship was somewhat eclipsed by the broader Irish-British one for many years, today we are witnesses to many changes that afford us an opportunity to develop a new stage in our relationship. Devolution in the UK, the transformation of the Irish economy and a profound change in the British-Irish relationship have together created the potential for a new and exciting era of partnership. I assure you that Ireland is fully committed to the development of a new, dynamic and mutually beneficial partnership with Wales.

Today, as we know, Wales is committed to establishing a new profile. Indeed, the theme for this afternoon's forum 'Wales, Europe and the World', which I look forward to

Yn y ddeuddegfed ganrif, arweiniodd tywysogion Cymru ymosodiadau ar Iwerddon a daeth boneddigion Cymru i Iwerddon yn dilyn y gwladfeydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Chwaraeodd milwyr Cymru rôl bwysig yn rhyfeloedd Gwyddelig y Brenin William. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth ymfudwyr Gwyddelig, rhai Catholig yn bennaf yn ffoi rhag difeddiant, newyn a chyni economaidd, o hyd i gartref yng Nghymru, hyd yn oed ymhlith pobl a oedd wedi dioddef cyni mawr eu hunain.

Heddiw, yr ydym yn falch o nerth y mewnfudwyr Gwyddelig, a helpodd i adeiladu ffyrdd, rheilffyrdd, pontydd, argaeau, camlesi a gorsafoedd pŵer Cymru. Safant fel cofeb i gyfraniad y cenedlaethau hynny tuag at ddatblygiad Cymru heddiw. Rhydd ein hanes cyffredin lawer o enghreifftiau o undod rhwng y Cymry a'r Gwyddelod. Yn aml atseiniodd angerdd gwleidyddol y Gwyddelod yng Nghymru a chydymdeimlwyd ag ef. Daeth y gwladgarwr Gwyddelig mawr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r arweinydd Llafur, Michael Davitt, o hyd i gynulleidfaoedd parod yma ar gyfer ymdrechion ei Gynghrair y Tir i wella a diogelu sefyllfa tenantiaid ystadau. Ysgogodd yr ymgyrchoedd yn Iwerddon i ddatgysylltu'r Eglwys ac adfywio'r Wyddeleg a diwylliant Gwyddelig gydymdeimlad yng Nghymru i ryw raddau.

Er i'r berthynas ehangach rhwng Iwerddon a Phrydain daflu cysgod ar y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon am flynyddoedd lawer, heddiw yr ydym yn dystion i lawer o newidiadau a rydd y cyfle inni gymryd cam newydd yn ein perthynas. Gyda'i gilydd, mae datganoli yn y DU, trawsnewid economi Iwerddon a newid llwyr yn y berthynas rhwng Prydain ac Iwerddon wedi creu'r potensial am gyfnod newydd a chyffrous yn y bartneriaeth. Rhoddaf sicrwydd ichi fod Iwerddon yn llwyr ymroddedig i ddatblygu partneriaeth newydd, ddeinamig â Chymru a fydd yn fuddiol i'r ddwy wlad.

Heddiw, fel y gwyddom, mae Cymru wedi ymrwmo i sefydlu proffil newydd. Yn wir, mae thema fforwm y prynhawn yma 'Cymru, Ewrop a'r Byd', yr edrychaf ymlaen at ei

addressing, underlines your vision for a Welsh future in a European and global context. Devolution in Wales continues to have a profound effect on your sense of national identity with positive consequences for the governance of Wales and the wellbeing of its people. Across Europe, there is widespread recognition that decisions are best taken as close as possible to the people who are affected by them. The principle of subsidiarity will continue to be reflected as the European Union enlarges and implements the reforms agreed recently in the Treaty of Nice. Devolution also holds out the vital promise of re-engaging those who should be most engaged with the political process, namely the people that that process is there to serve.

I am honoured to address the Assembly today, because it is already providing a new focus for national sentiment and is extending opportunities for pride and self-confidence into all aspects of Welsh life. In a relatively short time, this Assembly has clearly signalled the determination of its Members to ensure that devolution makes a difference to people's lives, embodying the values of social justice and equality. Your friends and neighbours in Ireland wish you well as you embark on this new phase in your history.

We too have undergone profound change in recent years. Most importantly, for the first time in over 30 years, we have an historic opportunity for peace on the island of Ireland and we are determined not to squander it. The violence and tragedy of the past deeply affected the people of Northern Ireland, but it also had far-reaching and destabilising effects on social, economic and political wellbeing throughout the island of Ireland and further afield in the UK.

The Good Friday agreement has changed our political landscape forever. It represents a fair and just political accommodation of the two main political traditions in Ireland, and of their allegiances and aspirations. The agreement contains the seeds of a lasting peace. It is not always easy to implement and it is no secret that we continue to face

annerch, yn tanlinellu eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru mewn cyd-destun Ewropeaidd a byd-eang. Mae datganoli yng Nghymru yn parhau i gael effaith ddwys ar eich ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol â chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer llywodraethu Cymru a lles ei phobl. Ledled Ewrop, mae cydnabyddiaeth eang bod yn well gwneud penderfyniadau mor agos â phosibl at y bobl y maent yn effeithio arnynt. Bydd egwyddor datganoli yn parhau i gael ei hadlewyrchu wrth i'r Undeb Ewropeaidd ehangu a gweithredu'r diwygiadau y cytunwyd arnynt yn ddiweddar yng Nghytundeb Nice. Mae datganoli hefyd yn cynnig yr addewid holl bwysig o ailgynnwys y bobl hynny a ddylai fod yn ymwneud fwyaf â'r broses wleidyddol, sef y bobl y mae'r broses honno yno i'w gwasanaethu.

Mae'n ffrindiau a'ch cymdogion yn Iwerddon yn dymuno'n dda ichi wrth ichi gychwyn ar y cyfnod newydd hwn yn eich hanes.

Yr ydym ninnau hefyd wedi gweld newid helaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Yn bwysicaf oll, am y tro cyntaf ers dros 30 o flynyddoedd, mae cyfle hanesyddol am heddwch gennym yn Iwerddon ac yr ydym yn benderfynol o beidio â'i wastraffu. Effeithiodd trais a thrasiedi'r gorffennol yn fawr iawn ar bobl Gogledd Iwerddon, ond cafodd effeithiau pellgyrhaeddol ac ansefydlog hefyd ar les cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ar draws ynys Iwerddon ac ymhellach draw yn y DU.

Newidiodd gytundeb Dydd Gwener y Groglith wedd ein gwleidyddiaeth am byth. Mae'n cynnwys y ddau brif draddodiad gwleidyddol yn Iwerddon, eu teyrngarwch a'u dyheadau, mewn ffordd deg a chyfiawn. Mae'r cytundeb yn cynnwys hadau heddwch parhad. Nid yw bob amser yn hawdd gweithredu ac nid yw'n gyfrinach ein bod yn

challenges and difficulties in doing so. However, together with Tony Blair, members of the British Government and the parties in Northern Ireland, we will continue to take up our responsibility to ensure that the agreement is implemented in full. We appreciate the support of all our friends in Wales as we continue this crucial work. We also appreciate the efforts that so many of you have made when we have asked for assistance or in your dealings with us.

The Good Friday agreement also reflects the positive development of British-Irish relations in recent years. The strong friendship between Ireland and Wales today can also be seen as a reflection of that broader development. For example, the agreement provides us with a unique forum for developing new relationships for this new era, in the shape of the British-Irish Council. Under strand three of the agreement, the British-Irish Council brings together representatives of the London and Dublin Governments and the devolved institutions in Northern Ireland, Scotland and Wales with those of the Isle of Man and the Channel Islands to promote the harmonious and mutually beneficial development of the totality of relationships among the peoples of these islands. I welcome the National Assembly for Wales's commitment to participate energetically in the British-Irish Council's deliberations. While we in Ireland are taking the lead in our discussions on the problems associated with the misuse of drugs, and our entire agenda is going forward, you in Wales, together with Scotland, are taking the lead within the council in another area of great importance to us all, social inclusion. I thank you for that.

Of course, our ambitions for a new Wales-Ireland relationship are not confined to our interaction within the British-Irish Council, but extend to all aspects of our national lives. We in Ireland very much appreciate being able to play our part in this new forum. We hope that it will provide an additional opportunity to exchange views and practical ideas on many issues of common interest in the coming years.

parhau i wynebu heriau ac anawsterau wrth wneud hynny. Fodd bynnag, ynghyd â Tony Blair, aelodau o Lywodraeth Prydain a'r pleidiau yng Ngogledd Iwerddon, parhawn i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau y gweithredir y cytundeb yn llawn. Gwerthfawrogwn gefnogaeth pob un o'n ffrindiau yng Nghymru wrth inni barhau â'r gwaith holl bwysig hwn. Gwerthfawrogwn hefyd ymdrechion cymaint ohonoch pan ofynasom am eich cymorth neu yn eich ymwneud â ni.

Mae cytundeb Dydd Gwener y Grogolith hefyd yn adlewyrchu'r datblygiad cadarnhaol yn y berthynas rhwng Prydain ac Iwerddon dros y blynyddoedd diwethaf. Heddiw gellir ystyried y cyfeillgarwch cryf rhwng Iwerddon a Chymru yn adlewyrchiad o'r datblygiad ehangach hwnnw. Er enghraifft, rhydd y cytundeb hwnnw fforwm unigryw inni ddatblygu cysylltiadau newydd ar gyfer y cyfnod newydd hwn, ar ffurf Cyngor Prydain-Iwerddon. O dan haen tri o'r cytundeb, daw Cyngor Prydain-Iwerddon â chynrychiolwyr o Lywodraethau Llundain a Dilyn a'r sefydliadau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban ynghyd â rhai Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel i hyrwyddo'r datblygiad cytûn a buddiol i'r ddwy ochr o gyfanrwydd y cysylltiadau ymhlith pobl yr ynysoedd hyn. Croesawaf ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfranogi'n frwd yn nhrefodaethau Cyngor Prydain-Iwerddon. Tra ein bod ninnau yn Iwerddon yn cymryd yr awenau yn ein trafodaethau ar y problemau a gysylltir â'r camddefnydd o gyffuriau, ac mae ein hagenda gyfan yn mynd yn ei blaen, yr ydych chi yng Nghymru, ynghyd â'r Alban, yn cymryd yr awenau o fewn y cyngor mewn maes pwysig arall i bob un ohonom, sef cynhwysiant cymdeithasol. Diolchaf ichi am hynny.

Wrth gwrs, ni chyfyngir ein dyheadau am berthynas newydd rhwng Cymru ac Iwerddon i'r rhyngweithio o fewn Cyngor Prydain-Iwerddon, ond fe'i hestynnir i bob agwedd ar ein bywydau cenedlaethol. Yr ydym ninnau yn Iwerddon yn gwerthfawrogi'n fawr y gallwn chwarae ein rhan yn y fforwm newydd hwn. Gobeithiwn y rhydd gyfle ychwanegol i gyfnewid safbwyntiau a syniadau ymarferol ar lawer o faterion sydd o

ddiddordeb cyffredin yn y blynyddoedd i ddod.

I am also happy to learn of the National Assembly's participation in the British-Irish interparliamentary body. I had the pleasure of meeting some of you when I addressed the body's plenary meeting in Galway in the west of Ireland last Autumn. Earlier this week in Killarney, in the south west of Ireland, the body welcomed Welsh, and other representatives, from the devolved administrations, as well as representatives from the Isle of Man and the Channel Islands as new members. I congratulate you on your new membership, and I have no doubt that your participation will greatly assist the development of the body's work, and further encourage the development of closer interparliamentary links between us all. At a bilateral level, I also welcome the formal contacts that have been established between Dáil Eireann and the National Assembly, following the recent visit to Wales of our Ceann Comhairle, or speaker.

As well as the changes in relations around and between us, recent years have also seen dramatic domestic change in Ireland, in particular, the transformation of Ireland's economy. Over the last seven years we have witnessed average annual growth rates of 8 per cent. Today, Ireland is the biggest exporter in the world on a per capita basis after Singapore and Hong Kong. We are also the world's largest exporters of computer software. Ireland's GDP per capita index is now way above the EU average. In recent years, Ireland has become a development model for smaller nations. At the same time, we are aware that our economic success brings many challenges, and we are conscious of the need never to become complacent.

Our main challenge now is to sustain economic growth and to spread our new prosperity throughout the country, to all our people, a challenge you also face in Wales. Inflationary pressures, labour shortages, infrastructural bottlenecks and escalating property prices all have the potential to threaten our economic prospects, but we are

Yr wyf yn hapus hefyd i ddysgu am gyfranogiad y Cynulliad Cenedlaethol yng nghorff rhyngseneddol Prydain-Iwerddon. Cefais y pleser o gyfarfod â rhai ohonoch pan anerchais gyfarfod llawn o'r corff yn Galway yng ngorllewin Iwerddon yr hydref diwethaf. Yn gynharach yr wythnos hon yng Nghilarnne, yn ne-orllewin Iwerddon, croesawodd y corff gynrychiolwyr o Gymru a chynrychiolwyr eraill o'r gweinyddiaethau datganoledig, yn ogystal â chynrychiolwyr o Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel fel aelodau newydd. Hoffwn eich llongyfarch ar ddod yn aelod, ac yn ddiau, bydd eich cyfranogiad o gymorth mawr wrth ddatblygu gwaith y corff, a helpu i hybu ymhellach y gwaith o ddatblygu cysylltiadau rhyngseneddol agosach rhwng pob un ohonom. Ar lefel ddwyochrog, croesawaf hefyd y cysylltiadau ffurfiol a sefydlwyd rhwng Dáil Eireann a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn ymweliad diweddar ein Ceann Comhairle, neu lefarydd, â Chymru.

Yn ogystal â'r newidiadau mewn cysylltiadau o'n cwmpas a rhyngom, gwelid hefyd dros y blynyddoedd diwethaf newid dramatig yn Iwerddon, yn arbennig, trawsnewid economi Iwerddon. Dros y saith mlynedd diwethaf gwelsom gyfraddau twf blynyddol o 8 y cant ar gyfartaledd. Heddiw, Iwerddon yw'r allforiwr mwyaf yn y byd ar sail y pen ar ôl Singapore a Hong Kong. Ni hefyd yw'r allforwyr mwyaf yn y byd o feddalwedd cyfrifiadurol. Erbyn hyn, mae mynegai CMC y pen Iwerddon lawer yn uwch na chyfartaledd yr UE. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, daeth Iwerddon yn fodel datblygu ar gyfer gwledydd llai. Ar yr un pryd, yr ydym yn ymwybodol y daw sawl her yn sgîl llwyddiant economaidd, ac yr ydym yn ymwybodol o'r angen i beidio byth â llaesu dwylo.

Ein her pennaf yn awr yw cynnal twf economaidd a lledaenu ein ffyniant newydd ledled y wlad, i'n pobl i gyd, her a wynebwhch chi hefyd yng Nghymru. Mae gan bob un o'r canlynol sef pwysau chwyddiant, prinder gweithwyr, tagfeydd o ran isadeiledd a chynnydd mewn prisiau eiddo y potensial i fygwth ein rhagolygon economaidd, ond awn

addressing these concerns. Inflation is moderating due to falling oil prices, a strengthening euro and domestic fiscal policies. We have engaged in an active campaign to attract 200,000 workers to Ireland from abroad over the next five years. We have set aside IR£21 billion to spend on infrastructural projects over the next five years. We have also addressed escalating house prices by a series of measures designed to improve supply and strengthen the position of first-time buyers. Overall, we expect economic growth to moderate gradually over the medium term, remaining in the region of 4 to 5 per cent. As I said in my discussions with the First Minister, most of the infrastructural difficulties and bottlenecks arise from the fact that, from the early 1990s, we were working on the basis that we would have about 3.4 million or 3.5 million people in the Republic of Ireland in 2001. In fact, we now have somewhere in the order of 4 million people.

Against this background, I am delighted to note a new proactive approach to mutually beneficial economic relations, strongly led by Rhodri Morgan. Ireland's experience as an Objective 1 region and our recent economic success has generated considerable interest in Wales. There is also a heightened awareness in Wales that the booming Irish market offers opportunities in virtually all sectors for good business. There is also strong evidence of a growing Irish business interest in Wales, which I strongly encourage. Some of this, I must acknowledge, is prompted by capacity constraints in the Irish economy, such as labour shortages and the high cost of accommodation. However, much is also due to recognition by business of the advantages of locating in Wales as a base to expand business in the United Kingdom and Europe.

We were delighted to welcome the Assembly's Economic Development Committee when it visited Ireland last September as part of its review of business support and development in Wales. Twenty-five Welsh firms participated in a successful trade mission to Ireland at the end of last year organised by the National Assembly's Wales

i'r afael â'r pryderon hyn. Mae chwyddiant yn gostegu oherwydd gostyngiadau mewn prisiau olew, yr ewro a pholisïau mewnwladol cyllidol. Aethom ati i gynnal ymgyrch weithredol i ddenu 200,000 o weithwyr i Iwerddon o dramor dros y pum mlynedd nesaf. Neilltuwyd IR£21 biliwn i'w wario ar brosiectau sy'n ymwneud ag isadeiledd dros y pum mlynedd nesaf. Aethom i'r afael hefyd â phrisïau tai cynyddol drwy gyfres o fesurau y bwriedir iddynt wella'r cyflenwad a chryfhau sefyllfa'r rhai sydd yn prynu am y tro cyntaf. Yn gyffredinol, disgwyliwn i dwf economaidd ostegu'n raddol yn y tymor canolig, gan barhau o gwmpas 4 i 5 y cant. Fel y dywedais yn fy nhrafodaethau â'r Prif Weinidog, cyfyd y rhan fwyaf o'r anawsterau a'r tagfeydd o ran isadeiledd o'r ffaith ein bod, ers dechrau'r 1990au, yn gweithio ar y sail y byddai gennym tua 3.4 miliwn neu 3.5 miliwn o bobl yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2001. Mewn gwirionedd, mae gennym tua 4 miliwn o bobl erbyn hyn.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n bleser gennyf nodi ymagwedd ragweithiol newydd tuag at gysylltiadau sydd yn fuddiol i'r ddwy ochr, o dan arweiniad cadarn Rhodri Morgan. Mae profiad Iwerddon fel ardal Amcan 1 a'n llwyddiant economaidd diweddar wedi creu diddordeb sylweddol yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth ddwysach yng Nghymru hefyd fod y farchnad Wyddelig ar i fyny yn cynnig cyfleoedd ym mhob sector bron ar gyfer busnes da. Mae tystiolaeth gref hefyd o ddiddordeb ym musnesau Gwyddelig yng Nghymru, ac anogaf hynny'n fawr. Ysgogir rhywfaint o hyn, rhaid imi gydnabod, gan gyfyngiadau ar gynhwysedd yn economi Iwerddon, fel prinder gweithwyr a chost uchel llety byw. Fodd bynnag, mae llawer o'r diddordeb o ganlyniad hefyd i fusnesau yn cydnabod manteision leoli yng Nghymru fel sylfaen i ehangu busnes yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

Yr oeddem yn falch iawn o groesawu Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad pan ymwelodd ag Iwerddon fis Medi diwethaf fel rhan o'i adolygiad o gymorth a datblygiad busnes yng Nghymru. Aeth pum cwmni ar hugain o Gymru ar genhadaeth fasnach lwyddiannus i Iwerddon ar ddiwedd y llynedd a drefnwyd gan Fasnach

Trade International. Employers in Ireland continue to look to Wales to satisfy their labour requirements, building on the successful job fairs organised by our training employment authority and the employment services in north west and south west Wales. An enormous amount of young Welsh people are taking up positions in Ireland.

The Ireland-Wales joint INTERREG III programme for the period up to 2006, which will involve the expenditure of 75 million euros—about IR£60 million—has been warmly received by the European Union Commission in Brussels as one of the best drafted joint programmes. Our Department of Finance officials tell me that their colleagues in the National Assembly administration are a joy to work with. If our Department of Finance says that, it must be something. That work is marked by the strongest sense of co-operation and goodwill, which we appreciate.

The Ireland-Wales INTERREG II programme, which covered the five-year period up to 1999, produced positive, tangible outcomes, including new business opportunities, new products, market development and job creation. It also helped to intensify the human and cultural contacts between our peoples. I have high hopes that the latest programme will contribute to the competitiveness of the Irish and Welsh economies, and I welcome the location of the single secretariat for the programme in Wales.

In more general terms, I am delighted to note that contacts continue to develop in a wide range of areas, and that the pace of ministerial contacts has quickened of late. We recently welcomed the National Assembly Minister for Education and Lifelong Learning, Jane Davidson, to Ireland, and we look forward to many more visits from your developing institutions in future. Anything that we can do to be of assistance, or anything we can do that is of use, we are anxious to do.

We recognise Wales as the home of a proud, gifted and resilient people. The sons and

Ryngwladol Cymru y Cynulliad Cenedlaethol. Mae cyflogwyr yn Iwerddon yn parhau i ddisgwyl i Gymru fodloni eu gofynion o ran gweithwyr, gan adeiladu ar y ffeiriau swyddi llwyddiannus a drefnir gan ein hawdurdod cyflogaeth hyfforddiant a'r gwasanaethau cyflogi yng ngogledd-orllewin a de-orllewin Cymru. Mae nifer fawr iawn o Gymry ifanc yn derbyn swyddi yn Iwerddon.

Croesawyd y rhaglen INTERREG III ar y cyd rhwng Iwerddon a Chymru ar gyfer y cyfnod hyd at 2006, a fydd yn golygu gwario tua 75 miliwn ewro—tua IR£60 miliwn—gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel fel un o'r rhaglenni gorau ar y cyd a luniwyd. Dywed swyddogion ein Hadran Gyllid wrthyf ei fod yn bleser gweithio gyda'u cydweithwyr yng ngweinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Os dywed ein Hadran Gyllid hynny, mae'n golygu rhywbeth. Nodweddir y gwaith hwnnw gan yr ymdeimlad cryfaf o gydweithredu ac ewyllys da, a gwerthfawrogwn hynny.

Arweiniodd y rhaglen INTERREG II rhwng Iwerddon a Chymru, a gwmpasodd y cyfnod o bum mlynedd hyd at 1999, at ganlyniadau cadarnhaol, diriaethol, gan gynnwys cyfleoedd newydd am fusnes, cynhyrchion newydd, datblygiadau yn y farchnad a swyddi'n cael eu creu. Helpodd hefyd i ddwysáu'r cysylltiadau dynol a diwylliannol rhwng ein pobloedd. Disgwyliaf i'r rhaglen ddiweddaraf gyfrannu at natur gystadleuol economïau Iwerddon a Chymru, a chroesawaf leoliad yr ysgrifenyddiaeth sengl ar gyfer y rhaglen yng Nghymru.

Yn fwy cyffredinol, mae'n bleser gennyf nodi bod cysylltiadau'n parhau i ddatblygu mewn ystod eang o feysydd, a bod y cysylltiadau gweinidogol wedi cynyddu'n ddiweddar. Yn ddiweddar, croesawyd Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson, i Iwerddon, ac edrychwn ymlaen at lawer mwy o ymweliadau gan eich egin-sefydliadau yn y dyfodol. Os gallwn wneud unrhyw beth a allai fod o gymorth, neu unrhyw beth y gallwn ei wneud sydd o ddefnydd, yr ydym yn awyddus i wneud hynny.

Cydnabyddwn fod Cymru yn gartref i bobl falch, dawnus a gwydn. Mae meibion a

daughters of this great nation have excelled down the ages in all fields of human endeavour. We celebrate your famous forefathers—the heroes of social justice such as Robert Owen, the founder of the co-operative movement, a movement of which we are proud in Ireland. The co-operative movement is still strong throughout rural Ireland and much of urban Ireland as well. It is probably our strongest movement. Robert Owen was also the pioneer of trade unionism. We celebrate Lloyd George and Aneurin Bevan, the creators of the national pension and the national health service, which are so important, as well as famous coal industrialists, such as David Williams and David Davies, and world class scientists such as Evan Williams, Alfred Wallace and David Hughes.

Welsh proficiency in the arts of music, poetry and song is world-renowned—we know them in Dublin, as everybody that seems to follow your national teams is an excellent singer, and we always look forward to those visits. However, the indigenous, artistic heritage of Wales is gaining wider international recognition. The great annual cultural gathering of the National Eisteddfod focuses and encourages the best of the arts of the Welsh people. Today, many talented sons and daughters of this great nation enjoy global recognition, and we in Ireland enjoy watching you: Dylan Thomas, Richard Burton, Anthony Hopkins, Catherine Zeta Jones, Dennis O’Neill, Tom Jones, Charlotte Church, the Stereophonics, Catatonia, the Manic Street Preachers in popular music, Gareth Edwards and Neil Jenkins in sport, to name but a few. They are all proudly Welsh, yet they have entertained and inspired us with their gifted talents, and are all loved in my country.

Even more important, fundamentally, is the flourishing of singers, poets, dramatists and other writers whose creative work is primarily directed at an audience in Wales itself. In this regard, the status that you have secured for the Welsh language in this modern age is remarkable, and is closely studied in Ireland. A little over 100 years ago in 1898, a young, 25-year-old Irishman

merched y genedl fawr hon wedi rhagori ar hyd y canrifoedd ym mhob un o feysydd ymdrech dynol. Dathlwn eich cyndeidiau enwog—arwyr cyfiawnder cymdeithasol fel Robert Owen, sylfaenydd y mudiad cydweithredol, mudiad yr ydym yn falch ohono yn Iwerddon. Mae’r mudiad cydweithredol yn gryf o hyd ledled Iwerddon wledig ac mewn llawer o ardaloedd trefol Iwerddon hefyd. Dyma ein mudiad cryfaf siŵr o fod. Robert Owen oedd arloeswr undebaeth lafur hefyd. Dathlwn Lloyd George ac Aneurin Bevan, a sefydlodd y pensiwn cenedlaethol a’r gwasanaeth iechyd gwladol, sydd mor bwysig, yn ogystal â diwydianwyr glo enwog, fel David Williams a David Davies, a gwyddonwyr o’r radd flaenaf fel Evan Williams, Alfred Wallace a David Hughes.

Mae gallu Cymru ym meysydd cerddoriaeth, barddoniaeth a chân yn fyd-enwog—fe’u hadwaenom yn Nulyn, gan fod pawb sydd yn ôl pob tebyg yn dilyn eich timau cenedlaethol yn ganwr rhagorol, ac edrychwn ymlaen bob amser at yr ymweliadau hynny. Fodd bynnag, mae treftadaeth gynhenid, artistig Cymru yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ehangach. Mae achlysur blynyddol diwylliannol mawr yr Eisteddfod Genedlaethol yn canolbwyntio ar ac yn annog y gorau o’r celfyddydau i bobl Cymru. Heddiw, mae llawer o feibion a merched talentog y genedl fawr hon yn enwog dros y byd, ac yr ydym ninnau yn Iwerddon yn mwynhau eich gwyllo: Dylan Thomas, Richard Burton, Anthony Hopkins, Catherine Zeta Jones, Dennis O’Neill, Tom Jones, Charlotte Church, y Stereophonics, Catatonia, y Manic Street Preachers mewn cerddoriaeth boblogaidd, Gareth Edwards a Neil Jenkins mewn chwaraeon, gan enwi ond ychydig. Maent i gyd yn falch o fod yn Gymry, ac eto maent wedi ein difyrru a’n hysbrydoli gyda’u doniau disglair, ac fe’u cerir gan bawb yn fy ngwlad i.

Mae ffyniant cantorion, beirdd, dramodwyr ac awduron eraill y mae eu gwaith creadigol wedi ei anelu yn bennaf at gynulleidfa yng Nghymru ei hun, yn y bôn, hyd yn oed yn bwysicach. Yn hyn o beth, mae’r statws a sicrhawyd gennych ar gyfer yr iaith Gymraeg yn yr oes fodern hon yn rhyfeddol, a chedwir llygad manwl arno yn Iwerddon. Ychydig dros 100 mlynedd yn ôl yn 1898, cerddodd

walked down Cathedral Road in Cardiff, and turned into Sophia Gardens where he addressed the National Eisteddfod. His name was Padraig Mac Piarais—Patrick Pearse—and he brought the greetings of the Irish language movement Conradh na Gaeilge—one of our Irish language associations—to the Eisteddfod. He spoke of the admiration of the Irish for how the people of Wales had preserved their Welsh language and culture. It is said that language is one of the title deeds of a nation. We in Ireland today salute and admire the tenacious pride of the Welsh people over many centuries in preserving your language and identity, but perhaps particularly over the century since Patrick Pearse presented his greetings. May the old language of Wales endure.

We have much to learn from Wales and the Welsh in this regard and many other areas, but particularly in regard of the language. My ministerial colleague, Eamon Ó Cuiv, who had responsibility for that brief until recently, has visited Cardiff for discussions with the Assembly's Minister for Culture, Sport and the Welsh Language, Jenny Randerson, among others, to explore the lessons that we in Ireland might learn and apply in our efforts to preserve and promote the use of Ireland's first national language. We have not been nearly as successful as you, but we hope to be able to study and learn, and perhaps recreate it into our own native language.

The history of Ireland over the past 2,000 years indicates that we are an adventurous and outward-looking people, seeking not to conquer, but to carry a message of hope and solidarity. Wales is looking towards a future filled with promise. We, your neighbours in Ireland, look forward to sharing that future with you in friendship and co-operation, and to working together to forge a new relationship for a new era.

Presiding Officer, First Minister, Members of the National Assembly for Wales, I thank you again for the opportunity to be with you. I assure you that the co-operation that we have developed and re-enacted far more during the last few years, particularly since the establishment of the National Assembly for

Gwyddel ifanc, 25 oed i lawr Heol yr Eglwys Gadeiriol yng Nghaerdydd, gan droi i gyfeiriad Gerddi Soffia lle yr anerchodd yr Eisteddfod Genedlaethol. Ei enw oedd Padraig Mac Piarais—Patrick Pearse—a daeth â chyfarchion y mudiad iaith Wyddeleg Conradh na Gaeilge—un o'n cymdeithasau Gwyddeleg ei hiaith—i'r Eisteddfod. Siaradodd am edmygedd y Gwyddelod am y ffordd yr oedd pobl Cymru wedi cadw eu hiaith Gymraeg a'u diwylliant. Dywedir mai iaith yw un o weithredoedd eiddo cenedl. Yr ydym ni yn Iwerddon heddiw yn cydnabod ac yn edmygu balchder dygn y Cymry dros ganrifoedd lawer wrth gadw eich iaith a'ch hunaniaeth, ond efallai yn arbennig yn ystod y ganrif ers i Patrick Pearse gyflwyno ei gyfarchion. Boed i heniaith Cymru barhau.

Mae gennym lawer i'w ddysgu gan Gymru a'r Cymry yn hyn o beth ac mewn sawl maes arall, ond yn arbennig o ran yr iaith. Ymwelodd fy nghyd-weinidog, Eamon Ó Cuiv, a fu'n gyfrifol am y briff hwnnw tan yn ddiweddar, â Chaerdydd ar gyfer trafodaethau gyda Gweinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, Jenny Randerson, ymhlith eraill, i ymchwilio i'r gwersi y gallem ni yn Iwerddon eu dysgu a'u defnyddio yn ein hymdrechion i ddiogelu a hybu'r defnydd o iaith gyntaf genedlaethol Iwerddon. Ni fuom hyd yma mor llwyddiannus â chi, ond gobeithiwn y gallwn astudio a dysgu, a'i hail-greu yn ein mamiaith ein hunain.

Dengys hanes Iwerddon dros y 2,000 o flynyddoedd diwethaf ein bod yn bobl anturus a blaengar, nad ydym yn ceisio gorchfygu ond yn ceisio dwyn neges gobaith ac undod. Mae Cymru yn edrych ymlaen at ddyfodol yn llawn addewid. Edrychwn ninnau, eich cymdogion yn Iwerddon, ymlaen at rannu'r dyfodol hwnnw gyda chi mewn cyfeillgarwch a chydweithrediad, ac i weithio gyda'n gilydd i lunio perthynas newydd ar gyfer cyfnod newydd.

Lywydd, Brif Weinidog, Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, diolchaf ichi unwaith eto am y cyfle i fod gyda chi. Rhoddaf sicrwydd ichi y bydd y cydweithrediad a ddatblygwyd ac a ail-grewyd gennym yn amlach yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn arbennig ers sefydlu Cynulliad

Wales, will continue to develop. For our part, insofar as we can, and learning from your excellent experiences in the areas in which you can help us in so many ways, we will work closely in the future. I assure you that my administration, the members of my Government and the members of the parties that form our Government will do our utmost, in whatever way we can help in our time, to build and develop these relationships and to co-operate in whatever way you, your Committees and Assembly Members desire of us.

I thank you for this opportunity. I deeply appreciate it. May I take the opportunity to thank you for being able to share your national day with you, and say how proud I am to be here with you. Thank you very much. [*Applause.*]

Y Llywydd: Ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, ac ar ran pob plaid yma, diolchaf i'r Taoiseach, Bertie Ahern, am ei araith ysbrydoledig. Bu'n fraint arbennig inni ei gael yma gyda ni heddiw.

Bendith Dewi a Phadrig ar y ddwy wlad.

Cenedlaethol Cymru, yn parhau i ddatblygu. O'n rhan ni, i'r graddau y gallwn, a thrwy ddysgu o'ch profiadau rhagorol yn y meysydd lle y gallwch ein helpu mewn cymaint o ffyrdd, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n gilydd yn y dyfodol. Rhoddaf sicrwydd ichi y gwnaiff fy ngweinyddiaeth, aelodau o'm Llywodraeth ac aelodau'r pleidiau sydd yn ffurfio ein Llywodraeth, ein gorau, ym mha ffordd bynnag y gallwn helpu yn ein hamser, i adeiladu a datblygu'r cysylltiadau hyn a chydweithredu ym mha ffordd bynnag y dymuna eich Pwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad i ni ei wneud.

Diolchaf ichi am y cyfle hwn. Fe'i gwerthfawrogaf yn fawr. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am allu rhannu gŵyl eich nawddsant gyda chi, ac i ddweud pa mor falch yr wyf o fod yma gyda chi. Diolch yn fawr iawn. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: On behalf of the National Assembly, and on behalf of each party here, I thank the Taoiseach, Bertie Ahern, for his inspired speech. It has been a great privilege for us to have him here with us today.

The blessing of David and Patrick on both countries.

*Daeth yr anerchiad i ben am 12.29 p.m.
The address ended at 12.29 p.m.*